

Adroddiad Blynyddol a datganiad o gyfrifon

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2023/24

Am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

Adroddiad Blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 11(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 3 Chwefror 2025



© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i wefan

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd-parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Tel: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5019-9

E03149026 02/25

Wedi cael ei argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu

Wedi cael ei argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adran 1: Adroddiad perfformiad	6
Trosolwg.....	6
Crynodeb o'n perfformiad	12
Proffil risg	20
Dadansoddi perfformiad	34
Adran 2: Adroddiad atebolrwydd	91
Adroddiad llywodraethiant corfforaethol	91
Adroddiad tâl a staff	113
Adroddiad atebolrwydd seneddol	130
Adran 3: Datganiadau ariannol	133

Adran 1: adroddiad perfformiad

Trosolwg

Amdanom ni – pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym yn goruchwyllo system gwynion yr heddlu ac yn ymchwilio i ymddygiad swyddogion neu aelodau o staff yr heddlu, a'r digwyddiadau a'r cwynion mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Rydym yn defnyddio'r hyn a dysgwn o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona. Mae ein holl waith yn cael ei wneud yn annibynnol ar yr heddlu, y llywodraeth a grwpiau sydd â budd.

Mae heddluoedd yn delio â mwyafrif y cwynion sydd yn erbyn swyddogion heddlu a staff heddlu. Mae'n rhaid i heddluoedd gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni – ni waeth a yw rhywun wedi gwneud cwyn neu beidio.

Mae heddluoedd arbenigol, fel Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, hefyd yn dod o dan ein hawdurdodaeth. Yn yr un modd, rydym yn goruchwyllo'r system gwynion ar gyfer rhai sefydliadau ychwanegol, fel Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC), yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol (NCA), a'r Awdurdod Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA). Rydym yn ymchwilio i rai cwynion difrifol a materion ymddygiad sy'n ymwneud â staff o'r sefydliadau hyn.

Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throsedd (PCCs) a'u dirprwyon, a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Ein gorchwyl, gweledigaeth a gwerthoedd

Ein gorchwyl yw gwella plismona trwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dwyn yr heddlu i gyfrif a sicrhau bod dysgu yn creu newid.

Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu bod â ffydd a hyder yn yr heddlu.

Ein gwerthoedd, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a rhanddeiliaid allanol, yw:

- ceisio dod o hyd i'r gwirionedd
- bod yn gynhwysol
- grymuso pobl
- bod yn ddygn
- gwneud gwahaniaeth

Ein harweinyddiaeth a'n strwythur

Cawn ein harwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol, Rachel Watson. Mae Rachel yn arwain y tîm gweithredol ac mae'n cadeirio Bwrdd IOPC, sy'n cynnwys chwe chyfarwyddwr anweithredol.

Cefnogir y Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd gan dîm gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr rhanbarthol a Chyfarwyddwr Cymru.

Yn ôl y gyfraith, ni all ein Cyfarwyddwr Cyffredinol fod wedi gweithio i'r heddlu. Ar hyn o bryd, nid oes gan un o'n cyfarwyddwyr rhanbarthol na Chyfarwyddwr Cymru gefndir plismona.

Ar adeg cyhoeddi rydym yn y broses o newid ein strwythur uwch, a symud i fodel gweithio cenedlaethol o'n model rhanbarthol presennol. Mae hyn yn dilyn [adolygiad a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet o IOPC a gynhaliwyd gan Dr Gillian Fairfield](#) o dan y Rhaglen Adolygu Cyrff Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024, ychydig cyn diwedd y cyfnod adrodd a gwmpesir gan y ddogfen hon.

Am ragor o wybodaeth am ein huwch arweinwyr a'n strwythur [ewch i'n gwefan](#).

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a chyfrifon 2023/24, gan edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol yn union cyn i mi ymuno â IOPC fel Cyfarwyddwr Cyffredinol. Roedd y cyfnod hwn yn cwmpasu ail 12 mis ein strategaeth bum mlynedd: 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet adolygiad annibynnol Dr Gillian Fairfield o'n heffeithiolrwydd. Fe wnaethom groesawu ei phwyslais ar yr amgylchedd cymhleth a heriol rydym yn gweithio ynddo a'i chydabyddiaeth fod IOPC yn rhan hanfodol o'r system sy'n dwyn yr heddlu i gyfrif.

Ers hynny rydym wedi lansio rhaglen drawsnewid radical i ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau a darparu gwell gwasanaeth i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r system gwynion. Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â llawer o argymhellion Dr Fairfield, yn ogystal â sicrhau y byddwn yn sefydliad sy'n gyson, yn perfformio'n dda ac yn rhoi gwerth am arian.

Mae ein diwygiadau eang yn cwmpasu newidiadau i'n strwythur, gan newid o fodel rhanbarthol i fodel cenedlaethol ar gyfer ein gweithrediadau, ochr yn ochr â newidiadau i systemau, prosesau a hyfforddiant TGCh. Bydd y rhain yn ein galluogi i gynyddu cynhyrchiant a chwblhau mwy o adolygiadau ac ymchwiliadau amserol o ansawdd uchel – gan sicrhau bod yr heddlu a'r cyhoedd fel ei gilydd yn ymddiried ynom.

Rydym yn parhau i wynebu cyfnod heriol. Mae hyder y cyhoedd mewn plismona ar ei lefel isaf ers blynyddoedd lawer ac ni fu'r galw am ein gwasanaethau erioed yn uwch.

Dros y flwyddyn ddiwethaf (2023/24), cawsom fwy na 7,000 o atgyfeiriadau gan heddluoedd a chyrff eraill – y lefel uchaf erioed, 72% yn fwy na phan gawsom ein sefydlu yn 2018.

Cynyddodd y galw am adolygiadau yn 2023/24 gan 7% i 2,150 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, tra bod nifer y cwynion i heddluoedd a chyrff plismona lleol wedi cynyddu 5% yn yr un cyfnod. Ochr yn ochr â hyn, mae nifer ein hymchwiliadau annibynnol a gwblhawyd wedi gostwng – ar ddiwedd y flwyddyn, roeddem ychydig yn is na'n targed i gwblhau 85% o ymchwiliadau craidd o fewn 12 mis. Mae hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys cymhlethdod, symiau sylweddol o dystiolaeth ddigidol a mwy o angen am dystiolaeth arbenigol, yn ogystal ag oedi ar draws y system cyfiawnder troseddol ehangach sy'n effeithio ar ein gwaith.

Mae hyn ar adeg o bwysau ariannol sylweddol. Rhybuddiodd adolygiad Dr Fairfield y byddai trywydd presennol y gyllideb yn arwain at ostyngiad o 34% mewn termau real yn ein cyllid ers 2018/19, ar adeg pan nad yw ein gwaith erioed wedi bod yn fwy hanfodol.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig newydd i flaenoriaethu buddsoddiad yn ein hamcanion strategol yn ystod y cyfnod hwn o gyllid cyfyngedig. Fe wnaethom hefyd ddechrau adolygiad o'n strwythur uwch a fydd yn cael ei gwblhau yn 2024/25, gan ein gosod ar y trwydd i gyflawni ein cynlluniau mor effeithlon â phosibl.

Mae llawer i fod yn falch ohono eleni: mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o IOPC ar gynydd, ynghyd â mwy o ddealltwriaeth ein bod yn annibynnol i'r heddlu.

Cynhaliodd ein tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid 240 o ddigwyddiadau yn ymestyn allan i gymunedau ledled Lloegr a Chymru, yn aml mewn sefyllfaoedd sensitif iawn.

O ganlyniad i'n hymchwiliadau a'n gwaith achos fe wnaethom 133 o argymhellion i wella arferion, polisïau neu hyfforddiant plismona.

Braf iawn oedd darllen sylw Dr Fairfield sef “Yn ddi-ffael fe ddaethon ni o hyd i weithlu brwdfrydig ac ymroddedig sy'n falch o'r gwaith maen nhw'n ei wneud”.

Hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr yn IOPC am eu hymdrech barhaus a'u hymrwymiad i'n gorchwyl. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am y doethineb a'r her gadarnhaol y maent yn eu cyflwyno i'r sefydliad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm rhagflaenydd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Tom Whiting, am ei fewnwelediad a'i gymorth wrth i mi ymuno â'r sefydliad.

Mae gennym lawer o waith o'n blaenau, ond rwy'n falch o ddweud ein bod ar raglen uchelgeisiol i gwrdd â'n heriau, ac edrychaf ymlaen at rannu mwy ar ein gwaith yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Rachel Watson', with a long horizontal flourish extending to the right.

Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona

Ein strategaeth 2022-2027

Yn 2022 lansiodd ein hail gynllun strategol, o'r enw 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r strategaeth ar gyfer ei chyflawni. Mae'n egluro beth fydd ein blaenoriaethau a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hynny. Mae'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

Mae'n gynllun uchelgeisiol gyda'n nod dros y blynyddoedd i ddod i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona trwy arolygiaeth gadarn, annibynnol. Byddwn yn gwneud hynny drwy weithio tuag at bedwar amcan strategol:

- Ymwybyddiaeth a hyder: bod pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.
- Atebolrwydd: bod y system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dwyn heddlu i gyfrif.
- Arwain gwelliant: bod ein dystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.
- Perfformiad: rydym yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Gallwch [lawrlwytho copi o Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona](#) o'n gwefan.

Risgiau allweddol

Rydym yn ceisio nodi risgiau strategol sylweddol a allai ein hatal rhag cyflawni ein pedwar amcan, ac asesu'r rhain a'u rheoli trwy weithgareddau lliniaru a lleihau risg. Rydym yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ar y risgiau strategol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PASR) a'n Bwrdd Unedol.

Rydym yn rheoli risgiau lefel is o fewn cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau fel mae'n briodol. Rydym wedi rhoi proses uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ar y lefel gywir.

Mae adran proffil risg yr adroddiad (gweler tudalen 20) yn egluro'r risgiau mawr a wynebwyd gennym yn 2023/24 a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2023/24

Amcan: Mae pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i'w ddefnyddio.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2023/24 targed	2023/24 gwirione ddol	2022/23 gwirione ddol
Cynyddu ymwybyddiaeth o IOPC i 65%	65%	68%	62%

Sylwadau ar y perfformiad uchod (tudalen 34).

Amcan: mae'r system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dwyn yr heddlu i gyfrif.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2023/24 targed	2023/24 gwirione ddol	2022/23 gwirione ddol
Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer achosion a gyfeirir atom o fewn pum niwrnod gwaith ar gyfartaledd.	100%	61%	ddim yn gymwys
Cwblhau 85% o ymchwiliadau o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr).	85%	83%	89%
Cwblhau 33% o ymchwiliadau o fewn chwe mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)	33%	34%	38%
Adolygu achosion marwolaeth neu anafiadau difrifol a ymchwiliwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod gwaith ar gyfartaledd o'r dyddiad y mae IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir.	30WD	42WD	36WD

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2023/24 targed	2023/24 gwirioneddol		2022/23 gwirioneddol
Penderfynu ar bob adolygiad o fewn cyfartaledd o 150/135/125/115 diwrnod gwaith (ar gyfer chwarteri 1-4 yn y drefn honno) o'r dyddiad y mae IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir.	Q1 150WD	Q1 132WD	Yn gyffredinol 119WD	Yn gyffredinol 119WD
	Q2 135WD	Q2 121WD		
	Q3 125WD	Q3 115WD		
	Q4 115WD	Q4 108WD		

Sylwadau ar y perfformiad uchod (tudalen 38).

Amcan: mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2023/24 targed	2023/24 gwirioneddol	2022/23 gwirioneddol
Sicrhau bod 80% o'n hargymhellion dysgu paragraff 28A yn cael eu derbyn gan heddluoedd.	80%	94%	92%
Cynyddu canran y rhanddeiliaid plismona ac atebolwydd sy'n meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd i wella arfer yr heddlu i 67%.	67%	60%	66%
Cynyddu canran y rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona sy'n meddwl ein bod yn rhannu'r hyn a ddysgir yn effeithiol er mwyn gwella arferion plismona i 46%.	46%	44%	37%

Sylwadau ar y perfformiad uchod (tudalen 60).

Amcan: bod yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2023/24 targed	2023/24 gwirione ddol	2022/23 gwirione ddol
Cynnal sgôr ymgysylltu â staff o 67% (fel y mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol).	67%	61%	67%
Sicrhau bod o leiaf 64% o weithwyr yn meddwl ei bod yn ddiogel herio'r ffordd y gwneir pethau yn IOPC.	64%	51%	ddim yn gymwys
Sicrhau bod o leiaf 50% o weithwyr yn teimlo bod newid yn cael ei reoli'n dda yn IOPC.	50%	27%	ddim yn gymwys
Sicrhau bod 93% o weithwyr yn credu bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.	93%	<i>Data ddim ar gael¹</i>	ddim yn gymwys
Sicrhau bod 80% o'n hymchwilyr, sydd wedi bod yn eu swyddi am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad.	80%	93.3%	92.5%
Gwella cyfran ein pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig tuag at gynrychiolaeth sy'n cyfateb i ddemograffeg ardaloedd trefol (fel y mesurwyd gan ddata cyfrifiad 2021).	18%	16.8%	16.7%
Cyflawni cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae amrywiad o 0% yn dangos y defnydd mwyaf posibl o'n cyllid dirprwyedig.	0% amrywiad	0% amrywiad	0% amrywiad

Sylwadau ar y perfformiad uchod (tudalen 75).

¹ Gweler y naratif ar dudalen 77.

Adolygiad ariannol 2023-2024

Mae ein proses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig treigl yn ystyried y gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni strategaeth IOPC. Mae'r broses hon hefyd yn gosod y fframwaith i hwyluso llif pellach o gyfleoedd ac effeithlonrwydd i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a gwynwch y sefydliad. Mae'r gyllideb flynyddol derfynol y cytunwyd arni yn llywio dirprwyaethau cyllideb IOPC, adroddiadau ariannol a gwneud penderfyniadau trwy gydol y flwyddyn gyllideb sydd i ddod.

Ein prif ffynhonnell cyllid yw cymorth grant, sy'n dibynnu ar benderfyniadau blaenoriaethu'r Swyddfa Gartref mewn tirwedd ariannol anodd ar draws y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond digon o arian parod rydym yn ei dynnu i lawr i dalu am ein gwariant refeniw a chyfalaf. Mae'r tabl isod yn dangos ein dirprwyaeth cymorth grant ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Grantiau fesul blwyddyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000
Refeniw	71,869	69,645	69,645	69,645	71,114
Cyfalaf	3,016	2,000	3,000	3,000	2,046
Dibrisiant (nad yw'n arian parod)	5,265	6,798	4,679	7,190	6,020

Cyllid Ychwanegol

Dyfarwyd cyllid dros dro o £3.376m yn ystod 2023/24 uwchlaw'r setliad cyllid o £68.493m. Roedd y cyllid hwn yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog uwch a thaliadau anghyfunol untro i staff a ganiateir drwy gylch gwaith cyflog y Gwasanaeth Sifil.

Effeithlonrwydd

Mae'r pwysau cyllidebol rydym yn ei brofi wedi cynyddu bob blwyddyn, fe wnaethom ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24 ar ôl gweld gostyngiad o 23% yn y gyllideb arian parod mewn termau real ers 2018/19. Rydym wedi rheoli hyn yn llwyddiannus trwy ymgyrch effeithlonrwydd ddwys, a sicraodd arbedion ychwanegol o £1.09m yn ystod 2023/24.

Alldro

Rydym yn dyrannu cyllidebau i'r uwch swyddog gweithredol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau gwariant a sicrhau gwerth am arian. Trwy gydol y flwyddyn rydym yn rhag-weld ein halldro ariannol er mwyn galluogi adrodd amserol a gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau. Mae'r tabl isod yn dangos y duedd mewn alldro a thuedd mewn cyfwerth ag amser llawn (CALI).

Alldro yn ôl blwyddyn ariannol	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000
Refeniw o gontractau	74	64	105	91	78
Costau staff	(57,665)	(54,367)	(51,917)	(53,950)	(50,938)
Costau TG	(5,135)	(5,131)	(5,318)	(7,160)	(8,484)
Costau ystadau	(4,032)	(3,369)	(4,971)	(5,442)	(4,300)
Costau teithio	(658)	(860)	(545)	(408)	(1,564)
Costau hyfforddiant a recriwtio	(494)	(772)	(763)	(569)	(964)
Gwasanaethau cyfreithiol	(1,035)	(1,210)	(1,531)	(1,408)	(995)
Costau eraill	(2,006)	(2,101)	(2,117)	(2,058)	(1,929)
Costau heb fod yn arian parod	(4,069)	(4,766)	(3,372)	(2,911)	(4,800)
Gwariant net am y flwyddyn	(75,020)	(72,512)	(70,429)	(73,815)	(73,896)
Nifer cyfartalog y staff CALI	991	1,001	965	987	993

Mae'r tabl alldro yn dangos bod gwariant ar staff wedi cynyddu o gymharu â 2022/23 tra bod CALI cyfartalog ar gyfer y flwyddyn wedi gostwng. Mae hyn i'w briodoli i godiad cyflog a thaliad untro anghyfunol i'r holl staff yn 2023/24 fel y diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet.

Cynyddodd costau ystadau yn ymwneud â threthi, taliadau gwasanaeth a chyfleustodau yn dilyn cynnydd ym mhrisiau'r farchnad. Cynyddodd costau dadfeiliad ar ein hadeiladau yn dilyn diwedd prydlesi ein costau am y flwyddyn hefyd.

Lleihawyd gwariant teithio a hyfforddiant oherwydd arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd a llai o recriwtio yn deillio o leihad yn y sefydliad staff.

Mae costau cyfreithiol wedi gostwng oherwydd costau is ar gyfer ffioedd arbenigwyr.

Mae gwariant anariannol wedi gostwng oherwydd gostyngiad mewn darpariaethau.

Gwariant cyfalaf

TGCh

Mae buddsoddi mewn technoleg yn elfen allweddol o ddylunio ein busnes ar gyfer y dyfodol. Ffocws ein cynllun ar gyfer y flwyddyn oedd parhau i fuddsoddi mewn tri phrosiect blaenoriaeth uchel er mwyn:

- Adeiladu ein system rheoli achosion newydd i'w rhoi ar waith ym mis Ebrill 2024, i gefnogi effeithlonrwydd yn ein prosesau.
- Gwelliant parhaus yn ein system warws data, gan ddod â ffynonellau data ychwanegol i mewn i wella mewnwelediad a dadansoddiad
- Cynllun i adnewyddu offer sydd wedi dyddio

Ystadau

Eleni fe wnaethom adnewyddu rhan o'n swyddfeydd yn Birmingham a Sale i leihau ein gofod llawr a lleihau costau rhedeg eiddo.

Mae'r tabl isod yn dangos ein tuedd gwariant cyfalaf. Mae'r gwariant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi cael ei ddadgyfuno.

Gwariant cyfalaf fesul blwyddyn ariannol	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000
Ystadau	135	151	555	458	653
Fflyd	-	-	-	611	-
TGCh	2,401	1,782	2,700	1,936	1,370

Cyfanswm gwariant cyfalaf	2,536	1,933	3,255	3,005	2,023
----------------------------------	--------------	--------------	--------------	--------------	--------------

Datganiad o sefyllfa ariannol

Mae asedau cyfredol yn cynnwys asedau hawl i ddefnyddio ar gyfer ein hystadau ar brydles fel sy'n ofynnol gan IFRS 16. Mae cyfanswm yr asedau wedi gostwng yn bennaf mewn perthynas â bywydau asedau llai. Adlewyrchir hyn hefyd mewn llai o rwymedigaethau prydles.

Mae swm yr arian parod a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, mae'r balans ychydig yn uwch na'n hystod targed ar gyfer arian parod o £6m i £8m. Yr arian parod a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £8.293m (2022/23 £6.603m).

Prynu i dalu

Rhoddir dirprwyaeth caffael gan y Swyddfa Gartref ar y sail ein bod yn dilyn arfer gorau, yn cyflawni gwerth gorau, ac rydym yn cydymffurfio â pholisïau caffael y Swyddfa Gartref a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu dyfarniadau contract rydym yn defnyddio fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS).

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r llwybrau caffael fesul canran ar gyfer 2023/24. 'Llwybrau eraill' yw lle nad oes fframwaith addas yn bodoli, felly rydym yn cyflawni gofyniad gan ddefnyddio ein proses gaffael ein hunain. Gall hyn gynnwys chwilio'r rhynggrwyd am gyflenwyr posibl a chyflawni'r diwydrwydd dyladwy angenrheidiol arnynt cyn dyfarnu contract. Mae'r rhain yn cynnwys Dyfarniad Uniongyrchol a Gweithredu Tendr Sengl.

Llwybr caffael	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20
Siambrau	0%	0%	5%	5%	7%
CCS a GCloud	61%	61%	61%	61%	62%
Llwybrau eraill	39%	39%	34%	34%	31%

Rydym yn cadw at y Safon Brydeinig ar gyfer Cyflawni Perfformiadau Talu Da mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Rydym yn anelu i dalu pob anfoneb ddilys yn unol â thelerau contract neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys lle na chytunir ar delerau. Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau mewn taliadau

cyflenwyr. Mae'r gostyngiad mewn taliadau o fewn 5 niwrnod a 10 diwrnod yn ymwneud â chyflwyno proses awdurdodi fwy cadarn ar gyfer derbyn nwyddau a gwasanaethau.

Talu cyflenwyr	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20
Talu o fewn 5 niwrnod	55%	57%	59%	67%	71%
Talu o fewn 10 diwrnod	81%	82%	87%	88%	90%
Talu o fewn 30 diwrnod	98%	97%	98%	99%	99%

Rhagolygon ar gyfer 2024/25

Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ein ffocws ar gyfer 2024/25 yw parhau i gyflawni'r strategaeth bum mlynedd dros y tair blynedd sy'n weddill hyd at fis Mawrth 2027.

Creu arbedion effeithlonrwydd

Mae ein strategaeth yn cynnwys rhaglen cynhyrchiant ac effeithlonrwydd helaeth gydag arbedion cytunedig o dros £13.4m rydym wedi ymrwymo i'w cyflawni, gyda £6.26m wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25.

Buddsoddi

Byddwn yn buddsoddi mewn staff ychwanegol i gynyddu nifer yr adolygiadau ac ymchwiliadau a gwella amseroldeb y gwaith hwnnw. Byddwn hefyd yn buddsoddi yn ein Rhaglen Drawsnewid, a fydd yn gwella ein gallu i gyflawni cynhyrchiant ychwanegol a ffocws defnyddwyr gwasanaethau, gan gyflawni elfennau o argymhellion adolygiad Swyddfa'r Cabinet a chyflawni ein gwaith ar newid deddfwriaethol.

Proffil risg

Nodwch, mae'r adran ganlynol yn ymdrin â blwyddyn ariannol 2023/24 ac yn cynrychioli ein proffil risg ar 31 Mawrth 2024. Nid yw'r newidiadau sydd wedi digwydd rhwng y dyddiad hwn a dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn wedi'u nodi yma.

Mae IOPC wedi bod yn agored i risg sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. Dechreuodd y gofrestr risg strategol y flwyddyn, sy'n dogfennu'r risgiau lefel uchaf ar draws y sefydliad, gan adlewyrchu 15 risg (A-O).

Wrth i'r flwyddyn barhau ychwanegwyd chwe risg arall (P, Q, R, S, T, ac U), fodd bynnag cafodd E, I, P a S eu dileu cyn diwedd y flwyddyn. O ganlyniad, daeth IOPC â'r flwyddyn i ben gydag 17 o risgiau strategol, a nodwyd 13 ohonynt cyn dechrau'r flwyddyn.

Mae'r tabl ar dudalen 23 yn manylu ar yr holl risgiau hyn, eu prif fesurau lliniaru, yr awydd cysylltiedig am risg a'r cyfeiriad teithio.

Dull IOPC o liniaru risg yn ystod y flwyddyn oedd rhoi camau gweithredu ar waith i leihau'r sgorau tebygolrwydd ac effaith i ddod â nhw i lawr i'r lefel archwaeth y cytunwyd arni (neu wyriad a dderbynnir). Os barnwyd bod y camau hynny'n annigonol a bod y sgôr risg yn dal y tu hwnt i'r archwaeth, nodwyd camau gweithredu ychwanegol a'u cyflwyno lle'n briodol. Mae'r matrices o dan y tabl risgiau ar dudalen 33 yn dangos y sefyllfa risg ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r mesurau lliniaru.

Ar ddechrau'r flwyddyn, y prif bryderon oedd:

(B) Defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn dod yn fwyfwy rhwystredig oherwydd oedi / ôl-groniad gwaith achos.

Fe wnaethom geisio lliniaru'r bygythiad hwn trwy ddarparu rhagolygon realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau eu hadolygiadau a'u diweddarau trwy gydol y broses. Cychwynwyd prosiect ar gyfer Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP) a bydd hyn yn parhau i gyfrannu at leihau'r risg a'r ôl-groniadau erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt.

Yn ogystal, rydym yn bwriadu cyflwyno cam 2 o'r NTP i gyflawni gwelliannau busnes ychwanegol yn ystod 24/25 i gwrdd â'r cynnydd yn y galwadau adolygu presennol a lleihau'r ôl-groniad yn unol â'n modelu o'n hadnoddau a'n llwyth gwaith a ragwelir.

(C) Gall newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfeiriad gwleidyddol ehangu cylch gwaith IOPC yn sylweddol, gyda'r canlyniad bod adnoddau'n cael eu dargyfeirio oddi wrth gyflawni rhagoriaeth yn ein gweithgareddau craidd.

Fe wnaethom geisio lliniaru'r bygythiad hwn trwy ddefnyddio perthnasoedd â rhanddeiliaid a chwilio am gyfleoedd i ddarparu adnoddau ar y cyd a/neu dasgau i'w cwblhau gan randdeiliaid plismona a chyflenwyr cymeradwy, trwy gydweithio â'r tîm Strategaeth ac Effaith i ragfynegi a modelu newidiadau wrth gyfrannu at sganio'r gorwel sefydliadol.

Rydym yn gyfforddus bod y risg hon wedi'i lliniaru cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl o ystyried ein hawydd am risg ar gyfer y maes hwn. Felly mae'r risg yn parhau, ond yn diweddu'r flwyddyn ar darged.

(J) Nid oes gennym y data sydd eu hangen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus nac i ddangos ein heffaith ar system gwynion yr heddlu.

Fe wnaethom geisio lliniaru'r bygythiad hwn drwy recriwtio tîm llywodraethu data a dylunio llwyfan data newydd sy'n dechnegol alluog i amlyncu data sy'n dderbyniol o gyflym. Yn ogystal, yn ystod 2024/25 rydym yn bwriadu cyflwyno Fframwaith Llywodraethu Data a chynllun Perchenogaeth Data.

Yn ystod y flwyddyn, nodwyd y bygythiadau newydd canlynol gan y Bwrdd Rheoli:

(P) Mae risg nad oes digon o gapasiti yn y sefydliad ehangach i gefnogi cynllunio'r gweithlu ac efallai nad yw'r gyfarwyddiaeth pobl yn ddigon medrus i gynllunio'r gweithlu i gefnogi'r sefydliad.

Lliniarwyd y risg hon yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn (gweler y cofnod 'P' yn y tabl isod) a chafodd ei dynnu oddi ar y gofrestr ym mis Medi 2023.

(Q) O ganlyniad i ddiffyg hysbysiad amserol o'r cod Rheoleiddiwr Gwyddoniaeth Fforensig newydd, ni fydd IOPC yn gallu cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir (yn berthnasol mewn achosion troseddol ar gyfer nifer o weithgareddau gwyddoniaeth fforensig a gynhelir yn fewnol gan staff IOPC) erbyn y dyddiad gofynnol. Yn ogystal, bydd angen ystyried cydymffurfiaeth cyflenwyr allanol â'r cod ar gyfer gweithgarwch gwyddoniaeth fforensig a gcontractir yn allanol sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, hefyd.

Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru trwy gyfarfod â'r rheolydd i drafod beth yw'r gofynion a thynnu sylw at y ffaith na chawsom ein hysbysu o flaen llaw o'r gofynion newydd. Mae pecyn E-ddysgu ar gyfer yr holl staff wedi'i lansio ac mae'n orfodol i bob aelod o staff ymchwilio. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda'r rheolydd i ganfod os yw ein dehongliad o'r cod (yn benodol sut mae'n berthnasol i'n gwaith) yn gywir. Rydym hefyd yn ystyried pa achrediad sefydliad, os o gwbl, sydd ei angen.

(R) Mae risg na fydd IOPC yn gallu cyflawni ei strategaeth i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona o ganlyniad i ostyngiad sylweddol mewn cyllid.

Mae IOPC yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod deialog barhaus â'r Swyddfa Gartref ynghylch ein strategaeth a'n perfformiad ynghyd â chyflwyniadau i gefnogi'r broses Adolygu Gwariant Corfforaethol. Rydym hefyd wedi sefydlu gweithgor o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac wedi cefnogi datblygiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP). Yn ogystal, rydym yn bwriadu gweithredu Rhaglen Drawsnewid sengl i ddarparu ein gwasanaethau statudol yn fwy effeithlon.

(S) Roedd risg o orwariant sylweddol (dros £1m) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Lliniarwyd y risg gorwariant yn llwyddiannus trwy gamau rheoli i gyfyngu ar deithio, hyfforddiant a goramser nad oedd yn hanfodol. Rhoddwyd proses recriwtio ystyriol ar waith hefyd i leihau costau staff. Tynnwyd y risg oddi ar y gofrestr ym mis Ionawr 2024.

(T) Ar ôl Ionawr 2024 bydd IOPC yn gweithredu gyda'r cworwm NED lleiaf hyd nes y bydd gweithgaredd recriwtio'r Swyddfa Gartref wedi'i gwblhau. Mae risg felly y gallai unrhyw absenoldeb heb ei gynllunio ar gyfer yr NED atal cyfarfodydd ffurfiol bwrdd a/neu bwyllgor IOPC rhag bod â chworwm a bydd hyn yn gwaethygu os bydd unrhyw oedi yn y broses recriwtio.

Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru â chyflwyniad i'r Swyddfa Gartref i estyn telerau'r NEDau presennol. Daethpwyd i gytundeb y bydd nifer â chworwm o NEDau yn aros yn eu swyddi nes bod rhai newydd yn cael eu recriwtio ac yn eu swyddi.

Nid oes unrhyw gamau ychwanegol y gallwn eu cymryd i liniaru'r risg hon, ar ddiwedd y flwyddyn roeddem yn aros am benodiad ein Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd gan y Swyddfa Gartref.


Nodwyd y risgiau canlynol ychydig cyn diwedd y flwyddyn:



(U) Mae staff yn cael eu heffeithio'n negyddol gan ffactorau mewnol ac allanol: er enghraifft, pwysau ar draws system gwynion yr heddlu / llwyth gwaith uchel / MTFP ac ansicrwydd yn y gweithle / yr argyfwng costau byw ac ati.


Rydym yn bwriadu lliniaru'r risg newydd hon drwy ddarparu cymorth i reolwyr llinell wrth arwain newid, gan gynnig cymorth costau byw a chymorth iechyd galwedigaethol i'n staff.

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu ein risgiau strategol ar gyfer y flwyddyn gyfan ynghyd ag allwedd sy'n esbonio ein diffiniadau o archwaeth risg.

Allwedd ar gyfer diffiniadau archwaeth risg:

Archwaeth	Diffiniad	Taflywbr ar ddiwedd y flwyddyn (o'r dyddiad a nodwyd)
Ceisio	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau.	Cynnydd risg 
Ar agor	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau'n gryf.	Gostyngiad risg 
Canolig	Ffafiaeth ar gyfer danfoniad diogel.	Dim symudiad 
Gofalus	Hynod geidwadol	Ar y sgôr targed 
Gwrthwyne bus	Mae osgoi risg yn amcan craidd	



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
A Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn aneffeithiol	Fframwaith ymgysylltu ag uwch randdeiliaid yn ei le. Cynnull cyfarfod grŵp rhanddeiliaid ar faterion allweddol sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd. Cyfarfodydd rheolaidd â Phrif Gwnstabiliaid, Penaethiaid Safonau Proffesiynol, PCC, a thimau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau.	Ar agor	
B Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn dod yn fwyfwy	Monitro perfformiad amseroldeb a modelu rhagweld.	Gofalus	




Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>rhwystredig oherwydd oedi/ôl-groniad gwaith achos.</p>	<p>Rhoi rhagolygon realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau eu hadolygiadau a'u diweddarau drwy gydol y broses.</p> <p>Cychwynnwyd prosiect ar gyfer Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP), bydd hyn yn parhau i gyfrannu at leihau'r risg a'r ôl-groniadau erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt.</p>		
<p>C Gallai newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfeiriad gwleidyddol ehangu cylch gwaith IOPC yn sylweddol.</p>	<p>Defnyddio perthnasoedd â rhanddeiliaid a chwilio am gyfleoedd i ddarparu adnoddau ar y cyd a/neu dasgau i'w cwblhau gan randdeiliaid plismona a chyflenwyr cymeradwy.</p> <p>Cyfraniad at sganio gorwelion sefydliadol a gwaith cydweithredol gyda Strategaeth ac Effaith i ragfynegi a modelu newidiadau.</p> <p>Datblygu Gwybodaeth Reoli a data fel offeryn rhagfynegi.</p>	<p>Ceisio</p>	<p></p>


Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>D Mae arferion heddlu gwael ac achosion camymddwyn proffil uchel yn parhau heb unrhyw dystiolaeth o newid/gwelliant mewn plismona.</p>	<p>Cyhoeddi Adroddiad Effaith blynyddol a chylchgronau Learning the Lessons.</p> <p>Amlygu a rhannu arfer da â heddluoedd a chyrrff plismona lleol trwy ein rôl Goruchwylio.</p> <p>Cynllun peilot i fynd ar drywydd argymhellion dysgu.</p>	Gofalus	↔
<p>E Mae newid radical yn y modd y trefnir heddluoedd Lloegr/Cymru yn digwydd e.e. gostyngiad sylweddol yn nifer yr heddluoedd i fodel 'rhanbarthol'.</p>	<p>Gosod mesurau gwylio briff fel arwydd ein bod yn monitro'r system er ei fod allan o'n rheolaeth</p>	Gwrthwynebus	↓
<p>F Cynyddu ymyrraeth wleidyddol a chyfeiriad y llywodraeth yn y ffordd y caiff y sefydliad ei redeg.</p>	<p>Perthnasoedd gwaith / dylanwad lefel uwch cadarnhaol gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweinidogion • Gweinidogion yr wrthblaid • ASau • Uned Noddi • Rhanddeiliaid plismona allweddol 	Gwrthwynebus	★




Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	Datblygu dull ymgysylltu â rhanddeiliaid		
<p>G Mae gan IOPC atebolrwydd am gyflawni canlyniadau y tu hwnt i'w reolaeth.</p>	<p>Egluro/atgyfnerthu locws IOPC trwy ymgysylltu â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Seneddwyr • Rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona (gan gynnwys ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig ar ddigwyddiadau critigol) • trwy negeseuon cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol rhagweithiol 	Cymedrol	↔
<p>H Mae'r newid diwylliannol (mewnol) sydd ei angen ar gyfer y cyfeiriad strategol presennol yn rhy fawr.</p>	<p>Wedi nodi'r newid diwylliannol angenrheidiol i gyflawni'r strategaeth gorfforaethol a deall y rhyngddibyniaethau.</p> <p>Cyflwyno goblygiadau'r strategaeth newydd i'r holl staff gan ddechrau â sesiynau Nawr a Nesaf.</p> <p>Defnyddio ymyriadau Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol a Siarter Datblygu Arweinyddiaeth i</p>	Gofalus	↔


Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	gynnwys arweinwyr yn y strategaeth gorfforaethol		
I Mae cyfyngiadau cyllidebol yn ystod oes y strategaeth IOPC newydd yn uwch nag a gynlluniwyd ar ei gyfer ar hyn o bryd. Gall unrhyw gyfyngiadau cyllidebol tymor byr ansefydlogi'r sefydliad.	Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cytunwyd arno gan y Bwrdd Unedol. Deialog barhaus â'r Swyddfa Gartref am strategaeth a pherfformiad cyfredol a chyflwyniadau i'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r broses CSR a Chyfarfodydd yr Uwch Noddwyr.	Canolig	↔
J Nid oes gennym y data sydd eu hangen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus nac i ddangos ein heffaith ar system gwynion yr heddlu.	Mae'r dyluniad ar gyfer llwyfan data newydd yn cynnwys y dylai fod yn dechnegol alluog i amlyncu data sy'n dderbyniol o gyflym.	Ar agor	↔
K Mae newidiadau yn y dirwedd wleidyddol yn arwain at bersbectif gwahanol ar IOPC a sut y dylid cynnal arolygiaeth yr heddlu, yn fwy cyffredinol.	Strategaeth IOPC newydd wedi'i chytuno â mewnbwn gan y Swyddfa Gartref. Mae olrhain canfyddiad y cyhoedd yn golygu bod IOPC yn gyfredol ac yn ymwybodol o dueddiadau yng nghanfyddiad y	Gwrthwynebus	↑

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	<p>cyhoedd ac ymhlith rhanddeiliaid.</p> <p>Cyfarfodydd Uwch Noddwr â Chyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref.</p>		
<p>L Os caiff gwasanaethau TGCh, offer, asedau data neu gyflenwyr IOPC eu torri neu eu peryglu neu eu cyfaddawdu gan weithredwyr bygythiadau seiber.</p>	<p>Mae'r strategaeth Seiber a'r rhaglen waith flynyddol gysylltiedig yn cyflawni amcanion allweddol i ddiogelu, canfod ac ymateb i risg Seiber.</p> <p>Achrediad Cyber Essentials plus wedi'i ddarparu.</p> <p>Proses rheoli risg seiber weithredol.</p>	Canolig	
<p>M Gallai diffyg eglurder ynghylch proses gaffael newydd y Swyddfa Gartref achosi oedi a allai, ynghyd â diffyg sicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol a/neu amcangyfrifon anghywir neu gostau annisgwyl yn y dyfodol, olygu bod prosiect y System Rheoli Achosion (CMS) yn rhedeg y tu hwnt i'w chyllideb</p>	<p>Gweithio'n agos gyda'r HO drwy gydol y broses gaffael.</p> <p>Bydd cyflwyno darganfyddiad 8 wythnos yn sicrhau bod gan y cyflenwr a IOPC syniad llawer cliriach o gostau, cyfnodau cyflawni ac amseriadau'r rhain.</p>	Cymedrol	


Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>wreiddiol a dyddiad gorffen arfaethedig, a fyddai yn ei dro yn golygu y gellid gohirio cyflwyno a gweithredu'r CMS newydd. Byddai unrhyw oedi yn golygu gwthio mwy o waith a chostau i mewn i flwyddyn ariannol 2024/25.</p>			
<p>N Mae diffyg hyder mewn plismona yn cael effaith ganlyniadol ar IOPC a goblygiadau ar gyfer newidiadau i'r system gwynion ehangach.</p>	<p>Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid.</p> <p>Asesiad adolygu Swyddfa'r Cabinet wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Ymateb i Adroddiad Casey.</p>	Gofalus	
<p>O Effaith gronnu ar gapasiti Adolygiad Swyddfa'r Cabinet, goblygiadau posibl o ran llywodraethu a strwythurol, arweinyddiaeth interim, a chyllideb dynn.</p>	<p>Deialog agored â'r Swyddfa Gartref â'r nod o ddod â risg o fewn archwaeth / targed.</p> <p>Cyfathrebu bwrdd parhaus a chynghor gan Gyfarwyddwyr Anweithredol</p> <p>Rheoli adolygiad Swyddfa'r Cabinet.</p>	Gofalus	
<p>PMae risg nad oes digon o gapasiti yn y sefydliad ehangach i gefnogi cynllunio'r</p>	<p>Hwylusodd Adnoddau Dynol gyfarfodydd cynllunio'r Gweithlu â phresenoldeb o bob</p>	Gofalus	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>gweithlu ac efallai nad yw'r gyfarwyddiaeth pobl yn ddigon medrus i gynllunio'r gweithlu i gefnogi'r sefydliad.</p>	<p>rhan o'r sefydliad, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob tair wythnos.</p> <p>Darparwyd hyfforddiant ar gyfer tîm partneru busnes.</p>		
<p>Q O ganlyniad i ddiffyg hysbysiad amserol o'r cod Rheoleidiwr Gwyddoniaeth Fforensig newydd, ni fydd IOPC yn gallu cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir (yn berthnasol mewn achosion troseddol ar gyfer nifer o weithgareddau gwyddoniaeth fforensig a gynhelir yn fewnol gan staff IOPC) erbyn y dyddiad gofynnol. Yn ogystal, bydd angen ystyried cydymffurfiaeth cyflenwyr allanol â'r cod ar gyfer gweithgarwch gwyddoniaeth fforensig a gontractir yn allanol sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, hefyd.</p>	<p>Wedi cyfarfod â'r rheolydd i drafod beth yw'r gofynion a thynnu sylw at y ffaith na chawsom ein hysbysu ymlaen llaw am y gofynion newydd.</p> <p>Mae pecyn E-ddysgu ar gyfer yr holl staff wedi'i lansio ac mae'n orfodol i bob aelod o staff ymchwilio. Mae hyn yn cynnwys IOPC ar gyfer cydymffurfio mewn perthynas ag adalw tystiolaeth ar lefelau 0 ac 1.</p>	Canolig	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>R Mae risg na fydd IOPC yn gallu cyflawni ei strategaeth i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona o ganlyniad i ostyngiad sylweddol mewn cyllid.</p>	<p>Deialog â'r Swyddfa Gartref am strategaeth a pherfformiad.</p> <p>Cyflwyniadau i'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r broses Adolygu Gwariant Corfforaethol.</p> <p>Cefnogodd Gweithgor o Gyfarwyddwyr Anweithredol ddatblygiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</p>	Canolig	
<p>S Mae risg o orwariant sylweddol (dros £1m) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro a Phennaeth Cyllid deialog gydag Uned Noddi'r Swyddfa Gartref.</p> <p>Llythyr wedi'i anfon at Bennaeth yr Uned Noddi yn cynnig deialog rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar bwysau ariannol a'r penderfyniadau anodd y gallai fod angen i ni eu gwneud a'u heffaith ar wella hyder mewn plismona.</p>	Canolig	
<p>T Ar ôl Ionawr 2024 bydd IOPC yn gweithredu â'r cworwm NED lleiaf</p>	<p>Cyflwyniad i'r Swyddfa Gartref i ymestyn telerau'r NEDau presennol.</p>	Gwrthwynebus	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>hyd nes y bydd gweithgaredd recriwtio'r Swyddfa Gartref wedi'i gwblhau. Mae risg felly y gallai unrhyw absenoldeb heb ei gynllunio ar gyfer yr NED atal cyfarfodydd ffurfiol bwrdd a/neu bwyllgor IOPC rhag bod â chworwm a bydd hyn yn gwaethygu os bydd unrhyw oedi yn y broses recriwtio.</p>	<p>Uwchgyfeirio'r risg i'r Swyddfa Gartref.</p> <p>Daethpwyd i gytundeb y bydd nifer â chworwm o NEDau yn aros yn eu swyddi nes bod rhai newydd yn cael eu recriwtio ac yn eu swyddi.</p>		
<p>U Mae staff yn cael eu heffeithio'n negyddol gan ffactorau mewnol ac allanol: e.e., Pwysau ar draws system gwynion yr heddlu / llwyth gwaith uchel / MTFP ac ansicrwydd yn y gweithle / yr argyfwng costau byw ac ati.</p>	<p>Cymorth i reolwyr llinell mewn arweinyddiaeth newid.</p> <p>Cymorth costau byw</p> <p>Cymorth iechyd galwedigaethol</p>	Canolig	

Mae'r siart ganlynol yn dangos yr 17 risg sy'n weddill ar ein cofrestr risg strategol ar ddiwedd y flwyddyn (mae'r llythyrau'n ymwneud â'r tabl uchod), yn gysylltiedig â'n hamcanion strategol ac yn dangos symudiad y sgoriau risg dros amser.



Allwedd

Mae'r llythrennau yn ymwneud â'r risgiau a restrir yn y tabl sy'n dechrau ar dudalen 23. Mae llythyrau 'ysbryd' yn cynrychioli lle roedd y risgiau naill ai ar ddechrau'r flwyddyn ariannol neu pan gafodd eu nodi gyntaf yn ystod y flwyddyn.

Allwedd i risgiau	
Uchel iawn	Effaith drychinebus ar yr amcan sy'n ei wneud yn anghyflawnadwy.
Uchel	Effaith sylweddol ar yr amcan; gan ei gwneud yn eithriadol o anodd a/neu'n ddud i'w gyflawni.
Canolig	Effaith materol ar yr amcan; gan ei wneud yn gyraeddadwy ond gydag anhawster cymedrol a/neu gost ychwanegol.
Isel	Effaith fach ond amlwg ar yr amcan; gan ei wneud yn gyflawnadwy gyda rhywfaint o ymdrech/cost fach ychwanegol.

Dadansoddi perfformiad

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Strategol 2022-27 a bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi cynllun busnes blynyddol. Mae'r adran hon yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Busnes 2023/24.

Amcan: ymwybyddiaeth a hyder

Pobl yn gwybod am y system gwynion a'u bod yn hyderus wrth ei defnyddio.

Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni

1. Ymddiriedir yn system gwynion yr heddlu i fynd i'r afael â phryderon yn briodol.
2. Mae'r rhai sydd â llai o hyder mewn plismona yn fodlon ac yn gallu defnyddio'r system gwynion i godi eu pryderon.
3. Mae trefniadau ar waith (fel gwybodaeth, arweiniad a chymorth) sy'n ei gwneud hi'n hawdd gwneud cwyn.
4. Mae deall pryderon cymunedol wedi siapio'r gwaith a wnawn.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu at:

Gynyddu ymwybyddiaeth o IOPC i 65% (fel y mesurir gan ein traciwr canfyddiadau'r cyhoedd).

Yn 2023/24, dywedodd ymchwil wrthym fod 68% o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi clywed am IOPC, gan guro ein targed a dangos cynnydd ar y 62% a gofnodwyd yn 2022/23. Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu am y drydedd flwyddyn yn olynol. Ymatebodd cyfanswm o 4,704 o bobl i'r ymchwil.

Cynyddodd ymwybyddiaeth hefyd ymhlith ymatebwyr o gefndir ethnig lleiafrifol, gyda 64% o'r 980 o ymatebwyr yn dweud eu bod yn ymwybodol o IOPC. Mae hyn i fyny o 60% yn 2022/23.

Gwnaethom hefyd fonitro ac ymateb i:

Ganran yr ymatebwyr sy'n hyderus fod yr heddlu'n ymdrin yn deg â chwynion a wneir yn eu herbyn.

Roedd 36% o'n 4,704 o ymatebwyr yn hyderus fod yr heddlu'n delio'n deg â chwynion a wneir yn eu herbyn. Mae hyn yn cymharu â 34% y flwyddyn flaenorol.

Cyfran y bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod sy'n hyderus fod yr heddlu'n ymdrin â chwynion yn deg.

Cynyddodd hyder y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn yr heddlu sy'n delio â chwynion ychydig i 37% o'r ymatebwyr. Mae hyn yn cymharu â 34% y llynedd a 33% yn 2021/22. Cyfanswm yr ymatebwyr oedd 1,397.

Yr hyder ymhlith pobl ifanc oedd 36% o'r rhai a holwyd (1,023 i gyd), sy'n ostyngiad o 1% ers 2022/23.

Dywedodd 32% o fenywod a ymatebodd eu bod yn hyderus yn y modd yr ymdriniodd yr heddlu â chwynion, ychydig yn uwch na'r 31% yn 2022/23. Fodd bynnag, roedd hyn yn dilyn cwmp o 40% yn 2021/22. Mae'r ffigurau ar gyfer menywod yn parhau i fod yn is na'r rhai ar gyfer dynion: yn 2023/24 mynegodd 40% o ymatebwyr gwrywaidd hyder (36% yn 2022/23). Cyfanswm yr ymatebwyr oedd 2,440.

Codi ymwybyddiaeth o IOPC

Mae'r cyfryngau yn gyfrwng pwysig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o IOPC a'r system gwynion. Yn 2023/24 fe wnaethom gyhoeddi 225 o ddatganiadau rhagweithiol i'r cyfryngau am ein hymchwiliadau, gwaith thematig ac adroddiadau, ac ymdriniwyd â 2,055 o ymholiadau gan y cyfryngau.

Ail-lansiwyd ein gwefan ym mis Gorffennaf 2023, gyda chynnwys diwygiedig a llywio gwell. Mae'n parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am ein gwaith ac mae'n cynnig llwybr hawdd i'w gyrchu ar gyfer gwneud cwyn. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad ein hunain a chanlyniadau system gwynion yr heddlu.

Heblaw bod rhesymau eithriadol, rydym yn cyhoeddi pob adroddiad ymchwiliad neu grynodedb ymchwiliad ar ein gwefan. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd ein gwefan 295,122 o ymweliadau unigryw â thudalennau gan gyfanswm o 25,624 o ddefnyddwyr.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn sianel gynyddol i ni ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd gennym ni 30,795 o ddilynwyr ar X (Trydar yn flaenorol), 6,006 ar LinkedIn a 467 ar Instagram. Dros y flwyddyn derbyniodd ein negeseuon cyfryngau cymdeithasol 5,100,775 o argraffiadau.

Gweithio gyda rhanddeiliaid cymunedol

Trwy gydol y flwyddyn roeddem yn gallu gwella ymwybyddiaeth, meithrin perthnasoedd, dangos ein heffaith a chlywed adborth am waith a sut y gallwn wella.

Mae gwrando ar randdeiliaid a chymunedau yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'n gwaith i'n helpu i ddeall y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein gwaith ymgysylltu yn parhau i addasu i anghenion ein rhanddeiliaid gyda chyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u darparu ar-lein ac yn y cnawd, er bod 2023/24 wedi gweld symudiad tuag at fwy o gyfarfodydd yn y cnawd.

Trwy ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, rydym yn parhau â'n hymdrechion i feithrin ymddiriedaeth a hyder pob grŵp, ond yn enwedig y rheini sydd â'r lefelau isaf o ymddiriedaeth mewn plismona a'r system gwynion. Mae pob un o'n Swyddogion Ymgysylltu â Rhanddeiliaid rhanbarthol yn darparu ymgysylltu wedi'i deilwra i'r cymunedau yn eu rhanbarthau ac yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth o IOPC a darparu cyfleoedd i gymunedau rannu eu profiadau o blismona.

Yn 2023/24 fe wnaethom gynnal dros 300 o gyfarfodydd â ffocws cymunedol ag amrediad amrywiol o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau craffu cymunedol fel Grwpiau Cynghori Annibynnol (IAGau), llywodraeth leol, grwpiau crefyddol, ysgolion, grwpiau cymunedol ac eiriolaeth, grwpiau ieuencid, cymunedau Du a lleiafrifoedd ethnig, Aelodau Seneddol a heddluoedd. Mae llawer o'r rhain wedi bod yn gyfleoedd ymgysylltu rhagweithiol a geisiwyd gan ein Swyddogion Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ac mae rhai wedi ymwneud ag ymchwiliadau parhaus IOPC sydd ar gamau amrywiol yn y broses gamymddwyn.

Mae'r galw ar y system gwynion ac adolygiadau wedi bod yn cynyddu ers 2020. Er mwyn hyrwyddo ymdrin â chwynion yn effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i'w datrys ar y cynnig cyntaf, fe wnaethom gychwyn rhaglen 'lawn Y Tro Cyntaf' IOPC yn 2023/24. Gwelodd hyn i ni weithio ar y cyd â heddluoedd i nodi arferion effeithiol a, lle bod angen, cynnig cymorth ychwanegol i gynyddu'r tebygolrwydd y byddai cwynion yn cael eu datrys ar y cynnig cyntaf.

Ein huchelgais yw, trwy gymhwyso egwyddorion a chanllawiau lawn y Tro Cyntaf, bod mwy o achwynwyr yn cael ymateb addas ar y cynnig cyntaf. Mae gan hyn y potensial i leihau pa mor aml y caiff canlyniadau cwynion eu herio drwy'r broses adolygu, sydd yn ei dro yn lleihau'r amser y mae angen i achwynwyr a'r rhai sy'n destun cwynion ymgysylltu â'r system. Gall hyn fod o fudd ar draws y system gwynion ehangach, gan y gellir canolbwyntio adnoddau sydd wedi'u cyfeirio ar hyn o bryd at ymdrin ag adolygiadau neu ailymweld â chwynion ar ei wella.

Defnyddiwyd y gwaith gyda heddluoedd, a oedd yn cynnwys rhaglen hapsamplau a thrafodaethau i ddeall eu harferion, i ddatblygu [pecyn cymorth i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ei ddefnyddio](#). Cyhoeddwyd hwn ym mis Mawrth 2024 ac ategwyd ei lansiad gan gyfres o weithdai a fynychwyd gan heddluoedd a chyrff plismona lleol.

Amcan: arwain gwelliant

Mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni

1. Rydym yn gweld tystiolaeth o welliannau mewn polisi, arfer a diwylliant plismona o ganlyniad i'n gwaith.
2. Rydym yn dylanwadu ac yn cynnull amrywiaeth o bartneriaid i weithio gyda ni i ddylanwadu ar newid.
3. Mae IOPC yn cael ei gydnabod fel arweinydd o ran gwella plismona ac mae'n llais cywir ac annibynnol y gellir ymddiried ynddo.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu at:

Sicrhau bod 80% o'n hargymhellion dysgu paragraff 28A yn cael eu derbyn gan heddluoedd.

Pan gyhoeddir argymhelliad o dan y pŵer hwn, mae'n ofynnol i'r derbynnydd ddarparu ymateb. O'r 102 o argymhellion a gyhoeddwyd lle cafwyd ymateb, derbyniwyd 94% (96).

Cynyddu canran y rhanddeiliaid plismona ac atebolrwydd sy'n meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd i wella arfer yr heddlu i 67%.

Yn 2023/24 dangosodd ein hymchwil fod 60% o randdeiliaid plismona ac atebolrwydd yn meddwl ein bod yn effeithiol yn y maes hwn. Mae'r ffigur hwn yn gyfartaledd o 60% o randdeiliaid plismona a 59% o randdeiliaid atebolrwydd plismona, gostyngiad o ffigur cyfartalog y llynedd o 66%. Sbardunwyd y gostyngiad yn y cyfartaledd gan ostyngiad yn y ffigur gan randdeiliaid plismona, i lawr o 73% y llynedd.

Cynyddu canran y rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona sy'n meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd i wella arfer yr heddlu i 46%.

Ar gyfer rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona, dywedodd 44% eu bod yn meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn gwella arferion yr heddlu, o'i gymharu â tharged o 46%.

Gwnaethom hefyd fonitro ac ymateb i:

Ganran yr ymatebwyr sy'n meddwl bod IOPC yn annibynnol i'r heddlu.

Roedd 72% o 4,704 o ymatebwyr yn meddwl bod IOPC yn annibynnol i'r heddlu. Dywedodd 23% fod IOPC yn gwbl annibynnol a dywedodd 49% ei fod rywfaint yn annibynnol. Mae hyn yn gynydd ar ffigur y llynedd o 64% (yn cynnwys 22% yn gwbl annibynnol, 42% rhywfaint yn annibynnol).

Canran yr ymatebwyr sy'n credu bod IOPC yn effeithiol o ran gwella hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae 20% o randdeiliaid yn credu bod IOPC yn effeithiol o ran gwella hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona yn fwy tebygol na rhanddeiliaid plismona a rhanddeiliaid atebolrwydd yr heddlu o gredu bod IOPC yn effeithiol o ran gwella hyder y cyhoedd (26% o'i gymharu â 23% o'i gymharu â 13%).

Canran yr ymatebwyr sy'n credu y bydd IOPC yn helpu i wella plismona drwy nodi ffyrdd y gall yr heddlu ddysgu o waith IOPC.

Yn 2023/24 cytunodd 51% o 4,704 o ymatebwyr y bydd IOPC yn helpu i wella plismona yn y modd hwn.

Rydym yn bwriadu gwella'r canlyniad hwn drwy gymysgedd o ymgysylltu strategol a gwaith polisi, ein gwaith thematig ar wahaniaethu, a'n cyhoeddiadau allanol. Byddwn yn darparu ymateb i bapur gwyn adolygiad atebolrwydd yr heddlu y Swyddfa Gartref, yn cyhoeddi canllawiau gwahaniaethu diwygiedig, yn nodi arfer gorau ar gyfer delio ag achosion lle mae gwahaniaethu yn ffactor, yn ogystal ag adroddiadau ar ein heffaith, cwynion heddlu, a marwolaethau yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu, gan gynyddu ymwybyddiaeth o sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth.

Ein gwaith yn 2023/24

Un o'r ffyrdd rydym yn helpu i wella plismona yw drwy wneud argymhellion yn ystod ein hymchwiliadau a'n gwaith achos.

Yn ystod 2023/24 cyhoeddwyd 133 o argymhellion gennym –

- Roedd 12 yn argymhellion amser cyflym a gyhoeddwyd tra bod achosion yn parhau
- Roedd 105 yn argymhellion lleol a gyhoeddwyd ar ddiwedd achos i heddluoedd neu sefydliadau eraill sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth

- Dosbarthwyd 16 i sefydliadau sy'n gweithio'n genedlaethol, gan gynnwys y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref

O'r 133 o argymhellion, cyhoeddwyd 110 o dan Baragraff 28A o Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Pan gyhoeddir argymhelliad o dan y pŵer hwn, mae'n ofynnol i'r derbynnnydd ddarparu ymateb. O'r 102 o argymhellion lle cafwyd ymateb, derbyniwyd 94% (96).

Roedd yr argymhellion hyn yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys newidiadau i bolisiâu cenedlaethol a lleol, polisi, canllawiau, hyfforddiant, systemau ac arfer.

[Mae ein Hadroddiad Effaith 2023/24](#) yn cynnwys gwybodaeth am yr argymhellion a wnaethom ynghylch noeth chwilio plant, ac agweddau eraill ar ein gwaith dysgu.

Ar thema gwahaniaethu hiliol

Rydym yn dod ar draws amrywiaeth o achosion yn ymwneud ag ystod eang o faterion. Rydym yn monitro pob agwedd o'n gwaith yn agos i'n helpu i adnabod patrymau neu dueddiadau y gall fod angen ymchwilio ychwanegol iddynt. Efallai y byddwn hefyd yn dod i wybod am feysydd sy'n peri pryder o sgysiau a gawn â'n rhanddeiliaid neu gymunedau.

Pan adnabyddir maes pryder, rydym yn neilltuo adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i edrych i mewn i'r mater yn ddyfnach. Rydym yn galw hwn ein gwaith 'thematig'.

Yn 2023/24 fe wnaethom barhau i wreiddio a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith thematig ar wahaniaethu ar sail hil. Fe wnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â heddluoedd i gefnogi eu hymdriniaeth o gwynion yn ymwneud â gwahaniaethu trwy gyfres o weithdai, lle buom hefyd yn profi diwygiadau i'n canllawiau gwahaniaethu cyn eu cyhoeddi yn 2024.

Mae'r canllawiau hyn yn adeiladu ar [rifyn 22 o'n cylchlythyr Focus](#) ar ymdrin â chwynion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at Adrannau Safonau Proffesiynol a Swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a ymgysylltodd â ni mewn trafodaethau agored a didwyll am yr heriau a wynebir gan y rhai sy'n ymdrin â chwynion.

Drwy ddefnyddio'r dull hwn rydym yn cefnogi heddluoedd (sy'n gyfrifol am ymdrin â'r mwyafrif o gwynion) i ymdrin â chwynion yn effeithiol, gan helpu i ailadeiladu hyder yn system gwynion yr heddlu ymhlith grwpiau gwarchoddedig sydd â'r lefelau hyder isaf yn aml.

Stopio a chwilio

Mae 2023/24 hefyd wedi ein gweld yn gwneud dilyniant ar sut mae plismona yn ymateb i'n hargymhellion dysgu thematig ar stopio a chwilio. Ym mis Hydref 2023, fe wnaethom gyhoeddi'r dilyniant i'n hadroddiad dysgu stopio a chwilio cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022. Gofynnem i bob heddlu asesu arferion stopio a chwilio lleol yn unol â'n 18 argymhelliad cenedlaethol i wella'r defnydd a chraffu ar stopio a chwilio a llywio gwelliannau mewn plismona. [Gallwch ddarllen adroddiad gwreiddiol 2022 yma](#), a [dilyniant mis Hydref 2023 yma](#).

Ymatebodd pob un o'r 43 o wasanaethau heddlu i'n harolwg, a gwnaethom grynhoi rhai o'r cynlluniau lleol a rannwyd â ni â'r nod o wella'r dull o stopio a chwilio gan heddluoedd ledled Lloegr a Chymru.

Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, fe wnaethom rannu'r cynlluniau o bob gwasanaeth heddlu gyda'u Comisiynwyr Heddlu a Throseddau priodol i helpu gyda gwelliannau parhaus. Rhannwyd y rhestr lawn o gynlluniau â'r Prif Gwnstabl Amanda Pearson, cyn arweinydd yr NPCC ar gyfer stopio a chwilio, i'w chynorthwyo i ysgogi cynnydd.

Adolygiad thematig o'r defnydd o Taser

Ers cyhoeddi [ein hadroddiad ar Taser yn 2021](#), rydym wedi bod yn cydweithio â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i ddarparu trosolwg ychwanegol o ddefnydd Taser. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o achlysuron pan ddefnyddiwyd Taser ar blant dan 18 oed. Fe wnaethom hefyd ffurfio panel o bobl ifanc i gynghori a chynorthwyo arweinwyr plismona i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan gymunedau am ddefnydd Taser a gwahaniaethau hiliol ac ethnig.

Rydym yn cydnabod bod ymateb system gyfan yn hanfodol i gefnogi gwelliannau a byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu a'n partneriaid plismona i ysgogi newid - yn enwedig o fewn cymunedau yr effeithir arnynt yn fwyaf anghymesur.

Mae dysgu a gwella ynghyd â chraffu lleol cadarn ac atebolrwydd yn helpu i hybu ymddiriedaeth a chyfreithlondeb rhwng yr heddlu a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n dangos datblygiad parhaus, ymrwymiad i wella, ac yn dangos bod plismona yn gweithredu er budd pennaf y cyhoedd trwy gael gwell dealltwriaeth o bryderon cymunedol.

Canllawiau ar roi terfyn ar feio dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched.

Ym mis Chwefror 2024 lanswyd ein canllawiau ar roi terfyn ar feio dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched.

Pam mae o bwys?

Mae iaith, agweddau ac ymddygiadau beio dioddefwr o'u hunion natur yn rhoi'r pwyslais a'r cyfrifoldeb ar y dioddefwr-oroeswr am y gamdriniaeth mae wedi dioddef. I ddioddefwyr-oroeswyr sydd wedi profi trawma sylweddol, gall waethygu eu profiadau hyd yn oed yn fwy. Gall grwpiau amrywiol a chymunedau lleiafrifol wynebu mathau gwahanol o wahaniaethu a beio dioddefwyr yn seiliedig ar agweddau gwahanol o'u hunaniaeth, sy'n gallu gorgyffwrdd a rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn y pen draw, gall beio dioddefwyr hefyd atal dioddefwyr-goroeswyr rhag adrodd am eu profiadau a mynd ar drywydd cyfiawnder.

Cynhyrchwyd y canllawiau gan IOPC mewn cydweithrediad â nifer o sefydliadau a phobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

Ei nod yw helpu ymarferwyr i feddwl yn feirniadol am eu hiaith, agweddau, ac ymddygiadau eu hunain ac eraill, ac i ddarparu cyngor ac arferion gorau ar herio iaith, agweddau ac ymddygiadau sy'n beio dioddefwr yn effeithiol.

Cynlluniwyd y canllawiau i'w defnyddio ar draws IOPC a heddluoedd – er enghraifft, wrth gyfathrebu â dioddefwyr-goroeswyr a thystion, wrth ddrafftio adroddiadau a dogfennau ffurfiol eraill, wrth adolygu polisïau a chanllawiau.

[Gallwch ddarllen y canllawiau](#) ar ein gwefan.

Deall hyder isel ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan ein meysydd gwaith thematig

Cafodd gwaith ffocws IOPC ar drais yn erbyn menywod a merched (VAWG) ei flaenoriaethu mewn ymateb i bryder cynyddol y cyhoedd am ymateb yr heddlu i VAWG, ac agweddau diwylliannol mewn plismona tuag at fenywod a merched. Rydym wedi ymrwymo i ddwyn gwasanaeth yr heddlu i gyfrif wrth ymdrin â chwynion a materion ymddygiad, gan helpu i ysgogi gwelliannau mewn arferion plismona a meithrin ymddiriedaeth a hyder yn y rhai sydd â rheswm i wneud cwyn. Rydym yn gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid plismona i ysgogi dysgu a newid sylfaenol yn y maes hwn, gan ymgysylltu â menywod i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac yn ganolog i'n gwaith.

Rydym wedi gweithio amrywiaeth o randdeiliaid VAWG i ddeall y materion sy'n effeithio ar y rhai yr effeithir arnynt fwyaf o'n gwaith. Mae'r rhain wedi cynnwys

sefydliadau VAWG cenedlaethol a rhanbarthol a hefyd cynrychiolwyr o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd groestoriadol at ein hymgysylltu ac wedi ceisio sicrhau bod menywod a merched o amrywiaeth o gymunedau yn cael eu cynrychioli.

O ran ein canllawiau ar roi terfyn ar feio dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 buom yn gweithio gyda; Panel Ieuenctid IOPC, swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, swyddfa Comisiynydd Dioddefwyr Lloegr a Chymru, Refuge, Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh, Eva Echo, Saba Ali, Hourglass, Southall Black Sisters, Canolfan Merched DIVAS Cernyw, Rhwydwaith Menywod Moslimaid, Cwnstabiliaeth Avon a Gwlad yr Haf, Dr Charlotte Barlow, Cymorth i Fenywod Aid, Heddlu Swydd Gaerlŷr, Dr. Jessica Taylor, Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol, SafeLives, a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Cynhaliwyd ymgysylltu trwy ddigwyddiad bord gron a chyfarfodydd unigol â rhanddeiliaid i ofyn am eu barn ar yr hyn y teimlent y dylai'r canllawiau ei gynnwys. Helpodd rhanddeiliaid hefyd i lywio drafftiau dilynol cyn eu cyhoeddi ar gyfer staff IOPC ym mis Chwefror ac yn allanol ym mis Mawrth. Er mwyn dangos sut roedd eu barn wedi'i hymgorffori, yn ogystal â'r canllawiau eu hunain, fe wnaethom gynhyrchu dogfen 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' i amlygu sut roedd eu mewnbwn mwyaf gwerthfawr wedi llywio'r gwaith.

Yn ystod y flwyddyn buom hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid o'r sector VAWG (gan gynnwys rhai o'r rhai a oedd yn gweithio ar y canllawiau) ar ymgyrch hydref 2024 i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a hawliau dioddefwyr wrth wneud cwyn neu godi mater ymddygiad. Bydd yr ymgyrch yn cael ei thargedu at ddiodeffwyr-oroeswyr trais yn erbyn menywod a merched a sefydliadau sy'n eu cynorthwyo. Rydym hefyd wedi cyfarfod â nifer o randdeiliaid ychwanegol i'n helpu i lunio'r cynnwys a theilwra ein deunyddiau. Maent hefyd wedi bod yn adolygu'r copïau drafft o'r deunyddiau ffisegol a grëwyd.

Bu SafeLives hefyd yn gweithio gyda ni i ddylunio ein meini prawf sampl ar gyfer adolygiad o'r gwaith o drin achosion o'r dechrau i'r diwedd o wyth heddlu a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024, a oedd yn adolygu detholiad o ffeiliau cwynion ac ymddygiad. Fe wnaethom archwilio 121 o ffeiliau i adolygu sut y gwnaethant ymdrin â materion cwynion ac ymddygiadau lle roedd trais yn erbyn menywod a merched yn ffactor ac os oedd eu hymatebion yn briodol, cymesur ac yn unol â chyfraith a chanllawiau perthnasol.

Rydym wedi cyfarfod â nifer o sefydliadau VAWG rhanbarthol, sydd wedi arwain at gael mewnwleddiad newydd, materion penodol yn cael eu codi o fewn heddluoedd penodol y gallwn wedyn eu hamlygu i'n Tîm Goruchwylio, neu i ni roi cyflwyniadau i staff rheng flaen ar y ffordd orau o gefnogi eu defnyddwyr gwasanaeth drwy'r system gwynion.

Mae ein gwaith ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched yn parhau drwy gydol 2024/2025.

Hyder swyddogion

Rydym wedi mynychu a siarad mewn nifer o gynadleddau a digwyddiadau plismona eleni gan gynnwys Cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Heddlu Du 2023, cynhadledd PIP Ffederasiwn Cenedlaethol yr Heddlu a diwrnod hyfforddi rhanbarthol ar gyfer Heddlu Caint.

Mae aelodau o'n timau ansawdd ac ymchwilio wedi cyflwyno cyflwyniadau i dimau arfau tanio a Rheolwyr Ôl-ddigwyddiad (PIMs) â'r nod o gynyddu gwybodaeth am ein gwaith a helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder. Mae sesiynau wedi cynnwys: beth i'w ddisgwyl pan fyddwn yn mynychu fel rhan o'r Broses Ôl-ddigwyddiad (PIP); yr hyn rydym yn ei ddisgwyl fel IOPC o PIP; a sut olwg sydd ar ymchwiliad gan IOPC. Rydym yn cynnal sesiynau fel rhan o'r drefn arferol o dderbyn swyddogion arfau tanio newydd o fewn Heddlu Gorllewin Swydd Efrog a Heddlu Northumbria ac mae sesiynau hefyd wedi'u cyflwyno i Heddlu Swydd Northampton, Swydd Derby a Gogledd Swydd Efrog.

Yn ogystal, rydym yn rhoi cyflwyniadau'n rheolaidd i gwrs Rheolwyr Ôl-ddigwyddiad (PIM) y Coleg Plismona/Cymdeithas Swyddogion Arfau Tanio'r Heddlu fel rhan o hyfforddiant cychwynnol a gloywi. Mae sesiynau penodol ar gyfer PIMau hefyd wedi'u cyflwyno i'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Heddlu De Swydd Efrog.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o sesiynau Hydra gyda Heddlu Gorllewin Swydd Efrog, lle rydym wedi darparu adborth ar y prosesau ôl-ymchwiliad fel rhan o efelychiadau hyfforddi lle mae swyddogion arfau tanio'n wynebu senario hyfforddi yn syth wedi'i ddilyn gan PIP.

Mae swyddogion partneriaeth cymunedol lleol sy'n gwasanaethu Heddlu Llundain hefyd wedi cael mewnbn gan ein swyddogion ymgysylltu rhanbarthol.

Mae ein Tîm Goruchwyllo hefyd yn ceisio magu hyder nid yn unig trwy eu gwaith bob dydd gydag Adrannau Safonau Proffesiynol ond hefyd trwy waith gyda gwasanaethau heddlu a chyrrff plismona lleol ar amrywiaeth o bynciau. Yn ogystal, mae'r Tîm Goruchwyllo yn cynnal gweithdai ar bynciau perthnasol. Mae enghreifftiau yn cynnwys gweithdai ar gyfer Pecyn Cymorth ar gyfer Trin Cwynion lawn y Tro Cyntaf ym mis Chwefror/Mawrth a gweithdai Gwahaniaethu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd/Rhagfyr.

Mae Panel Ieuenctid IOPC hefyd wedi cynnal nifer o weithdai ar gyfer swyddogion heddlu ar draws Lloegr a chymru ac hefyd wedi cefnogi prosiect Taser NPCC – gan helpu i bontio'r bwlch rhwng swyddogion heddlu a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda darpar swyddogion, megis cadetiaid heddlu a myfyrwyr, ar gyrsiau gwasanaethau cyhoeddus. Gall ymgysylltu'n gynnar â chadetiaid a myfyrwyr helpu i wella'r berthynas rhwng IOPC a phlisma. Rydym wedi darparu sesiynau ar gyfer cadetiaid (pob un rhwng 11-17 oed) yng Nglannau Humber, Northumbria, Durham a Swydd Bedford.

Addysgwyd cadetiaid ar hanes, rôl a phwrpas IOPC, gofynnwyd iddynt am eu syniadau ar gyfer newid a'u barn ar ymddiriedaeth a hyder mewn plisma. Buont yn cymryd rhan mewn cwisiau yn seiliedig ar ystadegau cwynion yr heddlu ac archwiliwyd gwahanol bynciau megis ffyrdd y mae IOPC yn derbyn ymchwiliadau, safonau ymddygiad proffesiynol, y trothwy camymddwyn a thrafodwyd astudiaethau achos dienw real.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda myfyrwyr ar gyrsiau gwasanaethau cyhoeddus (yn amrywio o lefel 3 - lefel 5) mewn lleoliadau addysg uwch. Mae sesiynau wedi'u darparu ym Mhrifysgol Huddersfield, Prifysgol Newcastle a cholegau yn Barnsley, Kirklees Newcastle, Islington, Croydon a Haringey, gyda rhagor wedi'u cynllunio.

Cylchgrawn Learning the Lessons

Learning the Lessons yw ein cyfres o gylchgronau rheolaidd sydd wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar welliannau ym mholisiâu ac arferion yr heddlu.

Mae pob rhifyn o'r cylchgrawn yn canolbwyntio ar thema unigryw. Yn berthnasol i'r thema honno, mae'r cylchgronau'n cynnwys astudiaethau achos dienw o ymchwiliadau ac adolygiadau gwirioneddol rydym wedi'u cwblhau i gwynion a materion ymddygiad. Mae'r astudiaethau achos yn amlygu materion allweddol a welwn drwy ein gwaith.

Ar ddiwedd pob astudiaeth achos, rydym yn gofyn cwestiynau myfyriol o'r rheini sy'n gweithio mewn plisma - yn amrywio o swyddogion a staff llinell flaen i'r rheini sy'n gweithio mewn rolau polisi, dysgu neu reoli. Nod y cwestiynau yw dad-ddewis cyfleoedd dysgu allweddol trwy ofyn i ddarllenwyr fyfyrion ar eu gwybodaeth a'u hyfforddiant eu hunain, annog plisma i ystyried ffyrdd o atal digwyddiadau niweidiol, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir trwy wella polisi ac arfer.

Ochr yn ochr â'r astudiaethau achos, mae'r cylchgronau'n archwilio gwaith sy'n digwydd mewn gwasanaethau heddlu lleol, elusennau a grwpiau eiriolaeth, academia, ac mewn sefydliadau plisma cenedlaethol. Mae'r cylchgronau'n cynnwys sbotoleuadau ar gynlluniau arfer da, canllawiau neu hyfforddiant cenedlaethol newydd, ac yn cyfeirio at offer ac adnoddau defnyddiol.

Fe wnaethom gyhoeddi dau rifyn o Learning the Lessons yn 2023/24:

Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi [rhifyn 42 yn canolbwyntio ar y ddalfa](#). Roedd yn cynnwys naw astudiaeth achos, ac erthyglau yn archwilio:

- hyfforddiant, cynlluniau a darpariaethau cenedlaethol
- adnabod bregusrwydd
- Gweithgarwch arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi
- effaith cadw gan yr heddlu ar blant
- oedolion priodol
- profiadau a mewnwleidiadau gan ymarferwyr rheng flaen

Buom yn gweithio gydag arbenigwyr pwnc blaenllaw ar draws sefydliadau plismona ac eiriolaeth cenedlaethol a lleol i helpu i ddatblygu'r mater hwn, gan gynnwys y Coleg Plismona, y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, y Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol a Chynghrair Hawliau Plant Lloegr.

Buom hefyd yn gweithio gydag adrannau safonau proffesiynol a thimau dysgu a datblygu yng ngwasanaethau'r heddlu yn genedlaethol i helpu i rannu'r mater hwn, a rhannwyd copïau caled mewn cynadleddau, cyfarfodydd a digwyddiadau. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod wedi rhannu rhifyn 42 mewn dalfeydd, ar fewnrwydi'r heddlu, ac mewn sesiynau briffio â grwpiau a byrddau rheoli dalfeydd. Cafodd astudiaethau achos a chwestiynau allweddol eu tynnu i mewn i becynnau hyfforddi, eu defnyddio fel pwyntiau trafod cyfarfodydd tîm, a'u rhannu ag arweinwyr thematig perthnasol i annog newid rhagweithiol.

Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom gyhoeddi [rhifyn 43 yn canolbwyntio ar iechyd meddwl](#). Roedd yn cynnwys wyth astudiaeth achos, ac erthyglau yn archwilio:

- gwaith IOPC ar iechyd meddwl a phlismona
- cynlluniau cenedlaethol a newid
- strategaeth iechyd meddwl Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).
- enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol rhwng yr heddlu a sefydliadau iechyd meddwl i gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed
- lles swyddogion heddlu a staff
- *y Ddeddf Iechyd Meddwl*

Buom yn gweithio'n agos gyda'r tîm gweithredu cenedlaethol Gofal Cywir, Person Cywir i ddatblygu'r mater hwn, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r NPCC, y Coleg Plismona a gwasanaethau heddlu lleol. Fe wnaethom gydnabod pwysigrwydd ar adeg o newid cenedlaethol i ddefnyddio ein sylfaen dystiolaeth i annog darllenwyr ar draws yr holl blismona i ddadlau, trafod a myfyrio'n ystyrion ar eu polisiau a'u harferion yn unol â chyfeiriad a chanllawiau cenedlaethol.

Dywedodd rhanddeiliaid ym maes plismona wrthym fod y cylchgrawn wedi'i hyrwyddo ar byrth dysgu sefydliadol, bod astudiaethau achos yn cael eu

cynnwys mewn hyfforddiant ar sail senarios, bod cwestiynau allweddol yn cael eu defnyddio fel arf i wirio polisïau presennol yr heddlu ar sail synnwyr, ac roedd gwaith gwella sy'n deillio o'r hyn a ddysgwyd yn y cylchgrawn yn cael ei olrhain trwy gyfarfodydd bwrdd.

Ar gyfer y ddau rifyn o Learning the Lessons a gyhoeddwyd gennym yn 2023/24, roedd ymatebion cyfunol i'r arolygon adborth yn adlewyrchu:

- roedd 96% (120 o 125 o ymatebwyr) yn teimlo bod y cylchgronau'n arf defnyddiol i ysgogi newid ym mholisi ac arferion yr heddlu
- roedd 97% (128 o 132 o ymatebwyr) yn teimlo bod y cylchgronau yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt i ategu'r wybodaeth a gafwyd o hyfforddiant, sesiynau briffio neu brofiad ymarferol
- roedd 95% (126 o 133 o ymatebwyr) yn teimlo bod y cwestiynau myfyriol wedi eu helpu i nodi dysgu allweddol yn yr achosion dan sylw
- dywedodd 95% (84 o 88 o ymatebwyr) eu bod yn bwriadu rhannu'r cylchgronau â chydweithwyr er mwyn helpu i rannu'r dysgu oedd ynddynt

[Mae holl rifynnau Learning the Lessons ar gael ar ein gwefan.](#)

Gweithio gyda phobl ifanc a'r Panel Ieuenctid

Yn 2023/24 cychwynnodd y Panel Ieuenctid ar ei bumed flwyddyn o weithio gyda IOPC. Parhaodd y Panel Ieuenctid â'u gwaith o ddarparu llais ieuenctid a dwyn IOPC a'r system blismona ehangach i gyfrif. Eu huchelgais yw helpu i greu system gwynion yr heddlu sy'n diwallu anghenion pobl ifanc ac y gallant ymddiried ynddi.

Parhaodd y Panel Ieuenctid â'u gweithgarwch ymgysylltu ledled Lloegr a Chymru, gan gynnal 25 o sesiynau ymgysylltu. Roedd y rhain yn cynnwys 20 o sesiynau ymgysylltu rhwng cymheiriaid a ddyluniwyd gan aelodau'r Panel Ieuenctid gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu ac i ddeall y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad ati. Clywsant hefyd brofiad gwahanol bobl ifanc o blismona. Parhaodd y Panel hefyd i ddatblygu a chyflwyno eu sesiynau ymgysylltu â'r heddlu; nod y sesiynau hyn yw datblygu dealltwriaeth o effaith plismona ar bobl ifanc ac edrych am a datblygu tir cyffredin rhwng pobl ifanc a'r heddlu er mwyn gwella rhyngweithio i bawb.

Parhaodd y Panel Ieuenctid â'u gwaith cydweithredol gyda staff IOPC, cyflwynodd chwe gweithdy gwahaniaethu ar sail hil, a chefnogi gwaith a chanllawiau IOPC yn ymwneud â datguddio chwiliadau rhannau personol o blant (EIP). Roeddent hefyd yn cefnogi IOPC i ddatblygu datganiad cydraddoldeb i'w ddefnyddio i ddwyn y sefydliad i gyfrif. Cefnogodd y Panel Ieuenctid IOPC i ddatblygu'r ymgyrch trais yn erbyn menywod a merched 'Gwybod Eich Hawliau' a'r ['Canllawiau ar roi terfyn ar iaith beio dioddefwr'](#) (ar

[gael yma](#)) ar gyfer gwasanaethau heddlu ledled y wlad. Roedd y Panel hefyd yn cefnogi partneriaid statudol eraill fel gwaith yr NPCC ynghylch defnyddio Taser mewn perthynas ag anghymesuredd a gwella arferion plismona.

Cynhaliodd y Panel leuenctid eu hail arolwg cenedlaethol blynyddol gan gyrraedd dros 2,000 o bobl ifanc ledled Lloegr a Chymru. Dadansoddwyd y safbwyntiau a'r adborth a gasglwyd ganddynt drwy'r arolwg hwn a chawsant eu defnyddio i lunio'r argymhellion a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn adroddiad 2024 y Panel leuenctid, a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben. Cyflwynodd y Panel leuenctid y canfyddiadau hyn i amrywiaeth o randdeiliaid o bartneriaid plismona a sefydliadau trydydd sector yn Oriol Whitworth ym Manceinion.

Dyma argymhellion y Panel leuenctid ar gyfer system gwynion yr heddlu:

1. Dylid cyfeirio pob achos sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed at IOPC.
2. Dylid sefydlu gwasanaeth eiriolaeth i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bobl sy'n gwneud cwynion.
3. Dylai ymchwiliadau gael eu harwain yn fwy gan ddiodefwyr. Dylid ystyried Datganiad Effaith Dioddefwr fel rhan allweddol o bob ymchwiliad.
4. Dylid symleiddio proses gwyno'r heddlu i'w gwneud yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc.
5. Dylid cael system gwynion grŵp ar gyfer sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt ar lefel gymunedol.
6. Mwy o gyhoeddi storïau cadarnhaol gan gynnwys canlyniadau gweladwy a diwygio systematig.
7. Gwell ymgysylltu o fewn pob sector addysg ar y system gwynion a IOPC.

Dyma argymhellion y Panel leuenctid ar gyfer yr heddlu:

1. Dylai pob heddlu gynnwys pobl ifanc yn eu penderfyniadau trwy gydgyhyrchu.

2. Dylai heddluoedd ymgysylltu'n fwy rhagweithiol â'r gymuned, gan gynnwys â phobl ifanc.
3. Dylai swyddogion ysgolion fod yn hygyrch ym mhob ysgol fel ffordd o feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r heddlu.
4. Dylai heddluoedd hyrwyddo storïau newyddion mwy cadarnhaol a gwella ymgysylltiad ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol
5. Dylai heddluoedd gymryd mwy o berchenogaeth gyhoeddus o gamgymeriadau a dangos sut y maen nhw'n gwella
6. Dylai'r defnydd o gamerâu corff fod yn orfodol ym mholisi'r heddlu.
7. Dylid gwneud rhagor o waith ar brosesau llogi ar gyfer swyddogion newydd â ffocws ar fynd i'r afael â thuedd, gwahaniaethu a thrais.
8. Dylai pob swyddog dderbyn hyfforddiant mewn dulliau ystyriol o drawma a sgiliau dad-ddwysáu.
9. Dylid cynnwys yr hawl i gwyno yn y datganiad a roddir pan roddir rhybudd i rywun, adeg ei arestio a phan gaiff ei stopio a'i chwilio.

Ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol (ESRG)

Mae ein ESRG yn cynnwys rhanddeiliaid statudol ac anstatudol allanol, megis cynrychiolwyr o elusennau a sefydliadau ymgyrchu, sefydliadau plismona a'r Swyddfa Gartref. Mae'r grŵp yn darparu her ac adborth adeiladol ar ein perfformiad a'n prosiectau allweddol, yn gweithredu fel seinfwrdd anffurfiol i drafod darnau penodol o waith a themâu i helpu i wella arferion plismona.

Cynhaliodd y grŵp ddau gyfarfod ar-lein eleni, â phresenoldeb rhagorol yn y ddau. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd y grŵp ddiweddariadau ar ein strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu (2023/27) a dysgu cysylltiedig ag ymchwiliadau, a oedd yn cynnwys astudiaeth achos ar chwiliadau plant sy'n datgelu rhannau personol (chwiliadau EIP). Bu rhanddeiliaid yn trafod ac yn rhannu eu barn ar ddatblygu diffiniad sefydliadol o ansawdd, yn ogystal â model Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer plismona yn Lloegr a Chymru.

Ein gwaith yng Nghymru

Mae IOPC yn gweithio ledled Cymru gyda'r un cyfrifoldebau dros heddluoedd Cymru a Lloegr. Mae ein Cyfarwyddwr Cymru, David Ford, yn parhau â'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â phedwar heddlu Cymru, y sector plismona

ehangach a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (PCC), Arolygiaeth Cwnstablïaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac Aelodau Seneddol.

Mae ein tîm goruchwylio yn parhau i weithio'n agos gyda heddluoedd ledled Cymru, yn enwedig wrth gefnogi gweithrediad y cynllun Gofal Cywir, Person Cywir. Rydym wedi gweithio gyda Heddlu De Cymru ar ddull yr heddlu o wneud penderfyniadau am y mathau o ddigwyddiadau a allai fod yn gyfrifoldeb i'r heddlu'n awtomatig, senarios y gallai asiantaeth arall eu trin yn well a'r mathau o sefyllfaoedd lle nad yw mor glir o bosibl, a sut i geisio eglurder.

Yn dilyn marwolaethau dau berson ifanc yn eu harddegau yn ardal Trelái, Caerdydd ym mis Mai 2023, fe wnaethom ddechrau ymchwiliad i gysylltiad blaenorol Heddlu De Cymru â'r bechgyn. Er mwyn cefnogi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymddiriedaeth yn yr ymchwiliad, fe wnaethom drefnu cyfarfod i wrando, trafod a mynd i'r afael â phryderon a thensiynau cymunedol ac i roi sicrwydd bod ein hymchwiliad yn drylwyr ac yn gwbl annibynnol ar yr heddlu.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n rôl yn goruchwylio system gwynion yr heddlu, rydym yn cynnal gweithdai rheolaidd gyda sefydliadau eiriolaeth a chymorth. Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod, buom yn gweithio gyda Chymorth i Ferched Cymru i ddatblygu a chyflwyno sesiwn i staff. Buom yn trafod profiadau unigol menywod o blismona a sut i wneud cwyn.

Ochr yn ochr â Phanel Ieuenctid IOPC, buom yn gweithio gydag ysgol uwchradd yng Nghaerdydd i ddeall profiadau pobl ifanc yn well a chlywed eu barn ar sut y gellid gwella perthnasoedd ac ymddiriedaeth mewn plismona.

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â gwleidyddion ar bob lefel yng Nghymru. Rydym yn cynnal cyfarfodydd â Jane Hutt, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol, a oedd yn gyfrifol am y portffolio plismona tan fis Mawrth 2024, ynghyd ag Aelodau eraill o'r Senedd, ASau a chynghorwyr lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol o'n gwaith ac amlygu pwysigrwydd ein harolygiad annibynnol o system gwynion yr heddlu. Mae gweithgarwch ymgysylltu mwy penodol hefyd wedi digwydd yn ystod ymchwiliadau proffil uchel.

Gyda phenodiad Rheolwr Datblygu'r Gymraeg ym mis Mai 2023, rydym wedi parhau i symud ymlaen i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Mae adolygiad cyflawn o'n gwasanaethau Gymraeg a'n darpariaeth bresennol wedi'i asesu yn erbyn gofynion Hysbysiad Cydymffurfio Safonau Iaith Gymraeg IOPC.

Gyda chymorth parhaus gan Rwydwaith Iaith Gymraeg y Staff a llawer o gydweithwyr, mae argaeledd a chysondeb gwasanaethau Gymraeg wedi gwella

i weithwyr IOPC. Yn ogystal, mae mwy o dudalennau ein gwefan bellach ar gael yn y Gymraeg ac mae pob gohebiaeth allanol yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Defnydd o'n llinell adrodd

Rydym yn gweithredu llinell adrodd ar gyfer swyddogion a staff heddlu presennol a blaenorol i adrodd am bryderon ynghylch camwedd yn eu gweithle. Mae ar gyfer sefyllfaoedd lle mae camwedd yn datgelu, neu'n awgrymu, bod trosedd wedi'i chyflawni, neu lle mae tystiolaeth o ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu. Mae'r Coleg Plismona hefyd yn cynhyrchu canllawiau ar adrodd am bryderon.

Yn 2023/24 cysylltwyd â'n llinell adrodd 147 o weithiau o gymharu â 98 o weithiau yn ystod 2022/23. Roedd mwyafrif y pryderon a godwyd yn ymwneud â naill ai llygredd, gwahaniaethu, neu fethiant yr Adran Safonau Proffesiynol (PSD) i ymchwilio i gŵyn. Mae gennym nifer o opsiynau ar gyfer delio â galwadau i'n llinell adrodd. Mae'r camau a gymerwn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryderon a godir, ond mae'n rhaid i ni gael caniatâd y galwr cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth i heddlu.

Pan fydd rhywun yn cysylltu â'n llinell adrodd, rydym yn asesu'r wybodaeth a ddarperir ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau a gawsom yn 2023/24 yn addas i'r heddlu perthnasol ymdrin â nhw.

Datgeliadau budd y cyhoedd

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am ddatgeliadau cymwys. Mae datgeliad cymhwysol yn disgrifio sefyllfa lle mae swyddog heddlu neu aelod o staff yn trosglwyddo gwybodaeth sydd, yn eu barn nhw, er budd y cyhoedd, bod swyddog heddlu neu aelod arall o staff yn gwneud, neu'n debygol o wneud, rhywbeth o'i le neu'n droseddol. Gallwch [mwy am ddatgeliadau cymwys yma](#).

Eitem	Gwybodaeth ar gyfer 2023/24
Nifer y datgeliadau cymwys	78
Nifer y datgeliadau cymwys lle cymerwyd camau ychwanegol gennym	78

<p>Crynodeb o'r camau a gymerwyd</p>	<p>Ar gyfer 61 datgeliad, gofynnwyd am ganiatâd i anfon yr wybodaeth berthnasol a ddarparwyd at yr heddlu.</p> <p>Trosglwyddwyd dau ar bymtheg o ddatgeliadau i'n Huned Cudd-wybodaeth. Asesodd yr uned a bu'n cysylltu â thimau eraill ynghylch a ddylid cymryd unrhyw gamau.</p> <p>Arweiniodd dau o'r datgeliadau i ni gynnal ymchwiliad annibynnol.</p>
<p>Crynodeb o effaith y datgeliadau hyn ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau neu gyflawni ein hamcanion</p>	<p>Dim effaith</p>

Mae nifer y datgeliadau cymwys wedi cynyddu o 39 yn 2022/23 a 7 yn 2021/22. Yn y ddwy flynedd ni chafodd y datgeliadau unrhyw effaith ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau na chyflawni ein hamcanion.

Amcan: perfformiad

Sefydliad sy'n darparu perfformiad uchel

Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni

1. Mae uwch arweinwyr yn gweithredu yn unol â'n gwerthoedd ac mae ganddynt gynllun clir ar gyfer y dyfodol.
2. Mae IOPC yn lle gwych i weithio i'n pobl.
3. Rydym yn datblygu galluoedd yn y dyfodol a fydd yn galluogi perfformiad uchel.
4. Byddwn yn gwneud defnydd deallus o wybodaeth a data.
5. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gost-effeithiol a chynaliadwy.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu at:

Gynnal sgôr ymgysylltu â staff o 67% (fel y mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol).

Y sgôr ymgysylltu â staff o'n harolwg yn 2023 oedd 61% yn gyffredinol, i lawr 6% o'r arolwg staff blaenorol (67%), a oedd yn ganlyniad siomedig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gyd-destun i'r canlyniad hwn, gan fod yr arolwg wedi'i ddsbarthu i staff i'w gwblhau ar adeg pan gyhoeddwyd arbedion effeithlonrwydd, gan achosi pryder ymhlith staff am eu cyflogaeth a diogelwch hirdymor yn IOPC.

Rhannwyd canlyniadau arolwg 2023 â staff trwy gyfarfodydd ymgysylltu rhanbarthol a roddodd gyfle i unigolion rannu mewnwelediad pellach am eu lefelau ymgysylltu â'r sefydliad, a'r rhesymau dros eu sgorau.

Mae adborth yn awgrymu bod staff yn croesawu'r cyfle i rannu eu barn, a byddwn yn parhau â'r math hwn o ymgysylltu â chydweithwyr, i weld a fydd yn effeithio ar yr arolwg staff nesaf.

Sicrhau bod o leiaf 64% o weithwyr yn meddwl ei bod yn ddiogel herio'r ffordd y gwneir pethau yn IOPC.

Roedd 51% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r datganiad hwn yn yr arolwg staff, sydd 13% yn is na'r targed. Mae'n werth nodi nad oedd 28% o'r staff a ymatebodd yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae hyn yn awgrymu naill ai bod rhywfaint o ddryswch neu nad yw'r grŵp hwn o unigolion yn ystyried ei bod yn bwysig herio'r ffordd y gwneir pethau.

Mae herio'r status quo yn bwysig gan ei fod yn achosi newid a gwelliant yn y ffordd rydym yn gwneud pethau. Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwy i'w wneud o amgylch diwylliant IOPC o ran creu amgylchedd lle mae staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel i herio heb ofni dial.

Sicrhau bod o leiaf 50% o weithwyr yn teimlo bod newid yn cael ei reoli'n dda yn IOPC.

Mae 27% o weithwyr yn teimlo bod newid yn IOPC yn cael ei reoli'n dda, sy'n ganlyniad siomedig. Nid oedd 29% o'r staff a ymatebodd yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn, gan awgrymu bod cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch sut y caiff newid ei reoli a'i gyflawni yn IOPC.

Gwahoddwyd staff i fynychu sesiynau briffio ym mis Mawrth ac Ebrill 2024 gyda'r tîm Pobl, â'r nod penodol o ddeall y pryderon ynghylch sut y rheolir newid yn IOPC, a'u barn ar arweinyddiaeth. Yn ystod y sesiynau gofynnwyd i staff:

- Sut rydym yn rheoli newid yn IOPC?
- Beth sydd angen i ni ei wneud i reoli newid yn fwy effeithiol?
- Sut mae da yn edrych?
- Eich barn ar arweinyddiaeth yn IOPC.
- Sut mae arweinyddiaeth dda yn edrych?

Mae'n galonogol bod staff a fynychodd y sesiynau wedi siarad yn agored a'r themâu allweddol o'u hadborth yw:

- Perchenogaeth newid: mae angen iddo gael ei gyflwyno gan arbenigwyr (ar y brig) yn hytrach na thechnegwyr nad oes ganddynt brofiad o gyflawni newid.
- Mae llawer o sôn am newid sy'n gythryblus, ac yn aml nid yw'n cael ei gyflawni.
- Mae newid yn IOPC yn cymryd gormod o amser ac yn cael effaith negyddol ar unigolion.
- Mae angen i IOPC sicrhau bod rhaglenni newid yn derbyn adnoddau digonol.
- Mae angen i newid fod yn berthnasol i bob tîm er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'r adborth a dderbyniwyd.

Sicrhau bod 93% o weithwyr yn credu bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Oherwydd strwythur ein harolwg staff blaenorol, nid yw'r data hwn ar gael eto. Mae'r arolwg yn cael ei addasu i unioni'r broblem. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod cyfran uchel o staff yn credu bod ganddynt y sgiliau i wneud eu swydd. Mae hyn oherwydd yr adborth cadarnhaol a gafwyd o weithgareddau dysgu a datblygu.

Sicrhau bod 80% o'n hymchwilyr, sydd wedi bod yn eu swyddi am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad.

Mae ymchwilyr sydd newydd eu penodi yn gweithio'n galed iawn i sicrhau eu bod yn cwblhau eu hachrediad o fewn 24 mis i fod yn eu swydd.

Canran gyfartalog yr ymchwilyr sydd wedi bod yn eu swyddi am 24 mis, yn cyflawni achrediad ym mhob chwarter, yw 93.3% yn 2023/24 (cynnydd bychan ar 2022/23). Mae'r canlyniadau hyn yn gadarnhaol ac yn bennaf oherwydd yr ymrwymiad a'r cymorth a ddarperir gan gydweithwyr yn y tîm dysgu a datblygu sydd am sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd y targed hwn.

Gwella cyfran ein pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir lleiafrifoedd ethnig tuag at gynrychiolaeth sy'n cyfateb i ddemograffeg ardaloedd trefol (fel y'i mesurwyd gan ddata cyfrifiad 2021).

Canran gyfunol y staff o gefndir lleiafrifol ethnig ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn oedd 16.58%, a ostyngodd o gymharu â 2022/23 (17.21%).

Dangosir cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig mewn swyddi rheoli yn y tabl isod:

Graddfa	Canran y staff o leiafrifoedd ethnig
14 - 16	11.18%
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr	22.22%

Mae cynrychiolaeth mewn swyddi uwch reolwyr yn gadarnhaol, ac ychydig yn uwch na phoblogaeth y DU (fel y mesurwyd gan gyfrifiad 2021). Mae cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig mewn swyddi rheolaeth ganol yn sylweddol is (na

chynrychiolaeth yn y DU), a bydd angen i ni adolygu ein harferion recriwtio i sicrhau nad yw IOPC yn creu rhwystrau i ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn anfwriadol.

Cyflawni cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Roedd IOPC ar y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn dilyn derbyn cyllid dros dro ychwanegol yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog uwch a thaliadau anghyfunol untro i staff a ganiateir drwy gylch gwaith cyflog y Gwasanaeth Sifil.

Ein gwaith yn 2023/24

Ein pobl

Llesiant

Un o'r argymhellion allweddol gan Adolygiad Fairfield a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet o IOPC ynghylch lles cydweithwyr oedd i uwch reolwyr:

- Fonitro lles staff yn agos ac ystyried sut arall y gall wella'r cymorth a roddir i staff sy'n gweithio ar achosion emosiynol anodd.
- Adolygu natur a graddau'r cymorth cyflogeion sydd ar gael i staff sy'n gweithio ar ei achosion mwyaf difrifol a sensitif – yn enwedig dros gyfnodau hir o amser a'r hyfforddiant y mae'n ei ddarparu mewn perthynas â diogelu ac ymateb wedi'i lywio gan drawma.

Cynhaliodd ein Hymgyngorydd Lles rywfaint o waith ymchwil a nododd 127 o staff y byddent yn croesawu cymorth Trawma.

Mae cyllid wedi'i nodi ac yn y cyfnod ariannol nesaf bydd yr holl staff yn gallu cael mynediad at Gymorth Trawma ychwanegol trwy ein darparwr iechyd galwedigaethol (PAM).

Rydym yn parhau i ddarparu cynnig iechyd a lles cynhwysfawr i'r holl staff, gan gynnwys, er heb fod yn gyfyngedig i:

- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- STREAM (cymorth ac arweiniad gan gymheiriaid hyfforddedig)
- Gwiriadau Llesiant

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Adnabod y Llinell

Mae ymgyrch 'Adnabod y Llinell' IOPC yn canolbwyntio ar nodi a herio ymddygiad amhriodol a hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd tegwch a chynhwysiant y sefydliad.

Yn flaenorol, roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar nodi a herio gwahanol fathau o ymddygiadau amhriodol, megis peidio â chymryd yr amser i ynganu enw rhywun yn gywir neu herio ymddygiad rhywiaethol rhywun. Dangosodd gwerthusiadau fod hyn wedi helpu i wreiddio gwerthoedd IOPC ar draws yr holl staff, a gwnaed ymrwymiad i gynnal hyfforddiant pellach.

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom lansio hyfforddiant 'adnabod y llinell' ychwanegol sy'n canolbwyntio ar Anabledd sy'n cynorthwyo sefydlu ymddygiadau cadarnhaol ymhellach.

Cymhwysedd Diwylliannol

Ym mis Gorffennaf 2023, lansiwyd e-ddysgu Cymhwysedd Diwylliannol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae hwn yn gwrs gorfodol a barhaodd yn fyw tan 27 Medi 2023. Wrth gau, roedd 93% o staff wedi cwblhau, 0.40% heb ddechrau a 6.37% yn hwyr.

Rhaglen darpar weithwyr proffesiynol

Cynhaliwyd y Rhaglen Darpar Weithwyr Proffesiynol am drydedd flwyddyn ym mis Medi 2023. Dyma raglen interniaeth â thâl pedair wythnos flynyddol IOPC, a ddatblygwyd i gael mynediad at dalent o gefndiroedd a dangynrychiolir yng ngweithlu IOPC.

Ar ôl gwerthuso carfan 2021 a anelwyd yn benodol ar Hil, penderfynwyd targedu unrhyw raglen ddilynol at ddarpar weithwyr proffesiynol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar Hil.

Pobl 20-24 oed yw'r grŵp oedran mwyaf o interniaid o hyd, gostyngodd nifer yr interniaid o grwpiau hil Du a heb fod yn Wyn, cynyddodd nifer yr interniaid anabl, a gostyngodd nifer yr interniaid benywaidd.

Yn y cyfnod adrodd nesaf, cynhelir adolygiad o'r rhaglen hon i asesu ei heffaith a'i chyfraddau llwyddiant. Bydd y tîm Pobl hefyd yn ystyried sut y gellir gwella'r

rhaglen er mwyn iddi fod yn fwy buddiol i bobl ifanc 20-24 oed sydd dan anfantais ac ar y cyrion.

Datblygu arweinyddiaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom ddechrau adolygu ein gwerthoedd â'r nod o ddatblygu a gwreiddio'r ymddygiadau y mae'n ofynnol i arweinwyr a staff eu dangos. Mae hwn yn brosiect hanfodol gan fod yr ymddygiadau arweinyddiaeth a gaiff eu datblygu wedi'u hanelu at ysgogi diwylliant o berfformiad uchel, sy'n cyd-fynd ag un o'n hamcanion strategol.

Mae'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol (CLN) wedi esblygu ac mae'n rhoi cyfle i'r bwrdd rheoli ymgysylltu ag uwch arweinwyr i sicrhau negeseuon cyson ac ysgogol i staff.

Gweithio hybrid

Dechreuodd adolygiad o'n trefniant gweithio hybrid yn y cyfnod adrodd hwn i asesu os oes angen ei addasu. Ar hyn o bryd mae cydweithwyr yn mynychu'r swyddfa neu leoliadau eraill ar sail anghenion busnes. Mae adborth anecdotaidd yn awgrymu mai anaml y mae rhai staff yn mynychu'r swyddfa, ac mae'r polisi presennol wedi'i ddehongli fel trefniant gweithio o gartref.

Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei ystyried gan y bwrdd rheoli yn y cyfnod ariannol nesaf.

Cynllunio gweithlu

Mae Cynllunio Gweithlu yn broses o ddadansoddi'r gweithlu presennol, pennu anghenion gweithlu'r dyfodol, nodi'r bwlch rhwng y presennol a'r dyfodol, a rhoi atebion ar waith fel y gall y sefydliad gyflawni eich cynlluniau gweithredol a strategol. Yn ei hanfod, mae'n ymwneud â sicrhau bod gan IOPC y bobl gywir, ar y contract cywir, yn y lle cywir ar yr adeg gywir i gyflawni'r gwaith a'n hamcanion strategol.

Sefydlwyd gweithgor cynllunio'r gweithlu yn y cyfnod adrodd hwn, i gynllunio sut i fynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad, ac yn y cyfnod adrodd nesaf, bydd y tîm Pobl yn dechrau cael trafodaethau cynllunio'r gweithlu â Phenaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr.

Roedd yr adolygiad a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet hefyd yn argymhell datblygu strategaeth gweithlu. Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy drafodaethau cynllunio'r gweithlu yn helpu i lywio'r themâu i'w cynnwys yn y strategaeth.

Trawsnewid ein Digidol a Data

Eleni daeth ein timau technoleg a data ynghyd i ffurfio swyddogaeth Ddigidol a Data newydd. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod dyluniad a chyflwyniad ein systemau a'n data o'r dechrau i'r diwedd yn cael eu hintegreiddio a'u cydlynu; yn rhoi data yn gyntaf fel ased strategol IOPC.

Cadwodd IOPC ei achrediad Cyber Essentials Plus, gan roi llinell sylfaen glir ac archwiliedig i'r sefydliad o'n hamddiffyniadau seiber.

Rydym wedi cryfhau ein galluedd data, gan ehangu ein tîm llywodraethu data, archwilio a gwella ansawdd ein data, a gosod y sylfeini ar gyfer defnyddio awtomeiddio yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein Warws Data Menter, gan alluogi gweddill y sefydliad i gael ei arwain gan ddata wrth fesur a gwella cynhyrchiant, tra hefyd yn darparu'r wybodaeth a'r tueddiadau allweddol sydd eu hangen arnom i fesur ein perfformiad.

Mae gwelliannau i'r system eleni yn cynnwys uwchraddio a symud ein system achosion cyfreithiol a rheoli dogfennau i'r Cloud, cefnogi'r gwaith o adnewyddu ein mewnrwyd a'i symud i lwyfan newydd, ynghyd â chefnogi uwchraddio ein systemau Pobl a Chyflogres.

Cwynion amdanom ni

Mae llawer o bobl sy'n rhyngweithio â ni yn delio â digwyddiadau sy'n achosi straen, sy'n golygu bod ein staff yn aml yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd. Er gwaetha'n hymdrechion gorau, rydym yn cydnabod bod pethau'n mynd o'u lle weithiau. Er mwyn rheoli hyn, mae gennym weithdrefn gwynion.

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 332 gwynion o gymharu â 352 o gwynion llynedd. Mae hyn yn cynnwys chwech cwyn yn erbyn ein Cyfarwyddwr Cyffredinol (CC). Gwnaethom ymdrin â 302 o gwynion o fewn 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 10 diwrnod gwaith (ar ddiwedd y flwyddyn roedd tair cwyn yn dal i barhau). Fe wnaethom gadarnhau neu rannol-gadarnhau 98 o gwynion, gyda thri ymchwiliad i gŵyn yn dal i barhau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae ein tîm Cwynion ac Adborth yn ymdrin â chwynion amdanom yn unol â'n 'Polisi Cwynion ac Adborth'. Mae cwynion am ein gwasanaeth yn cael eu hasesu o dan y polisi hwn a, lle'n briodol, yn cael eu hanfon ymlaen at y rheolwr(wyr) llinell perthnasol. Gofynnir i'r rheolwr adolygu'r gŵyn ac ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

Pan fyddwn yn asesu bod cwyn yn ddigon difrifol, rydym yn ymchwilio iddi yn unol â'n Polisi Disgyblu a Diswyddo. Yna caiff y canlyniad ei adolygu gan yr uwch reolwr priodol sy'n penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf addas.

Pan fyddwn yn nodi gwersi a ddysgwyd o gwynion, rydym yn rhannu hyn yn fewnol i helpu i lunio a gwella ein gwasanaeth. Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â'n Safonau Gwasanaeth ac y gallwn wneud yn well, rydym yn gwneud cofnod ac yn cymryd y camau priodol.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn y CC, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (SID) a chyfarwyddwyr anweithredol (NEDs) o dan ein 'Polisi Gwneud Cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol IOPC'. Rheolir y cwynion hyn gan Bennaeth y Swyddfa Breifat, sy'n neilltuo unigolyn priodol i ymdrin â'r gŵyn, yn unol â'r polisi.

Yn ystod 2023/24 cawsom saith cwyn o dan y polisi hwn. Roedd y rhain yn ymwneud â chwech yn erbyn y CC ac un yn erbyn y SID. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn yr NEDau. Mae hyn yn cymharu â thair cwyn o dan y polisi hwn yn y flwyddyn flaenorol (tair yn erbyn y CC).

Roedd cwynion 2023/24 yn erbyn y CC yn ymwneud â diffyg gorfodi prosesau/polisiâu IOPC a dal yr heddlu i gyfrif, methu â galw i mewn neu ymwneud â chwynion yr heddlu, a chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus a gwyrddroi cwrs cyfiawnder drwy fethu ag ymateb i bryderon a cheisiadau a godwyd.

Roedd y gŵyn yn erbyn y SID yn ymwneud â chamymddwyn mewn swydd gyhoeddus a gwyrddroi cwrs cyfiawnder trwy fethu ag ymateb i bryderon a godwyd, cais Rhyddid Gwybodaeth a SAR.

Ni chadarnhawyd yr un o'r saith cwyn. Gwnaethom ymdrin â thair cwyn o fewn 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 33 diwrnod gwaith.

Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn nodi effaith bresennol IOPC ar yr amgylchedd, gan ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau a rheoli gwastraff, defnydd dŵr, a chaffael cynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn bodloni gofynion Canllawiau Trysorlys EM 2023/24, Canllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd.

Nid oes cynllun gweithredu bioamrywiaeth gan nad yw hyn yn berthnasol i'n swyddogaethau. Nid yw adroddiad blynyddol Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn datgelu ffigurau manwl ar gyfer IOPC ac felly nid ydym wedi gallu cysoni'r adroddiad blynyddol hwnnw â'r ffigurau cyfnod blaenorol a ddangosir isod.

Gwaith swyddfa ac effaith gweithio hybrid

Yn ystod y flwyddyn 2023/24 rydym wedi parhau i weithredu â model gweithio hybrid ledled ein swyddfeydd lle mae staff yn mynychu'r swyddfa ar sail 'angen busnes'.

Mae deiliadaeth swyddfeydd ar draws ein hystâd wedi sefydlogi ac rydym wedi achub ar y cyfle, lle'n bosibl, i'r 'maint cywir' i'n hystâd a lleihau ein hól troed swyddfa, gan adael gofod lle mae digwyddiadau prydles wedi caniatáu. Er enghraifft, rydym wedi lleihau maint ein swyddfeydd yn Sale, Warrington a Birmingham.

Rydym wedi parhau i adolygu a gwella cywirdeb y data cynaliadwyedd a ddarparwyd ar draws ein hystâd sydd wedi cyfrannu at amrywiadau yn rhai o'n data a byddem yn amlygu'r canlynol:

- Gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm yr allyriadau, yn bennaf oherwydd gostyngiadau mewn teithio ar draws ein sefydliad, megis gostyngiadau mewn hedfan, tanwydd a rheilffyrdd o gymharu â 2022/23.
- Cynnydd mewn ffigurau gwastraff, yn bennaf oherwydd newidiadau yn ôl troed y swyddfa a'r modd y gwaredwyd eitemau cysylltiedig, megis dodrefn swyddfa, pared bwrdd plastr ac offer segur. Lle'n bosibl, rydym wedi canolbwyntio ar aildefnyddio offer swyddfa a chelfi dros ben mewn lleoliadau eraill fel rhan o'n cynlluniau aildefnyddio offer parhaus.
- Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu o ganlyniad i well casglu data yn gyffredinol a hefyd cynnwys data o swyddfa Sale. Mewn rhai o'n swyddfeydd rydym yn gallu cyflwyno data sy'n benodol i IOPC, ac mewn swyddfeydd eraill daw'r data a dderbynnir trwy daliadau gwasanaeth ystadau a ddyrennir yn seiliedig ar ganran y lle sydd gennym; yna bydd mwy o feddiannaeth ar draws parciau busnes â thenantiaid yn effeithio ar y ffigurau a gyflwynir gennym.
- Er gwaethaf cynnydd mewn costau uned, mae gwariant ar ynni a gwaredu gwastraff wedi lleihau, yn bennaf oherwydd y newidiadau yn ôl troed y swyddfa. Mae costau ailgylchu yn seiliedig ar y ffigurau sydd ar gael ond oherwydd cyfyngiadau yn y fframweithiau rydym yn gweithio iddynt, efallai na fydd gennym fynediad at yr holl ddata costio.
- Mae maint y papur a brynwyd wedi cynyddu ac mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnydd yn nifer y staff sy'n mynychu'r swyddfeydd.
- Rydym wedi lleihau cyfanswm nifer y ceir fflyd o 82 i 56 sydd wedi cael effaith ar ein hallyriadau Cwmpas 1.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tCo2e)	2023/24	2022/23	2021/22
Cwmpas allyriadau gros 1	113	174	106
Cwmpas allyriadau gros 2	188	189	204
Cwmpas allyriadau gros 3	65	91	60
Cyfanswm allyriadau	366	454	370

Canllaw i fathau o allyriadau:

- Daw allyriadau Cwmpas 1 o ffynonellau y mae IOPC yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, megis cerbydau a boeleri.
- Daw allyriadau Cwmpas 2 o ynni a ddefnyddir gan IOPC, ond a brynwyd oddi wrth gyflenwyr allanol, megis trydan.
- Mae allyriadau Cwmpas 3 yn ymwneud â dŵr a ddefnyddiwyd, papur a brynwyd a theithio busnes swyddogol (gan gynnwys teithiau awyr rhyngwladol sydd o fewn IOPC yn ddibwys).

Defnydd nwy	2023/24	2022/23	2021/22
Oriau cilowat	324,176	348,929	285,307

Cilogramau o wastraff	2023/24	2022/23	2021/22
Wedi'i anfon i safle tirlenwi	98	0	0
Ailgylchu	25,812	18,409	21,685
Llosgi	544	673	707
Adfer Ynni Llosgi	8,791	5,890	4,583
Cyfanswm gwastraff	35,245	24,972	26,975

Defnydd o ddŵr	2023/24	2022/23	2021/22
Metrau ciwbig a ddefnyddiwyd	3,602	2,781	2,062
Gwariant ar y defnydd o ddŵr	£1,313	£5,524	£5,047

Gwariant ar ynni a gwaredu gwastraff	2023/24	2022/23	2021/22
Ynni a brynwyd, gan gynnwys teithio	£579,261	£690,696	£373,739
Costau tirlenwi	n/a	n/a	n/a
Costau ailgylchu	£23,253	£34,516	£8,449
Costau Llogi	-	-	-

Nid oes gennym fynediad at gostau llogi, gan eu bod wedi'u cynnwys mewn taliadau landlordiaid.

Papur wedi'i brynu	2023/24	2022/23	2021/22
Bocsys A4	138	68	154
Bocsys A3	0	1	4

Canran o gerbydau wedi'u categorieddio fel allyriadau isel iawn.	2023/24	2022/23	2021/22
Ceir fflyd	-	-	-
Ceir llogi	3%	-	-

Prynwyd ein fflyd o geir cyn mis Mawrth 2021 ac felly nid ydynt yn bodloni'r safonau allyriadau isel iawn diweddaraf. Er bod 55% o'r ceir hyn yn rhai hybrid, nid ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer allyriadau isel iawn. Trwy ein darparwr gwasanaeth, cynllun EcoPoint cerdyn tanwydd Allstar, mae coed yn cael eu plannu yn seiliedig ar y defnydd o danwydd. Yn 2023 rydym wedi gwrthbwysu 343,875 cilô o CO₂ drwy'r cynllun hwn.

Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth (YGLI)

Fel corff hyd braich i'r Swyddfa Gartref, mae IOPC wedi'i gynnwys yn adroddiadau allyriadau'r Swyddfa Gartref ond rydym yn parhau i werthuso ein perfformiad ein hunain yn erbyn targedau YGLI a gweithio tuag at gyflawni Sero Net erbyn 2050.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn gwaelodlin 2017/18)	Perfformiad yn 2023/24	Sylwadau
Lliniaru newid yn yr hinsawdd – gweithio tuag at net sero ar gyfer 2050		
Cwrdd ag ymrwymiad fflyd y llywodraeth i 25% o fflyd ceir i fod yn gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) erbyn 31 Rhagfyr 2022 ac i 100% o fflyd ceir a faniau'r llywodraeth fod yn gwbl sero allyriadau yn y bibell gynffon erbyn 31 Rhagfyr 2027.	Heb ei gyflawni	Er bod 55% o'r holl fflyd yn gerbydau hybrid, nid oes gennym unrhyw gerbydau ULEV yn ein fflyd ar hyn o bryd, er ein bod yn parhau i adolygu cydymffurfiaeth â'r targed hwn wrth brynu ceir newydd.
Lleihau'r allyriadau o deithiau busnes domestig o leiaf 30%.	Heb ei gyflawni	Roedd ein hallyriadau i lawr 14% (i 7,351 km) ond ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o 30% (8,565 km). Mae ein polisi hedfan wedi'i ddiweddarau i'w wneud yn ofynnol i staff ystyried opsiynau carbon is fel dewis amgen i bob taith awyren arfaethedig.
Lleihau gwastraff a hybu effeithlonrwydd adnoddau		
Lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir o 15%.	Cyflawnwyd gostyngiad o 63%.	
Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi i lai na 5% o'r holl wastraff.	Heb ei gyflawni	Anfonwyd 6% o wastraff i safleoedd tirlenwi, yn gyffredinol oherwydd y defnydd o sgiplau fel rhan o brosiect lleihau maint swyddfa.
Cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu i o leiaf 70% o'r holl wastraff.	Heb ei gyflawni	Ailgylchwyd 69% o wastraff - mae lleihau maint ein swyddfeydd yn Birmingham a Sale wedi effeithio ar gyfeintiau gwastraff.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn gwaelodlin 2017/18)	Perfformiad yn 2023/24	Sylwadau
Tynnu plastig defnydd untro (PDU) o ystâd swyddfeydd y llywodraeth ganolog.	Heb ei gyflawni	Cyflwynwyd eitemau PDU amrywiol i warediadau swyddfa yn ystod covid (fel cadachau swyddfa) ac mae'r rhain yn dal i gael eu defnyddio.
Lleihau defnydd papur y llywodraeth o leiaf 50%.	Cyflawnwyd gostyngiad o 93%.	
Lleihau ein defnydd o ddŵr		
Lleihau'r defnydd o ddŵr o leiaf 8%.	Cyflawnwyd gostyngiad o 95%.	
Arall		
Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy.		Rydym yn parhau i gaffael y rhan fwyaf o'n cynnyrch a'n gwasanaethau drwy fframweithiau CCS y llywodraeth.
Adfer natur - gwneud lle i blanhigion a bywyd gwylt ffyniannus.		O ystyried natur ein stadau (gofod swyddfa mewnol yn bennaf), mae gennym gyfrifoldeb cyfyngedig am ofod allanol.
Addasu i newid yn yr hinsawdd.		Mae asesu'n parhau.

Gofyniad erbyn Mawrth 2025 (yn erbyn gwaelodlin 2017/18)	Perfformiad yn 2023/24	Sylwadau
Lleihau effeithiau amgylcheddol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a digidol.		<p>Rydym yn parhau i weithio gyda'n cyflenwyr trydydd parti drwy ein contractau masnachol i gyflawni targedau net sero y llywodraeth. Mae ein contractau gwaredu yn nodi bod yn rhaid ailgylchu gwastraff a bod deunyddiau daear prin yn cael eu hadfer a'u hailddefnyddio.</p> <p>Mae IOPC yn defnyddio Crown hosting (menter ar y cyd rhwng Swyddfa'r Cabinet a chanolfannau Ark Data) ar gyfer cynnal offer TGCh yn ffisegol ac yn gweithio gyda Microsoft ar gyfer cynnal cwmwl, ac mae gan y ddau ohonynt dargedau sero net y maent yn gweithio iddynt.</p>
Targedau allyriadau adrannau unigol - Y Swyddfa Gartref		
Targed lleihau allyriadau cyffredinol: 44%.	Cyflawnwyd gostyngiad o 75%.	
Targed lleihau allyriadau uniongyrchol: 25%.	Cyflawnwyd gostyngiad o 71%.	

Nid yw IOPC yn caffael gwasanaethau arlwy, er y gall staff fanteisio ar gyfleusterau arlwy presennol ein landlordiaid, yn bennaf y bwyty yn ein swyddfa yn Canary Wharf.

Camau a gymerwyd yn ystod 2023/24 i wella perfformiad cynaliadwyedd IOPC

Fel rhan o'n gwaith Ystadau, rydym yn parhau i asesu ein swyddfeydd ar gyfer cyfleoedd gwella posibl yn unol â Sero Net ac mae amrywiol brosiectau adeiladu ar y gweill i wella effeithlonrwydd ein hadeiladau.

- Yn ein swyddfa yn Warrington rydym yn gweithio gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ar brosiect i newid y boeleri nwy â rhai mwy ynni-ffeithlon.
- Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, mae'r landlord wedi gosod nifer o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i bob tenant ar y parc busnes i'w defnyddio.
- Yn ein swyddfa yn Canary Wharf, mae GPA yn arwain ar brosiectau i edrych ar ffyrdd o leihau'r defnydd o drydan a nwy, gan gynnwys uwchraddio'r system Rheoli Adeiladau, gosod isfesuryddion ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer gosod paneli solar a newid pypiau gwres nwy i drydan. Y nod yw tynnu nwy o'r adeilad yn gyfan gwbl.

Mae natur ein gwaith ymchwiliol yn golygu mai anaml y ceir dewis arall yn lle defnyddio cerbyd a gwyddom eu bod yn cyfrannu at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn parhau i adolygu sut y gallwn leihau ein hallyriadau o geir fflyd ac yn ddiweddar rydym wedi lleihau'r cyfanswm a ddefnyddiwn yn ein gweithrediadau o 82 i 56, gan arwerthu 26 o geir trwy drydydd parti fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau bod offer yn cael ei aildefnyddio lle bo modd.

Lle mae toriadau prydles wedi caniatáu, rydym wedi achub ar y cyfle i leihau maint yr ystâd swyddfeydd ac wedi lleihau maint ein swyddfeydd yn Warrington, Birmingham a Sale.

Ein strategaeth ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi ymrwmo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn unol ag Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC) a byddwn yn parhau â'n hymdrechion i gyfyngu ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ein prif ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cynaliadwyedd yw cadw'n unol ag Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac adrodd ar y lefelau a osodwyd gan Ganllawiau Trysorlys EF. Ein nod yw cadw ein lefel o CO₂ a gynhyrchir fesul cyflogai ar ei lefel bresennol neu ei leihau.

Rydym wedi adolygu ein dull o lywodraethu'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Unedol, a sut maent yn cynllunio ac yn monitro ein Hymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Mae ein hymagwedd at gynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd bellach wedi'i chynnwys yng nghylch gorchwyl un o'n Grwpiau Sicrwydd, sy'n adrodd yn ffurfiol i'n Bwrdd Rheoli.

Rydym hefyd wedi cynnwys cyfraniad at net sero ac effaith amgylcheddol ar fformat ein hachos busnes, gan sicrhau bod y materion hyn bob amser yn cael eu hystyried yn ystod unrhyw gymeradwyaethau buddsoddi.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Rachel Watson', with a long horizontal flourish extending to the right.

Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol
30 Ionawr 2025

Adran 2: Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethant corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Esbonnir rôl y Bwrdd Unedol, y Pwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn y datganiad Llywodraethiant mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

Y Bwrdd Unedol

Mae aelodau'r Bwrdd Unedol yn ystod 2023/24 i'w gweld yn y tabl isod.

Enw	Teitl
Miranda Biddle ³	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Deborah Bowman ⁴	Cyfarwyddwyr Anweithredol
Katherine Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith
Christine Elliott	Cyfarwyddwyr Anweithredol
Catherine Jervis	Cyfarwyddwyr Anweithredol
William Matthews ⁵	Cyfarwyddwyr Anweithredol
Rommel Moseley	Cyfarwyddwyr Anweithredol
Julia Mulligan	Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Steven Noonan ⁶	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

³ Diwrnod olaf gwasanaeth Miranda Biddle ar y Bwrdd Unedol oedd 28 Gorffennaf 2023

⁴ Diwrnod olaf gwasanaeth Deborah Bowman ar y Bwrdd Unedol oedd 25 Ebrill 2023.

⁵ Diwrnod olaf gwasanaeth William Matthew ar y Bwrdd Unedol oedd 7 Chwefror 2024.

⁶ Penodwyd Steven Noonan i'r Bwrdd Unedol ar 29 Tachwedd 2023.

Y Bwrdd Rheoli

Mae aelodau'r Bwrdd Unedol yn ystod 2023/24 i'w gweld yn y tabl isod.

Enw	Teitl
Miranda Biddle ⁷	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Elizabeth Booth ⁸	Cyfarwyddwr, Pobl
Katherine Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith
David Cryer ⁹	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
David Emery	Cwnsler Cyffredinol
Olive Jones ¹⁰	Cyfarwyddwr, Pobl
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Steven Noonan ¹¹	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr â manylion am gyfarwyddiaethau cwmni neu fuddiannau arwyddocaol eraill sydd gan aelodau'r Bwrdd Unedol a holl Gyfarwyddwyr IOPC ar gael ar ein gwefan. Gellir ei chael yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Llywodraethiant IOPC yn 10 South Colonnade, Llundain, E14 4PU.

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae IOPC yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) 2000, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a Deddf Diogelu Data 2018.

Y tîm hawliau gwybodaeth yw'r pwynt cyswllt canolog ar gyfer prosesu pob cais am wybodaeth. Mae'r tîm yn sicrhau bod pob cais yn cael ei brosesu yn unol â rhwymedigaethau statudol cyfredol, polisïau, a gweithdrefnau mewnol. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i staff a rheolwyr ynghylch pob agwedd ar waith Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data.

⁷ Diwrnod olaf gwasanaeth Miranda Biddle ar y Bwrdd Rheoli oedd 28 Gorffennaf 2023.

⁸ Diwrnod olaf gwasanaeth Elizabeth Booth ar y Bwrdd Rheoli oedd 11 Hydref 2023.

⁹ Penodwyd David Cryer i'r Bwrdd Rheoli ar 4 Mawrth 2024.

¹⁰ Penodwyd Olive Jones i'r Bwrdd Rheoli ar 15 Ionawr 2024.

¹¹ Penodwyd Steven Noonan i'r Bwrdd Rheoli ar 31 Hydref 2023.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad IOPC yn erbyn y terfynau amser statudol.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer a gwblhawyd	310	248	227	226
Wedi cwrdd â'r terfyn amser statudol	96%	92%	91%	93%

Colledion data a sicrwydd gwybodaeth

Perchenogion Asedau Gwybodaeth IOPC sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu asedau yn unol â'n polisïau ac am sicrhau bod rheolaethau ar waith i reoli risgiau'n briodol. Mae meysydd busnes yn ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data sy'n ymwneud â cholli, dwyn neu ddatgelu'n amhriodol ein gwybodaeth. Mae'r adroddiadau digwyddiad yn cael eu hadolygu gan y tîm diogelu data, sy'n penderfynu a ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael ei frifio'n rheolaidd ar y materion hyn ac ar y risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy trwy reolaethau ychwanegol.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad IOPC.

Ceisiadau am wybodaeth	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer a gwblhawyd	193	169	211	229
Wedi cwrdd â'r terfyn amser statudol	81%	90%	85%	81%

Digwyddiadau data	2023/24	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer y digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO	8	9	3	3
Angen gweithredu rheoleiddiol	-	-	-	-

Rhoddion elusennol

Trefnodd ein staff ddigwyddiadau codi arian i gefnogi amrediad o elusennau. Gwnaeth staff hefyd roddion personol i elusennau oherwydd rhoddion a dderbyniwyd yn ystod 2023/24. Cyhoeddir y rhain yn y gofrestr Rhoddion a Lletygarwch Blyneddol sydd [ar gael ar ein gwefan](#).

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan baragraff 17(1) Atodlen 2 i *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*, mae'n ofynnol i IOPC baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa IOPC a'i incwm a gwariant, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, â chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- ddatgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau IOPC wedi'u nodi yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilyr IOPC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilyr yn



ymwybodol ohoni.

Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol
30 Ionawr 2025

Datganiad Llywodraethiant y Swyddog Cyfrifo ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r Datganiad Llywodraethiant hwn yn ymwneud â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol (CC) IOPC ar 21 Mawrth 2024, a dechreuais yn y rôl ar 22 Ebrill 2024. Gan nad oeddwn yn fy swydd yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn, cefais sicrwydd ysgrifenedig gan fy rhagflaenydd bod y canlynol yn gofnod priodol ar gyfer y cyfnod hwn.

Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Mae'n galluogi'r Bwrdd Unedol fel y corff llywodraethiant i gyflawni ei swyddogaethau statudol:

- rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant da a rheolaeth ariannol (i annog defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau)
- pennu a hyrwyddo nodau a gwerthoedd strategol IOPC
- darparu cymorth a chynghor i mi fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth gyflawni fy swyddogaethau
- monitro ac adolygu cyflawni swyddogaethau o'r fath.

Mae'r fframwaith yn fy nghynorthwyo fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Unedol i baratoi strategaeth ar y cyd ar gyfer cyflawni ein priod swyddogaethau, a adolygir yn flynyddol. Y mae hefyd yn cynnwys Cod Ymarfer a baratowyd ar y cyd. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r berthynas rhwng fy rôl i a'r Bwrdd Unedol, sy'n gorfod adlewyrchu'r egwyddor bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau.

Cynlluniwyd y system lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Ni all, felly, ond darparu sicrwydd uchel, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r systemau y manylir arnynt yn y datganiad hwn wedi bod yn eu lle ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Rwy'n gweithredu yn unol â Rheolau Sefydlog IOPC ac rwy'n atebol i Weinidogion ac i'r Senedd. Cafodd fy rhagflaenydd gyfarfodydd â'r Ysgrifennydd Cartref neu'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân drwy gydol y flwyddyn. Adolygwyd effeithiolrwydd y sefydliad yn rheolaidd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Sefydlwyd cyfarfodydd dwyochrog ar gyfer Uwch Nawdd gydag Uwch Noddwr y Swyddfa Gartref ac fe'u cynhaliwyd yn


chwarterol, a chynhelir cyfarfodydd misol ar y cyd â'r Uned Nawdd a Thîm Polisi'r Swyddfa Gartref i drafod materion polisi, strategol, cyllidebol, gweithredol, a nawdd. Ni thrafodir unrhyw faterion a allai achosi risg i annibyniaeth y sefydliad wrth wneud penderfyniadau gweithredol.

Mae fframwaith rheolaeth fewnol y sefydliad yn seiliedig ar adolygiad o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Fe'i cynllunir i reoli risgiau i gyflawni amcanion yn effeithlon ac yn ddarbodus.

Cefnogwyd y Bwrdd Unedol gan ddau Bwyllgor, y tri'n cael eu cadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol (NED). Dangosir y strwythur Llywodraethu a oedd yn gweithredu yn y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn yn ffigur 1 ac fe'i disgrifir yn ffigur 2. Ffurfiwyd y Pwyllgor Ansawdd o'r newydd ar gyfer eleni i ehangu a dyfnhau'r ffocws ar ansawdd fel rhan o'r fframwaith perfformiad.

Daeth telerau sefydlog rhai o'n NEDau i ben cyn diwedd 2023/24, fodd bynnag, arweiniodd oedi o ran penodiadau cyhoeddus o staff newydd at ansicrwydd sylweddol a risg i gworwm y Bwrdd Unedol a'i Bwyllgorau. Roedd hyn yn parhau i fod yn Risg Strategol ar ddiwedd y flwyddyn, fodd bynnag roedd y cworwm yn parhau drwy gydol y cyfnod.

Ffigur 1



Ffigur 2

Y Bwrdd Unedol

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Tom Whiting CC Dros Dro	<p>Aelodau: CC Dros Dro, pob un o'r 6 NED (cyfarwyddwyr anweithredol), Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Dirprwy CC (Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol), Cyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith.</p> <p>Yn bresennol: Cwnsler Cyffredinol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Grŵp y Swyddfa Breifat, Ysgrifennydd Llywodraethiant.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Unedol yn gyfrifol am gyttuno ar strategaethau a chynlluniau a phennu'r dyraniad adnoddau. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Unedol yn galluogi adolygiad rheolaidd o gynlluniau strategol ac adrodd yn erbyn eu cyflawniad. Mae'r Bwrdd Unedol hefyd yn adolygu o bryd i'w gilydd yr heriau mewnol ac allanol sy'n wynebu'r sefydliad a sut orau y gallai gwrdd â'r heriau hynny. Mae eitemau sefydlog ar ein perfformiad a'n sefyllfa ariannol.</p>

Pwyllgor Archwilio ac Aseiad Risg

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Catherine Jervis (NED)	<p>Aelodau: 3 aelod NED. Catherine Jervis, Bill Matthews a Christine Elliott.</p> <p>Yn bresennol: CC Dros Dro, Dirprwy CC Dros Dro (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Pennaeth Cyllid, Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Archwilio Allanol (BDO ac Azets) a Nawdd y Swyddfa Gartref (fel arsylwr). Cyfarwyddwyr a staff perthnasol eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Llywodraethu.</p>	<p>Mae'r ARAC yn cynorthwyo'r sefydliad a'r Swyddog Cyfrifo yn eu cyfrifoldebau am faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant, a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar ran y Bwrdd Unedol.</p>

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Christine Elliott (NED)	<p>Aelodau: 3 aelod NED (Christine Elliott (Cadeirydd), Rommel Moseley & Julia Mulligan).</p> <p>Yn bresennol: CC Dros Dro, Dirprwy CC Dros Dro (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwr, Pobl, un o'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ysgrifennydd Llywodraethu.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cytuno ar ran y Bwrdd ar y strategaeth tâl a gwobrau a chylch gwaith cyflog blynyddol y staff ac yn cytuno ar y cylch gwaith cyflog a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar gynigion y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch dyfarniadau dilyniant cyflog i bob cyfarwyddwr ac yn gwneud argymhellion ar archwiliad cyflog cyfartal blynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar y Strategaeth Pobl, materion lechyd a Diogelwch, effeithiolrwydd yr Arolwg Staff, unrhyw newidiadau a fyddai'n cael effaith fawr ar gynllunio'r gweithlu a chynlluniau i ddatblygu diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd.</p>

Pwyllgor Ansawdd

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Rommel Moseley (NED)	<p>Aelodau: 3 aelod NED (Rommel Moseley, Catherine Jervis a Bill Matthews (a ddisodlwyd gan Julia Mulligan hanner ffordd drwy'r flwyddyn), Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Strategaeth & Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro.</p> <p>Yn bresennol: Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Rheolwr Ansawdd a Gwella Gwasanaeth, Swyddog Gwella Ansawdd a Gwasanaeth, Ysgrifennydd Preifat.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Ansawdd yn darparu her annibynnol ac adeiladol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant i helpu IOPC i roi ansawdd wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud, i oruchwylio gwaith gweithredol a'r penderfyniadau a wneir i'r safonau uchaf ac i adeiladu diwylliant sy'n cefnogi gwaith o ansawdd uchel.</p>

Y Bwrdd Rheoli

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Tom Whiting CC Dros Dro	<p>Aelodau: CC, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr S ac I, Cyfarwyddwr Pobl, Cwnsler Cyffredinol, a dau Gyfarwyddwr Gweithrediadau.</p> <p>Yn Bresennol: Pennaeth Cyllid (yn fisol, nid yn wythnosol), Pennaeth Cyfathrebu (yn wythnosol, nid yn fisol), Pennaeth Datblygu Busnes a Grŵp Pennaeth y Swyddfa Breifat.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gyflawni busnes y sefydliad yn weithredol. Mae'n cyfarfod yn ffurfiol bob mis gyda chyfarfodydd pwynt cyffwrdd yn fwy aml bob wythnos. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyllid, perfformiad, cynllunio busnes a risg, i lywio ei benderfyniadau.</p>

Uchafbwyntiau gweithgareddau Pwyllgor y Bwrdd

Rôl y pwyllgorau yw cynorthwyo'r Bwrdd Unedol yn ei gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth, a llywodraethiant. Cyflawnir hyn trwy adolygu a monitro'r sicrwydd a roddir dros y meysydd hyn a chadarnhau dibynadwyedd a chywirdeb y rhain. Mae'r meysydd a adolygwyd gan y pwyllgorau yn ystod y flwyddyn hyd yma yn cynnwys y canlynol;

Pwyllgor Archwilio ac Aseiad Risg

- Risg strategol
- Gweithgarwch Archwilio Mewnol a monitro argymhellion
- Adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol
- Adnoddau
- Diweddariad TGCh
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Rhagolygon a dirprwyo ariannol
- Polisi Lleisio Pryderon
- Polisi Gwrth-dwyll
- Sicrwydd rhag Twyll
- Llywodraethiant Gwybodaeth

- Cwynion Difrifol
- Hawliadau Sifil
- Cwynion am IOPC
- Strategaeth Ystadau
- Amcangyfrifon cyfrifo critigol
- Recriwtio a Ystyrir
- Cynnydd yn erbyn Safonau Gweithredol y Llywodraeth

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

- Cylch Gwaith Tâl
- Gwella Cyflawniad Gweithredol
- Strategaeth Pobl
- Datblygu rhaglen achredu ymchwilwyr newydd
- Adolygu strwythur uwch reolwyr
- Diweddariadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Diweddariadau Iechyd a Diogelwch
- Diweddariadau Rhwydwaith Staff
- Siarter Arweinyddiaeth a Gwerthoedd IOPC
- Canlyniadau arolwg staff

Pwyllgor Ansawdd

- Trosolwg o'r fframwaith Sicrhau Ansawdd
- Gweithgareddau QSI ar gyfer 2023/24
- Adroddiad adolygu Sicrwydd Ansawdd Sefydliadol
- Adolygiad Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Adolygu risgiau Ansawdd
- Diffiniad sefydliadol o ansawdd
- Adolygiad o fodel ansawdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Sampl Dip Trais yn Erbyn Menywod a Merched
- Adolygiadau a Datgeliadau Achosion Hanesyddol

Mae pob pwyllgor yn gwerthuso ei waith ac yn cynhyrchu adroddiad effeithiolrwydd blynyddol.

Perfformiad y Bwrdd

Gan weithio gyda phartner allanol, ymgwymerodd y Bwrdd â darn o waith datblygu â ffocws a ddechreuodd ym mis Chwefror 2022, ac yn dilyn hynny cynulliodd grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys rhai o'i aelodau i archwilio opsiynau a gwneud argymhellion yn ôl i'r Bwrdd llawn. Diben y dull hwn oedd sicrhau y gallai ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r broses a nodi camau gweithredu diriaethol mewn da bryd. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen saith argymhelliad a derbyniwyd pob un ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, creu cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd, i gyd-fynd â'r Rheolau

Sefydlog a'r Cod Ymarfer presennol yn ogystal â rhoi mwy o sicrwydd bod ein gwerthoedd yn llywio ein gwaith.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, trefnwyd bod agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael cyn cyfarfodydd. Roedd papurau'n darparu digon o wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn, gan gynnwys cyfeiriad at risg, ariannol, cyfreithiol, rhanddeiliaid allanol, ac unrhyw oblygiadau amrywiaeth a nodwyd.

Ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd

Roedd cyfarfodydd Bwrdd IOPC yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau i gynorthwyo rhedeg y sefydliad a chyflawni ein hamcanion, megis perfformiad, adnoddau, ac adrodd ar risg, ynghyd â diweddariadau gan is-bwyllgorau. Darparodd y swyddfa weithredol wasanaeth ysgrifenyddol cynhwysfawr i'r bwrdd a'i is-bwyllgorau i sicrhau bod y bwrdd a'i weithgareddau yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Rhoddwyd papurau Bwrdd o ansawdd uchel i'r bwrdd cyn pob cyfarfod i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Ffigur 3 yn dangos presenoldeb Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Unedol a Phwyllgorau.

Ffigur 3 - Presenoldeb y Bwrdd Unedol a Phwyllgorau

Enw	Rôl	Y Bwrdd Unedol	ARAC	Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Pwyllgor Ansawdd
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro & Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol) tan 25 Mai 2023.	10/10			
Catherine Jervis	Cyfarwyddwyr Anweithredol	10/10	3/4		3/3
Bill Matthews	Cyfarwyddwr Anweithredol – wedi gadael IOPC 7 Chwefror 2024	8/8	3/4		2/2

Enw	Rôl	Y Bwrdd Unedol	ARAC	Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Pwyllgor Ansawdd
Deborah Bowman	Cyfarwyddwr Anweithredol – wedi gadael IOPC 25 Ebrill 2023	0/1			
Christine Elliott	Cyfarwyddwyr Anweithredol	10/10	4/4	8/8	
Rommel Moseley	Cyfarwyddwyr Anweithredol	10/10		8/8	3/3
Julia Mulligan	Cyfarwyddwyr Anweithredol	10/10		5/8	0/1
Kathie Cashell	Cyfarwyddwr, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol) o 25 Mai 2023	10/10			
Miranda Biddle	Wedi gadael IOPC 31 Gorffennaf 2023	4/4			
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr	7/8			
Steve Noonan	Cyfarwyddwr Dros Dro o 29 Tachwedd 2023	4/4			

Mae Ffigur 3 yn manylu ar bresenoldeb aelodau. Mae'r ardaloedd llwyd yn nodi nad yw'r unigolyn a enwir yn aelod o'r pwyllgor rhestredig, y gall fod yn bresennol yn ei rôl Weithredol. Mynychodd Tom Whiting bob cyfarfod o ARAC a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro.

Gwrthdaro buddiannau

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau IOPC yn ei wneud yn ofynnol i'r holl staff ddatgan unrhyw wrthdaro posibl wrth iddynt godi (mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ddarostyngedig i God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet). Yn ogystal, mae staff ymchwilio yn cael eu hatal rhag gweithio ar ymchwiliadau lle mae ganddynt ddi-ddordebau blaenorol. Ystyrir bod ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymesur â'r risg canfyddedig i'n didueddrwydd.

Mae'n ofynnol i aelodau Bwrdd IOPC ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn, neu y gellir eu gweld, wrth gyflawni eu dyletswyddau yn barhaus ac o flaen cyfarfodydd os yw'n briodol. Mae eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn gwneud darpariaeth i fynychwyr ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath. Gwnaed datganiadau gan aelodau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gweithdrefnau hyn a chymerwyd camau priodol i reoli gwrthdaro buddiannau.

Cyhoeddir y gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Unedol, y Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cymru, a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol ar-lein.

Adroddiad llywodraethiant corfforaethol

Rwyf wedi adolygu'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol sydd ar waith ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog. Er ei fod wedi'i gyfeirio at adrannau gweinidogol yn hytrach na chyrrff cyhoeddus anadrannol, mae'r Cod yn darparu arfer gorau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol. Lle ystyrir eu bod yn berthnasol, mae'r sefydliad wedi cydymffurfio ag egwyddorion y cod.

Mae arferion rheoli risg wedi'u hadolygu ac ystyrir eu bod yn cydymffurfio â gofynion pum egwyddor y Llyfr Oren ond mae gwaith yn parhau mewn rhai meysydd i wella ein harferion er mwyn cydgyfeirio ymhellach â'r egwyddorion hyn.

Strategaeth a diwylliant

Yn 2022 lanswyd ein hail gynllun Strategol, o'r enw 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r strategaeth ar gyfer ei chyflawni, gan egluro ein blaenoriaethau a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hynny. Mae hefyd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Mae'n gynllun uchelgeisiol gyda'n nod dros y blynyddoedd i ddod i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona trwy arolygiaeth gadarn, annibynnol. Gwnaed gwaith helaeth i gyfleu ein strategaeth newydd i uwch arweinwyr, rhanddeiliaid allanol a staff gan gynnwys ym mhob digwyddiad staff.

Yn ogystal, rydym wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig i sicrhau bod y strategaeth yn fforddiadwy ar ôl ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a'r arbedion angenrheidiol i fuddsoddi yn yr amcanion strategol ac mae gwaith wedi parhau drwy'r flwyddyn i adolygu'r cynllun a sicrhau bod y strategaeth yn fforddiadwy.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal archwiliad o'n strategaeth i adlewyrchu'r sefyllfa gyllido a sbardunodd ein cynllun ariannol tymor canolig, perfformiad y system gwynion, y newid yn y cyd-destun plismona a'r galluoedd rydym yn eu nodi sydd eu hangen arnom i gyflawni'r strategaeth. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu ffordd ymlaen ar gyfer ein cynllun busnes yn 2024/25.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ein strategaeth newydd yn ei wneud yn ofynnol i ni gydweithio'n fwy effeithiol a bod gennym fwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae ein Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol sy'n cynnwys holl uwch arweinwyr IOPC yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r agenda wedi cynnwys digwyddiadau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar gyflawni strategaeth a newid.

Rydym ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad strwythur uwch i sicrhau bod gennym y tîm arwain cywir i gyflawni ein strategaeth uchelgeisiol. Mae hyn wedi cytuno ar egwyddorion dylunio lefel uchel a model cyflawni a bydd yn datblygu gwaith dylunio manylach a chynigion ar gyfer gweithredu.

Materion

Arhosodd trosiant staff yn sefydlog, er ei fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2023/24. Mae trosiant yn y timau Ymchwilio wedi arafu oherwydd gweithredu darpariaethau i fynd i'r afael â dilyniant gyrfa ar gyfer Ymchwilyr Arweiniol.

Oherwydd y gofyniad i wneud arbedion effeithlonrwydd i gwrdd â phwysau ariannol, cyflwynwyd recriwtio ystyriol yn ystod y cyfnod ariannol, sy'n golygu nad yw llenwi swyddi gwag bellach yn awtomatig. Llenwyd 61% o swyddi, gyda 39% o swyddi'n cael eu gohirio, eu gwrthod, neu eu dadsefydlu (dileu o'r sefydliad staff).

Mae hyn wedi cael effaith ar allu timau, yn enwedig yn ein swyddogaethau cymorth corfforaethol, i gyflawni blaenoriaethau. Nid yw proffil amrywiaeth ein gweithlu cyffredinol yn gynrychioliadol o boblogaeth y DU (fel y cyhoeddwyd yng Nghyfrifiad 2021) ac mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein mesurau gweithredu cadarnhaol. Os byddwn yn parhau, mae ein mesurau recriwtio ystyriol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn golygu efallai na fyddwn mewn sefyllfa i gynyddu proffil amrywiaeth ein gweithlu yn y flwyddyn i ddod.

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oes unrhyw garfanau o Ymchwilyr dan hyfforddiant wedi'u recriwtio, sy'n debygol o effeithio ar ddatblygu talent yn y tîm Ymchwiliadau. Bydd hyn yn cael ei adolygu, ac mae'n debygol y bydd angen recriwtio Ymchwilyr dan hyfforddiant yn y cyfnod ariannol nesaf. Nid yw ein cyflogau bob amser wedi symud gyda chyfraddau'r farchnad ac mae rhai meysydd yn parhau i fod yn anodd eu llenwi. Roedd rhai swyddi yn ein swyddogaeth TGCh yn arbennig o heriol i'w llenwi ac roedd y farchnad ar gyfer cydweithwyr uwch ac arbenigwyr pwnc yn anodd iawn.

Dangosodd canlyniadau ein harolwg pobl fod ein sgôr mynegai ymgysylltu â staff wedi gostwng i 61% sydd 5% yn llai na'r llynedd. Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r sefydliad, yn cynnwys newid mewn arweinyddiaeth, a nifer anarferol o uchel o uwch rolau wedi'u llenwi dros dro, sydd wedi ysgogi ansicrwydd, yn ogystal â'r adolygiad o'r strwythur uwch reolwyr. Cynhaliwyd

cyfarfodydd grŵp ffocws staff i ymchwilio'n ddyfnach i sut rydym yn rheoli newid a'n harweinyddiaeth, a bydd yr adborth o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei ddefnyddio i adolygu ein dull o gyflwyno a gweithredu newid ac ystyried sut y gall arweinwyr ymgysylltu ymhellach â staff.

Cymerodd 77% o'n staff ran yn yr arolwg staff, sy'n uwch na'r cyfartaledd ac sy'n dangos bod staff wedi ymrwmo i rannu eu barn am feysydd yn y busnes yr hoffent eu gweld yn cael eu gwella a'r hyn sy'n gweithio'n dda.

Mae ein cydberthnasoedd rheolwyr llinell a'n perthnasoedd tîm yn parhau'n gryf â sgôr ffafriol o 80% ac 84%, yn y drefn honno. Y meysydd pryder a amlygwyd yn yr arolwg yw cyfleoedd i ddatblygu, dilyniant gyrfa, amlygrwydd arweinyddiaeth, a sut rydym yn rheoli ac yn cyflawni newid. Bydd y gyfarwyddiaeth Pobl yn blaenoriaethu'r meysydd hyn yn y cyfnod ariannol nesaf, ac mae cynllun gweithredu i ymateb i ganlyniadau'r arolwg wedi'i gytuno gyda'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Rydym yn parhau i fonitro'r heriau strategol wrth gyflawni ein strategaeth gorfforaethol a chynlluniau busnes blynyddol. Mae'r rhain yn gyflawnadwyedd effeithiol, fforddiadwyedd a galw a chymhlethdod ein gwaith gweithredol.

Rydym yn croesawu canlyniad yr Adolygiad Atebolrwydd sy'n bwrw ymlaen â thri o'n newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a'r ddadl gyhoeddus arfaethedig bellach (drwy Bapur Gwyn) ar drefniadau ar gyfer atebolrwydd yr heddlu. Er bod hyn i'w groesawu, mae'n creu gwaith sylweddol heb ei gynllunio i ni a fydd yn parhau yn 24/25 ac a allai effeithio ar ganlyniadau eraill. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o IOPC wedi cynyddu 5 y cant yn ystod y flwyddyn, o 62 i 68 y cant, ynghyd â chynnydd o 5 y cant mewn hyder bod IOPC yn gwneud gwaith da, o 35 i 40 y cant.

Mae galw a chymhlethdod ein gwaith gweithredol wedi parhau i dyfu trwy 2023 i 2024, ac mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar Weithrediadau. Mae cyfeiriadau wedi parhau i gynyddu, gan gyrraedd uchafbwynt, gyda'u lefel uchaf erioed am unrhyw flwyddyn, yn fwy na 7,000 am y tro cyntaf. Maent wedi sefydlogi yn ystod y misoedd diwethaf, ond eleni oedd y nifer uchaf o atgyfeiriadau a dderbyniwyd erioed. Mae'r arferol newydd yn fwy na 550 o atgyfeiriadau y mis. Rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol o 15% mewn atgyfeiriadau eleni. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i gadw nifer yr achosion yn yr ystod 260-280 y mae gennym y gallu i'w cyflawni. Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i'n galluogi i gyrraedd terfyn uchaf ein targed.

Ni chyflawnodd perfformiad ymchwiliadau ein holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol amseroldeb, gyda'n hachosion wedi'u cwblhau o fewn 12 mis, ychydig yn is na'r targed o 85% ar 83% a'n hachosion a gwblhawyd o fewn y targed 6 mis ar hyn o bryd yn uwch na'r targed o 34%. Mae cynnydd yn parhau ar gwblhau adolygiadau gan leihau'r ôl-groniad a chynyddu cynhyrchiant. Mae adolygiadau wedi gweld tuedd ar i fyny a pharhaus yn ddiweddar, ac mae

mesurau ychwanegol bellach yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynyddol wrth weithio gyda heddluoedd i geisio lleihau'r niferoedd a dderbynnir trwy ei gael yn 'lawn y Tro Cyntaf.'

Mae ein rhaglen Gwella Cyflenwi Gweithredol (IOD) wedi datblygu 3 phecyn gwaith ar wahân i sicrhau arbedion effeithlonrwydd dros y 3 blynedd nesaf, a disgwylwn weld cynnydd yn cael ei wneud trwy 2024.

Mae adolygiad Swyddfa'r Cabinet wedi dod i ben ac wedi gwneud argymhellion sydd wedi'u derbyn i raddau helaeth. Mae gwaith ar weithredu eisoes wedi dechrau, fodd bynnag, bydd hyn yn arwain at newidiadau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith yn 2024 a gallai effeithio ymhellach ar ein gallu ym mhob tîm.

Rydym yn parhau i gyflawni ein strategaeth mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG), fodd bynnag, mae ein heriau o ran capasiti staffio wedi cyfyngu ar yr effaith a'r cynnydd y byddem wedi dymuno eu gwneud yn y maes hwn.

Mewn Gwaith Achos mae'r cynlluniau yn y Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP) yn dechrau dod i rym, ac roeddem yn gweld gostyngiad yn yr ôl-groniad tan y duedd ar i fyny yn ddiweddar yn nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy 2024 ond bydd angen buddsoddiad ariannol ychwanegol i sicrhau gostyngiad llwyr yn yr ôl-groniad na ragwelir tan 2025.

Nodwyd gennym yn flaenorol heriau o ran adnoddau mewn ymchwiliadau, yn arbennig, yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr oherwydd trosiant uchel. Yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio allanol lleihawyd y materion hyn o ran adnoddau, fodd bynnag, oherwydd ein strategaeth recriwtio ystyriol, a ddaeth yn sgil cyfyngiadau ariannol, rydym wedi gweld y niferoedd yn gostwng eto yn Llundain a'r De-ddwyrain ac ar draws ein swyddfeydd rhanbarthol; mae hyn yn effeithio ar ein Rhanbarthau ac yn lleihau capasiti ymchwilwyr arweiniol.

Roedd adolygiadau'r Llywodraeth o drefniadau atebolrwydd yn tynnu'n sylweddol ar adnoddau i ymateb a gweithio gyda'r Swyddfa Gartref ar newidiadau i ddeddfwriaeth. Bydd hyn nawr yn parhau trwy 2024 wrth i ni weithio i roi'r newidiadau hynny ar waith.

Ar ddiwedd y flwyddyn mae pum cylch gwaith arfaethedig newydd ar gyfer trosolwg IOPC, mae hyn eisoes yn creu gwaith sylweddol heb unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu. Mae Swyddfa'r Cabinet yn argymhell y dylai'r Swyddfa Gartref ystyried y rhinweddau a'r anfanteision sy'n gysylltiedig yn ofalus cyn ymestyn cylch gwaith IOPC i gwmpasu ystod ehangach fyth o sefydliadau, yn enwedig os caiff ei gylch gwaith ei ymestyn heb adnoddau ychwanegol. Rydym hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch gwanhau pwrpas craidd y sefydliad.

Mae ein sefyllfa ariannu ar gyfer 2024/25 bellach wedi'i chwblhau, ond roedd hyn ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau eisoes ac yn dilyn llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro at yr Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu yn y Swyddfa Gartref. Mae'r aros am ateb wedi rhwystro cynllunio ar gyfer 2024/25 er i'r Bwrdd Unedol osod cyllideb ym mis Ebrill 2024 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Fframwaith sicrwydd ac asesiad risg

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- dynodi risg strwythuredig yn gysylltiedig ag amcanion busnes
- asesu a rheoli risgiau sylweddol
- monitro ac effeithiolrwydd y fframwaith sicrwydd
- adolygu a monitro allanol

Mae'r broses sicrwydd wedi'i chynllunio i sicrhau y gallwn fodloni ein hunain bod y trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli risg a sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol sy'n weithredol ac yn effeithiol. Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys cylch busnes blynyddol sy'n pennu amcanion clir ar gyfer y sefydliad ac yn nodi'r risgiau rhag eu cyflawni.

Mae fframwaith rheoli risg y sefydliad yn ceisio sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â chyflawni ein hamcanion yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli. Asesir risgiau ar sail eu heffaith a'u tebygolrwydd gan ddefnyddio graddfa y cytunwyd arni gan y Bwrdd Unedol. Cedwir cofrestr risg strategol, ac mae gan bob blaenoriaeth strategol gofrestr risg weithredol. Mae risgiau a gweithgarwch lliniarol perthnasol yn cael eu nodi a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli, ARAC a'r Bwrdd Unedol, yn unol â chylchoedd adrodd y sefydliad. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod yr archwaeth risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol mewn gweithgarwch rheoli risg a chaiff ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli ac ARAC. Adolygwyd trefniadau rheoli risg gan GIAA a derbyniwyd gradd "sylweddol".

Rydym yn parhau i weithio tuag at gydymffurfio â chyfres o Safonau Gweithredol y Llywodraeth. Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol ar ddechrau'r flwyddyn ac eto ymhen chwe mis yn erbyn gofynion pob safon berthnasol i asesu ein lefel gyfredol o gydymffurfiaeth a nodi lle mae angen gwaith i gydymffurfio â'r eitemau gorfodol. Mae canlyniadau'r adolygiadau hyn yn cael ei gyfleu i'r ARAC bob blwyddyn.

Cynhelir adolygiad o'n rheolaethau gan archwilwyr mewnol ac allanol i adlewyrchu eu priod gyfrifoldebau. Amlygwyd unrhyw faterion arwyddocaol i'r ARAC.

Archwilio mewnol

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan y GIAA dan Femorandwm Cydddealltwriaeth â'r Swyddfa Gartref.

Mae Archwilio Mewnol yn ein cynorthwyo i wella gweithdrefnau a rheolaethau yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion, a byddwn yn dilyn y rhain i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Darparwyd adroddiad monitro ar weithrediad yr argymhellion i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd yma a'n hymatebion rheolwyr.

Ffigur 4

Archwilio	Canfyddiadau allweddol	Ymateb rheolwyr
Cynllunio Busnes a Rhagolygon Ariannol	Mae rheolaethau allweddol ar waith, a chaiff y byrddau rheoli a'r byrddau unedol eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r cylch cynllunio busnes blynyddol yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad ac mae cyllidebau yn cyd-fynd â hyn; fodd bynnag, ni chaiff blaenoriaethau eu haddasu mewn modd strategol yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau.	Cafodd tri argymhelliad eu gwneud a chytunwyd y bydd pob un ohonynt yn cael eu gweithredu erbyn diwedd Ch2 2024/5.
System Rheoli Achosion	Mae llywodraethu cymesur, rheoli risg, cynlluniau gweithlu, a dull rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu ar waith.	Derbyniwyd pob un o'r chwe argymhelliad ac mae pedwar eisoes wedi cael eu gweithredu.
Adfer o Drychineb	Bu gwelliant sylweddol ers yr archwiliad diwethaf, nid yn unig o ran adfer ar ôl trychineb ond hefyd cydnerthedd technoleg ehangach. Nodwyd yr hyn a ddysgwyd o brofion cydnerthedd, mae prosesau a dogfennaeth allweddol wedi'u gwella.	Dim ond tri argymhelliad a gafodd eu gwneud a'u derbyn, mae'r rhain i fod i gael eu gweithredu erbyn diwedd Ch3 2024/25.

Archwilio	Canfyddiadau allweddol	Ymateb rheolwyr
Rheoli Risg	Rhodddwyd gradd sylweddol i'r maes hwn. Canfu'r adolygiad fod prosesau a rheolaethau sefydledig o ran rheoli risg. Cafodd yr argymhellion a wnaed eu hawgrymu fel "gwelliannau", nid oeddent yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau rheoli.	Derbyniwyd yr holl argymhellion, ac mae gwaith wedi dechrau i'w rhoi ar waith.
Iechyd a Diogelwch	Mae'r trefniadau i ddiogelu iechyd a diogelwch staff IOPC yn gwella, ond mae rhai meysydd lle y gellid cryfhau prosesau.	Derbyniwyd yr holl argymhellion, ac mae gwaith wedi dechrau i'w rhoi ar waith.
Cyflogres	Nododd yr adolygiad wendidau rheoli sylweddol ym mhrosesau'r gyflogres ers gweithredu'r modiwl cyflogres newydd o fewn IOPC.	Derbyniwyd yr holl argymhellion, a disgwylir i'r rhain gael eu gweithredu erbyn diwedd Ch3 2024/25.

Nododd ein Pennaeth Archwilio Mewnol y canlynol i ddweud am ei raglen waith; "Cadarnhaodd ein gwaith archwilio ar gyfer 2023/24 wella trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Roeddem yn gallu darparu barn gymedrol ar gyfer pedwar o'n harchwiliadau, sylweddol ar gyfer un archwiliad (rheoli risg) a chyfyngedig ar gyfer un (cyflogres)."

Iechyd a diogelwch a llesiant

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i wella iechyd a diogelwch o fewn ein model gweithio hybrid. Rydym yn parhau i fonitro presenoldeb yn ein swyddfeydd i sicrhau bod ein darpariaeth cymorth cyntaf a gweithdrefnau gwacáu mewn tân yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y nifer lai o bobl yn byw ynddynt, ac rydym yn adolygu ein swyddfeydd ac yn lleihau hyn lle bod hynny'n ymarferol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda landlordiaid, asiantiaid rheoli a chontractwyr i wneud y gwaith adfer gofynnol mewn modd diogel ac effeithiol ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i sicrhau bod y darpariaethau swyddfa newydd yn ffafriol i amgylchedd gwaith diogel ac iach ac y byddant yn diwallu anghenion cydweithwyr.

Rydym yn parhau i weithredu ein system rheoli iechyd a diogelwch gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, adolygiadau o asesiadau risg, dogfennau canllaw, ymchwiliadau i ddamweiniau a chynnal gwiriadau diogelwch gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân, archwiliadau adeiladau a gwiriadau offer cymorth cyntaf.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i wella diwylliant iechyd a diogelwch y sefydliad trwy gynyddu ymwybyddiaeth o risgiau iechyd a diogelwch allweddol ac annog ymgysylltu â darpariaethau diogelwch. Rydym yn gwella ein strwythur adrodd i sicrhau llywodraethu ac ystyriaeth drylwyr o iechyd a diogelwch ar bob lefel o'r sefydliad ac yn parhau i wella diwylliant iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad.

Mae lles ein staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth sefydliadol ac yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau. Mae wedi'i wreiddio yn y strategaeth Pobl, ac rydym yn parhau i ddarparu amrywiaeth o adnoddau a mentrau lles i gynorthwyo staff â'u llesiant meddyliol, emosiynol, corfforol a chymdeithasol, gan gynnwys rhaglen gymorth cymar-i-gymar bwrpasol.

Mae gweithdai lles wedi'u cyflwyno i wella llythrennedd iechyd meddwl. Mae'r rhain wedi canolbwyntio ar straen, gorflino a phresenoldeb sydd wedi bod yn fwy anodd i'w uniaethu â gweithio hybrid. Mae'r gweithdai hefyd yn anelu at leihau stigma, hyrwyddo ymgysylltiad â'n darpariaethau lles eraill a meithrin diwylliant agored lle mae staff yn gyfforddus ac yn hyderus i gymryd rhan mewn sgysiau gonest am lesiant. Mae cynnwys lles hefyd wedi'i integreiddio i'r rhaglen sefydlu ymchwilwyr a'r rhaglen hyfforddi rheolwyr llinell i sicrhau ffocws parhaus.

Mae prosiect deunyddiau trallodus yn parhau i ddogfennu ac ymgorffori arferion rhagweithiol ac ataliol ar draws y sefydliad i amddiffyn staff rhag y risg bosibl o drawma ar ôl dod i gysylltiad â deunyddiau trallodus.

Effeithiolrwydd y Polisi Mynegi Pryderon

Codwyd dau bryder yn ystod y flwyddyn, deliwyd â'r ddau a'u datrys yn unol â gofynion y Polisi Mynegi Pryderon.

Swyddog Cyfrifo

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb personol am gynnal system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol, a rheoli risg i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a deddfwriaeth berthnasol arall, tra'n diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol.

Caiff fy adolygiad ei lywio'n rhannol gan waith ein harchwilwyr mewnol, a gwblhaodd gynllun archwilio mewnol blynyddol yn canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheoli. Nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol;

“Mae fy Marn Gymedrol ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu, er bod meysydd y gellid eu gwella, rwy'n cydnabod bod IOPC yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'i amgylchedd rheoli, a bod gwelliant ers y llynedd pan wnaethom ddarparu Barn Gyfyngedig. Rwy'n cydnabod ymhellach bod IOPC yn gweithredu mewn amgylchedd heriol ac yn mynd drwy newidiadau, gan gynnwys yn ei uwch reolwyr a'i lywodraethu, ac mae rhai heriau yn parhau.

Lle rydym wedi nodi gwendidau, gallaf gadarnhau bod IOPC wedi cymryd mesurau priodol i gytuno ar y gwendidau a nodwyd yn yr amgylchedd rheoli a'u hadfer, fodd bynnag, mae angen rhywfaint o waith o hyd i gwblhau'r camau gohiriedig o'n harchwiliadau o Reoli Fflyd a Chynllunio'r Gweithlu yn 2022/23, oedi oherwydd pwysau gweithredol a newidiadau mewn strwythurau uwch reolwyr.”

Rwy'n cefnogi'r farn hon, sy'n welliant ar sefyllfa'r llynedd ac yn credu y byddwn yn parhau i wneud gwelliannau ychwanegol mewn rheolaethau yn y dyfodol.



Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol
30 Ionawr 2025

Adroddiad tâl a staff

Polisi tâl

Nod IOPC yw darparu pecynnau cydnabyddiaeth cystadleuol i recriwtio a chadw staff o galibr priodol. Rydym yn gweithredu system graddfa a gefnogir gan gynllun gwerthuso swyddi dadansoddol. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar gyfer unrhyw newidiadau i'n polisi tâl neu gylch gwaith cyflog.

Rydym yn ddarostyngedig i ganllawiau tâl y Gwasanaeth Sifil a gynhrychir gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ac yn cyflwyno cylch gwaith cyflog blynyddol i'r Swyddfa Gartref, sydd o fewn y canllawiau hynny.

Mae cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r dyfodol yn cydymffurfio â gwaith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Contractau gwasanaeth

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oes gan eu contractau unrhyw gyfnod penodol a gellir eu terfynu gyda hyd at dri mis o rybudd gan IOPC. Byddai terfynu cyfarwyddwyr yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Roedd Tom Whiting yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro rhwng 4 Rhagfyr 2022 a 21 Ebrill 2024 ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

Ar 21 Mawrth 2024, penodwyd Rachel Watson yn Gyfarwyddwr Cyffredinol (CC) IOPC a dechreuodd yn y rôl ar 22 Ebrill 2024.

Data ymgysylltu â staff

Nid yw IOPC yn gymwys i gymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd mesurau amgen i'w defnyddio o 2021/22.

Pobl ag anableddau

Mae IOPC yn rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl ag anableddau, lle mae natur y gyflogaeth yn gwneud hyn yn briodol. Rydym hefyd

wedi ymrwymo i alluogi unrhyw aelod o staff a allai ddod yn anabl yn ystod eu cyfnod cyflogaeth i barhau yn eu rôl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiad (EDI)

Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl yn atebol am yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiad (EDI). Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a arweinir gan gyfarwyddwr anweithredol, yn llywodraethu perfformiad EDI, ac yn monitro ac yn herio data'r gweithlu. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro yn cadeirio ein grŵp staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae gennym chwe rhwydwaith staff. Cefnogir pob un gan uwch reolwr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau'n canolbwyntio ar bob un o'r naw nodwedd warchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhwydweithiau'n ymwneud â phob agwedd ar ein busnes.

Mae ein gwytodaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gael ar ein gwefan.

Data trosiant staff

Yn ystod 2023/24 roedd canran trosiant yn 7.9% (2022/23: 10.1%), sydd o fewn ein hamrediad targed o 7% i 10%. Nid yw'r data yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol a rolau tymor byr eraill.

Data absenoldeb salwch

Yn ystod 2023/24, cafodd ein staff 3.3 diwrnod o absenoldeb salwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn welliant ar y cyfartaledd o 4.7 diwrnod yn 2022/23. Rydym wedi ymrwymo i iechyd a llesiant ein staff ac mae polisi absenoldeb salwch cynhwysfawr yn ei le. Rydym yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Cyfansoddiad staff

Mae IOPC wedi ymrwymo i sicrhau y gall pob cydweithiwr gyrraedd ei botensial llawn yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad trwy ddata Adnoddau Dynol ac adborth gan ein Cyngor Staff a rhwydweithiau staff.

Mae'r tabl isod yn rhoi cyfansoddiad staff yn ôl rhyw ar 31 Mawrth 2024 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a ddangosir mewn cromfachau. Mae data arall ar gyfansoddiad staff ar gael ar ein gwefan.

Nifer ar 31 Mawrth	Gwrywaidd	Benywaidd	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr*	8 (9)	11 (13)	19 (22)
Staff	342 (385)	597 (650)	939 (1035)
Cyfanswm	350 (394)	608 (663)	958 (1,057)

**Mae'r cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2024 yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro, graddau eraill yr Uwch Wasanaeth Sifil a 4 cyfarwyddwr anweithredol.*

lawndal ar ymddeoliad cynnar neu gollu swydd

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2022/23: dim).

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2022/23: dim).

Niferoedd uwch-staff y gwasanaeth sifil yn ôl band ar 31 Mawrth

Band	2023/24	2022/23 ¹²
SCS 3	1.0	1.0
SCS 2	3.0	3.0
SCS 1	11.0	12.0
Cyfanswm	15.0	16.0

Datgeliad cyflog teg

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

¹² Mae bandiau ar gyfer 2022/23 wedi cael eu hailddadansoddi.

Y newid canrannol mewn perthynas â chyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf oedd gostyngiad o 8.5%. Yn y flwyddyn adrodd, cyfarwyddwr IOPC sy'n cael y cyflog uchaf yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Tom Whiting. Ei dâl bandiedig cyfwerth ag amser llawn yn 2023/24 oedd £160,000 i £165,000. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, cyfarwyddwr IOPC ar y cyflog uchaf oedd y cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Michael Lockwood a'i gyflog bandiedig cyfwerth ag amser llawn oedd £175,000 i £180,000.

Yn y flwyddyn adrodd, y tâl cyfartalog mewn perthynas â gweithwyr IOPC a gymerwyd oedd £41,813 (2022/23: £39,440), sef cynnydd o 6.02%. Mae'r wybodaeth am y gymhareb tâl yn y tabl isod:

Band	2023/24	2022/23
Tâl ¹³ a buddion y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf £	162,500	177,500
25 ^{ain} canradd tâl a buddion £	32,600	31,110
Cymhareb 25 ^{ain} canradd	5.0	5.7
Tâl a buddion canradd canolrifol £	40,075	36,890
Cymhareb canolrif	4.1	4.8
75 ^{ain} canradd tâl a buddion £	46,335	43,261
Cymhareb 75 ^{ain} canradd	3.5	4.1

Mae polisïau tâl a gwobrwyo IOPC yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet, ac felly credwn fod y gymhareb ganolrifol ar gyfer y flwyddyn yn gyson â'r polisïau cyflog, gwobrwyo a chamu ymlaen ar gyfer ein gweithwyr yn eu cyfarwydd. Mae'r gostyngiad yn y cymarebau canradd o ganlyniad i'r ffaith bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro yn ennill llai na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol. Talwyd tâl ôl-ddyddiedig o £20,067 i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro ym mis Mai 2024, ac mae £14,700 ohono'n ymwneud â Blwyddyn Ariannol 2023/24 ac wedi'i gynnwys yn y cyflog, a £4,500 yn ymwneud â chyflog 2022/23.

Pennir tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro a chyfarwyddwyr anweithredol gan y Swyddfa Gartref. Mae'r tâl ar gyfer staff gan gynnwys graddau SCS wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag amrediadau gwerthuso swyddi. Mae tâl cyfwerth ag amser llawn yn yr amrediad £21,000 i £162,500 (2022/23: £19,000 i £177,500).

¹³ Cyflog a lwfansau yw'r ffigurau a adroddwyd yn unig oherwydd na thalwyd unrhyw fuddion i'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf nac i unrhyw weithwyr eraill.

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,731 (2022/23: £4,527) yn berthnasol i staff a phrentisiaid sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yn Llundain a Croydon. Nid oes gan amrediadau cyflog bwyntiau asgwrn cefn wedi'u cydgyfeirio â nhw. Pennir cyflogau ar gyfradd sbot a phennir dilyniant cyflog blynyddol gan godiadau canrannol y cytunir arnynt bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o amrediadau cyflog yn cael eu hailbriso bob blwyddyn. Y dyddiad ailbriso nesaf yw 1 Gorffennaf 2024.

Ni dderbyniodd yr unigolyn ar y cyflog uchaf, na gweithwyr eraill IOPC dâl perfformiad na bonysau yn ystod 2023-24 (2022-23: Dim).

Pecynnau ymadael

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dangosir data cymharol mewn cromfachau ar gyfer 2022/23.

Band cost pecyn gadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer y gwyriadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost
<£10,000	- (-)	- (-)	- (-)
£10,000 - £25,000	- (-)	3 (-)	3 (-)
£25,001 - £50,000	- (-)	5 (-)	5 (-)
£50,001 - £100,000	- (-)	4 (1)	4 (1)
£100,001 - £150,000	- (-)	- (-)	- (-)
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul math (cyfanswm y gost)	- (-)	12 (1)	12 (1)
Cyfanswm y gost (2023/24) yn £000	-	489	489
Cyfanswm y gost (2022/23) yn £000	-	95	95

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf

Blwydd-dal 1972. Datgelir costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Lle mae IOPC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan IOPC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Niferoedd a chostau staff

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys pobl sydd wedi'u secondio i'r sefydliad a llafur wrth gefn.

Nifer cyfartalog y staff (FTE)	2023/24	2022/23
Parhaol	990	994
Arall	1	7
Cyfanswm	991	1,001

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys gweithwyr dros dro a staff sydd wedi'u secondio i'r sefydliad. Mae'r costau ar ôl adennill mewn perthynas â secondiadau allanol.

Costau staff £'000	2023/24	2023/24	2023/24	2022/23
	Staff parhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau a thaliadau	42,723	36	42,759	40,244
Cost nawdd cymdeithasol	4,552	-	4,552	4,301
Cyfraniadau pensiwn	10,707	-	10,707	10,236
Is-gyfanswm	57,982	36	58,018	54,781

Costau staff £'000	2023/24	2023/24	2023/24	2022/23
	Staff parhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Llai: adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(353)	-	(353)	(414)
Costau net yr holl staff eraill	57,629	36	57,665	54,367

Gwariant ar ymgynghori

Mae gan IOPC broses ymgynghori gadarn a rheoli gwariant llafur amodol, sy'n cydymffurfio â'r canllawiau a osodwyd gan y Swyddfa Gartref (Tîm Masnachol Gwasanaethau Proffesiynol). Lle mae'n berthnasol, cyflwynir gwybodaeth i Swyddfa'r Cabinet ar yr holl wariant ar wasanaethau ymgynghori a phroffesiynol ar y trothwyon a nodir yn y canllawiau neu uwchlaw hynny. Cafwyd gwariant ar ymgynghori o £180,000 yn ystod 2023/24 (2022/23: dim). Roedd gwariant 2023/24 ar gyfer cyngor ar ailstrwythuro uwch reolwyr.

Llafur amodol

Mae IOPC yn cyflogi llafur wrth gefn yn unol â phroses reoli gadarn a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r llafur wrth gefn a gyflogir ar gyfer ein cyfarwyddiaeth Gweithrediadau wedi gostwng oherwydd y gofyniad ehangach i wneud arbedion effeithlonrwydd i gwrdd â phwysau ariannol yn ystod y flwyddyn a chyflwyniad recriwtio ystyriol gyda llawer o swyddi'n cael eu tynnu o'r sefydliad.

Cost llafur amodol	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Hillsborough	36	33
Cyfarwyddiaethau eraill	-	588
Cyfanswm	36	621

Penodiadau oddi ar y gyflogres

Ni thalwyd unrhyw un o gyfarwyddwyr IOPC trwy daliadau i gwmni cyfyngedig neu drydydd parti yn lle cyflog. Telir yr holl gyfarwyddwyr drwy gyflogres IOPC.

Mae'r tablau hyn yn dangos nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres am £245 neu fwy y dydd.

Ymrwymiadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2024, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Math o benodiadau	
Penodiadau sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers lpedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd	1
Penodiadau oddi ar y gyflogres	1

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
O'r rhain...	
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
Nifer y penderfynwyd ei fod o fewn cwrpas IR35	-
Nifer y penderfynwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35	1
Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-
Nifer y penodiadau lle'r oedd y statws yn destun dadl o dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

Ar gyfer unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	Nifer
Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	-
Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres sydd wedi'u hystyried yn "aelodau bwrdd", a/neu, yn "uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol	13

Gwybodaeth amser cyfleuster undeb llafur

Tabl 1: swyddogion undeb perthnasol	Nifer
Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	13

Tabl 2: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer
Canran yr amser	
0	977
1 – 50	13
51 – 99	-
100	-

Tabl 3: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	£'000
Cyfanswm cost amser cyfleuster	127
Cyfanswm y bil i'w dalu	57,629
Canran yr amser a dreuliwyd ar amser y cyfleuster	0.22%

Wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm bil cyflog) x 100

Tabl 4: gweithgareddau undeb llafur taledig	£'000
Yr amser a dreulir ar weithgareddau undeb llafur cyflogedig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	-

Wedi'i gyfrifo fel: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur taledig gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl) x 100.

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer blwyddyn adrodd 2023/24

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog¹⁴	Buddion mewn nwyddau¹⁵	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000
Deborah Bowman ¹⁶	-	-	-
Christine Elliott	10-15	0.5	10-15
Catherine Jervis	5-10	-	5-10
William Matthews ¹⁷	5-10 (5-10)	-	5-10
Rommel Moseley	5-10	0.1	5-10
Julia Mulligan	10-15	3.0	15-20

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys ar gyfer buddion bonws na phensiwn

¹⁴ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

¹⁵ Mae buddion mewn nwyddau yn ymwneud â theithio a threuliau a dalwyd gan IOPC am deithio.

¹⁶ Dyddiad olaf gwasanaeth Deborah Bowman ar y Bwrdd Unedol oedd 25 Ebrill 2023 ac ni dderbyniodd unrhyw dâl yn ystod 2023/24.

¹⁷ Diwrnod olaf gwasanaeth William Matthew ar y Bwrdd Unedol oedd 7 Chwefror 2024.

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2022/23

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog	Buddion mewn nwyddau ¹⁸	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000
Deborah Bowman	5-10	-	5-10
Christine Elliott	5-10	-	5-10
Catherine Jervis	5-10	-	5-10
William Matthews	5-10	2.8	10-15
Rommel Moseley	5-10	0.1	5-10
Julia Mulligan	10-15	5.9	15-20

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys ar gyfer buddion bonws na phensiwn

¹⁸ Mae buddion mewn nwyddau yn ymwneud â theithio a threuliau a dalwyd gan IOPC am deithio.

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd 2023/24

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ¹⁹	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Miranda Biddle ²⁰	45-50 (115-120)	-	14	55-60
Elizabeth Booth ²¹	55-60 (105-110)	-	21	75-80
Katherine Cashell	135-140	-	53	185-190
David Cryer ²²	5-10 (95-100)	-	3	10-15
David Emery	105-110	-	63	165-170
Olive Jones ²³	20-25 (95-100)	-	8	25-30
Steve Noonan	40-45 (105-110)	-	41	85-90
Amanda Rowe	120-125	-	(1)	115-120
Tom Whiting	160-165	-	57	215-220

Talwyd £10,000-£15,000 i Tom Whiting ar 24 Mai yn ymwneud ag ôl-daliad yn ei rôl dros dro. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghyflog Blwyddyn Ariannol 2023/24.

¹⁹ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

²⁰ Gadawodd Miranda Biddle IOPC ar 28 Gorffennaf 2023.

²¹ Gadawodd Elizabeth Booth IOPC ar 11 Hydref 2023.

²² Ymunodd David Cryer â IOPC ar 4 Mawrth 2024.

²³ Ymunodd Olive Jones â IOPC ar 15 Ionawr 2024.

Aelod Amanda Rowe (clasurol/clasurol plws/premiwm) wedi trosglwyddo i alpha. Mae hyn wedi arwain at fuddiant pensiwn negyddol oherwydd nad oedd y dyfarniad cyflog yn ystod y flwyddyn yn ddigon i wrthbwysu'r cynnydd chwyddiant o 10.1%.

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2022/23

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ²⁴	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Claire Bassett ²⁵	30-35 (135-140)	-	9	40-45
Miranda Biddle	110-115	-	43	150-155
Liz Booth	100-105	-	40	140-145
Katherine Cashell	110-115	-	44	155-160
David Emery	100-105	-	13	110-115
Michael Lockwood ²⁶	140-145 (175-180)	-	-	140-145
Amanda Rowe	110-115	-	70	180-185
Tom Whiting	140-145	-	54	195-200

Mae gwerthoedd Claire Bassett a Michael Lockwood yn cynnwys taliad am eu gwyliau heb eu cymryd ar ddyddiadau eu hymddiswyddiad o £10,000 - £15,000 a £25,000 - £30,000 yn y drefn honno.

Talwyd £0-£5,000 i Tom Whiting ar 24 Mai yn ymwneud ag ôl-daliad yn ei rôl dros dro.

²⁴ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

²⁵ Gadawodd 31 Mai 2022.

²⁶ Ymddiswyddodd Michael Lockwood ar 2 Rhagfyr 2022.

Taliadau bonws

Nid yw taliadau bonws yn daladwy i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro nac uwch reolwyr eraill IOPC.

Taliadau a wneir i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2023/24 ni chafodd taliadau eu gwneud i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Nid oedd unrhyw daliadau yn 2022/23.

Buddion mewn nwyddau

Mae cyfarwyddwyr anweithredol ac uwch reolwyr yn teithio'n rheolaidd i amrywiol swyddfeydd IOPC i gyflawni eu dyletswyddau. Lle, oherwydd natur y tasgau sy'n cael eu perfformio ac amllder y teithio, mae'r rhain yn cael eu hystyried yn weithle parhaol, yna mae cost teithio yn fudd trethadwy mewn nwyddau. Bydd hyn yn cynnwys treth ar gost teithio.

Buddion pensiwn

Mae rhai cyn-gomisiynwyr a staff a wasanaethodd fel aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn 'yn fras trwy gyfatebiaeth' (BBA) fel dewis amgen i aelodaeth cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae IOPC yn gyfrifol am gyllido buddion pensiwn yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio ymhellach yn Nodyn 3.1 y Datganiadau Ariannol

Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, a'r holl staff yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn Prif Wasanaeth Sifil. Mae'r tablau isod yn darparu manylion o'r buddion pensiwn i uwch reolwyr.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae buddion pensiwn yn cael eu darparu trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015, cafodd cynllun pensiwn newydd ei gyflwyno i weision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu **alpha**. Mae hyn yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ag oed pensiwn arferol yn gydradd ag Oedran Pensiwn Gwlad yr Aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn hyn, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) Mae gan y PCSPS bedair adran: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**) ag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) ag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi cael eu cyllido a thelir cost buddion gan arian y bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng deng mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, efallai y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd pob aelod sy'n newid i **alpha** yn cael eu buddion PCSPS 'wedi'u bancio', a'r rheini sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan adawant **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) â chyfrif pensiwn **partneriaeth** cyfraniad cyflogwr).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn berthynol i gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd pensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeol. Ar gyfer **premium** mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. **Mae Classic plus** yn ei hanfod yn hybrid, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras megis ar gyfer **classic** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo megis yn premium. Yn **nuvos**, mae aelodau yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae'r cyfrif pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth cynnydd pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn adeiladu mewn ffordd debyg i **nuvos**, heblaw fod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, mae aelodau'n gallu dewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a amlinellir gan y *Ddeddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn

gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond lle maen nhw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i gwmpasu'r gost o warchodaeth buddion wedi'i ddarparu'n ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fyddent yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisioes wedi cyrraedd, neu dros, oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 i aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a'r oedran uwch o 65 neu oedran pensiwn gwladol i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS yn ogystal ag **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau'r pensiwn Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar wefan [Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil](#)

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion sy'n cael eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn cymar dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall, y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost/chost ei hun. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Gwelliant) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion yn deillio o Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei gyllido gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiynau cronodig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o unrhyw gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prasio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Pensiwn cronodig	Gwir gynnydd	CETV	CETV	Gwir gynnydd
	ar oedran pensiwn ar 31/3/24	mewn pensiwn ar oedran pensiwn	ar 31 Mawrth 2024	ar 31 Mawrth 2023	mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Miranda Biddle	20-25	0-2.5	311	277	9
Elizabeth Booth	10-15	0-2.5	224	188	16
Katherine Cashell	35-40	2.5-5	548	452	33
David Cryer	0-5	0-2.5	3	-	2
David Emery	35-40	2.5-5	709	604	45
Olive Jones	0-5	0-2.5	8	-	6
Steven Noonan	20-25	0-2.5	321	256	27
Amanda Rowe	50-55 Cyfandaliad (135-140)	0-2.5 Cyfandaliad (0)	1,175	1,090	(17)
Tom Whiting	15-20	2.5-5	255	186	36

Adroddiad atebolrwydd Seneddol

Archwilwyr

Mae trefniadau ar gyfer archwiliad allanol yn cael eu darparu o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae hyn yn gofyn i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) i archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad y cyfrifon, ac i osod copïau ohono (ynghyd â'i adroddiad) o flaen dau dŷ'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn cynnal yr archwiliad ar ran y C&AG.

Y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gyfer 2023/24 oedd £65,700. Yn 2022/23 y ffi archwilio oedd £63,520. Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu darparu o dan gontract gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Nid oes materion rheoleidd-dra i'w hadrodd.

Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Yn 2023/24 cafodd IOPC golled adeiladol o £353,000. Mae'r golled yn ganlyniad i brosiect mudo data na fu ei angen oherwydd datblygiad system amgen a oedd yn llai costus ac yn fwy effeithiol.

(2022/23: islaw'r trothwy adrodd.)

Anrhegion

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Ni chafodd anrhegion eu rhoi. (2022/23: dim.)

Ffioedd a chostau

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Derbyniodd IOPC incwm gan CThEF am waith ar atgyfeirio a gyflawnwyd o dan adran 28 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Cafodd incwm ei dderbyn gan Orfodaeth Mewnfudo ar gyfer gwaith a wnaed i adolygu cyfeiriadau priodol. Amcan ariannol IOPC ar gyfer incwm o gyrff llywodraeth eraill yw adfer cost llawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Chostau'r Trysorlys. Cafodd yr amcan ariannol hwn ei gyflawni. Darperir y dadansoddiad isod at ddibenion ffioedd a chostau ac nid at ddibenion IFRS 8 fel y cyfarwyddir gan y FReM.

Ffioedd a chostau	2023/24 Incwm £'000	2023/24 Costau £'000	2023/24 (Diffyg) £'000	2022/23 Incwm £'000	2022/23 Costau £'000	2022/23 (Diffyg) £'000
Incwm CThEF	23	(23)	-	45	(45)	-
Asiantaeth Ffiniau'r DU	1	(1)	-	-	-	-
Gorfodaeth Mewnfudo	2	(2)	-	3	(3)	-
Incwm o weithgareddau	26	(26)	-	48	(48)	-
Incwm amrywiol	48	(48)	-	16	(16)	-
Incwm arall	48	(48)	-	16	(16)	-
Cyfanswm	74	(74)	-	64	(64)	-

Rhwymedigaethau amodol o bell

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio.

Mae gan IOPC rwymedigaethau wrth gefn o bell mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol yn erbyn IOPC. Mae'r rheolwyr o'r farn mai £214,000 (2022/23 £2,000) yw'r rhwymedigaeth lawn pe bai'r hawliadau'n llwyddiannus gan gynnwys costau cyfreithiol trydydd parti cysylltiedig ar gyfer 2023/24.



Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol
30 Ionawr 2025

Adran 3:

Datganiadau ariannol

Datganiad o wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024	Nodyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Refeniw o gontractau â chwsmeriaid		74	64
Cyfanswm incwm gweithredol		74	64
Costau staff	4	(57,665)	(54,367)
Prynu nwyddau a gwasanaethau	4	(13,360)	(13,443)
Costau dibrisiant ac amorteiddiad	4	(4,984)	(4,914)
(Colled)/enillion wrth waredu asedau anghyfredol	4	(199)	4
Gwrthdroadau darpariaeth/(cost) a gweddiill sydd ddim yn arian parod	4	1,114	144
Cyfanswm gwariant gweithredu		(75,094)	(72,576)
Gwariant net am y flwyddyn		(75,020)	(72,512)
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na fydd yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net			
Actiwaraidd (colled)/enillion ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	3.1	(4)	770
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(75,024)	(71,742)

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus IOPC.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 138 i 161 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2024	Nodyn	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peirianwaith a chyfarpar	5	4,058	5,364
Asedau anniriaethol	6	4,448	3,726
Asedau hawl i ddefnyddio	12	10,882	12,824
Cyfanswm asedau anghyfredol		19,388	21,914
Asedau cyfredol			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	1,380	1,151
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	8	8,293	6,603
Cyfanswm asedau cyfredol		9,673	7,754
Cyfanswm asedau		29,061	29,668
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaethau	11	(198)	(96)
Rhwymedigaethau prydles	12	(1,788)	(2,157)
Masnach a symiau taladwy eraill	10	(8,485)	(8,319)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(10,471)	(10,572)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		18,590	19,096
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	11	(1,973)	(2,970)
Rhwymedigaethau prydles	12	(9,998)	(11,449)
Rhwymedigaethau pensiwn	3.1	(1,696)	(1,730)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(13,667)	(16,149)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau		4,923	2,947
Ecwiti ac arian wrth gefn arall trethdalwr			
Arian wrth gefn cyffredinol		6,619	4,677
Pensiwn wrth gefn		(1,696)	(1,730)
Cyfanswm ecwiti		4,923	2,947



Rachel Watson

Cyfarwyddwr Cyffredinol

30 Ionawr 2025

Mae'r nodiadau ar dudalennau 138 i 161 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad llifau arian ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024	Nodyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net am y flwyddyn		(75,020)	(72,512)
Addasiad ar gyfer rhai nad ydynt yn arian parod	4	4,069	4,766
Addasiad ar gyfer llog prydles		119	137
(Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	(229)	(129)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill	10	166	(1,237)
(Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau eraill	10	-	(104)
Buddion pensiwn a dalwyd	3.1	(108)	(126)
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(71,003)	(69,205)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peirianwaith, a chyfarpar	5	(542)	(669)
Prynu asedau anniriaethol	6	(1,994)	(1,264)
Elw o waredu asedau		168	5
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(2,368)	(1,928)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Grant y Swyddfa Gartref		77,000	71,000
Taliadau am rwymedigaethau prydles		(1,820)	(1,547)
Taliadau am log prydles	4	(119)	(137)
Llifau arian net o weithgareddau cyllido		75,061	69,316
Cynnydd/(Gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod	8	1,690	(1,817)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau y cyfnod	8	6,603	8,420
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod		8,293	6,603

Mae'r nodiadau ar dudalennau 138 i 161 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024	Nodyn	Arian wrth gefn cyffredinol £'000	Pensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm arian wrth gefn £'000
Balans ar 31 Mawrth 2022		6,276	(2,587)	3,689
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2022/23				
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	16	69,067	-	69,067
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	16	1,933	-	1,933
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		(87)	87	-
Gwariant net am y flwyddyn		(72,512)	-	(72,512)
Enillion actwaraidd yn y flwyddyn		-	770	770
Balans ar 31 Mawrth 2023		4,677	(1,730)	2,947

Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2023/24	Nodyn	Arian wrth gefn cyffredinol £'000	Pensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm arian wrth gefn £'000
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2023/24				
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	16	74,464	-	74,464
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	16	2,536	-	2,536
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		(38)	38	-
Gwariant net am y flwyddyn		(75,020)	-	(75,020)
Colled actiwaraid yn y flwyddyn		-	(4)	(4)
Balans ar 31 Mawrth 2024		6,619	(1,696)	4,923

Mae'r gronfa bensiwn wrth gefn yn cynrychioli rhwymedigaethau ar gyfer pensiynau a ddisgrifir yn nodyn 3.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 138 i 161 yn rhan o'r cyfrifon hyn..

Nodiadau i'r cyfrifon

1 Datganiad o bolisiau cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2023/24 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisiau cyfrifo a gynhwysir yn y FReM yn cynhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddesir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sy'n cael ei ddyfarnu i fod y mwyaf priodol i amgylchiadau IOPC at ddiben rhoi golwg gwir a theg wedi cael ei ddewis. Mae'r polisiau a fabwysiadwyd gan IOPC yn cael eu disgrifio isod. Maen nhw wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno mewn Sterling ac mae'r holl werthoedd yn cael eu talgrynnu i'r mil o bunnoedd agosaf (£'000).

1.1 Confensiynau cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol ar gyfer ailbrisió eiddo, peirianwaith a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac eithrio lle mae cost hanesyddol dibrisiedig yn cael ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol ar gyfer asedau oes fer neu werth isel.

1.2 Busnes hyfyw

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sy'n berthnasol i gyrff y Llywodraeth yn diffinio bod y ddarpariaeth barhaus a ragwelir o wasanaethau'r endid yn y sector cyhoeddus fel arfer yn ddigon o dystiolaeth o fusnes gweithredol. Mae gweithgareddau IOPC yn cael eu cyllido'n bennaf gan y Swyddfa Gartref. Mae cymorth grant ar gyfer 2024/25 yn cymryd i ystyriaeth y swm sydd ei angen i gwrdd â rhwymedigaethau IOPC sy'n dod yn ddyledus yn y flwyddyn ac mae wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon cyflenwad cymeradwy Senedd y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn honno. Nid oes rheswm i gredu na fydd y Swyddfa Gartref yn derbyn nawdd a chymeradwyaeth seneddol yn y dyfodol. Mae hi, felly, wedi cael ei hystyried yn briodol i fabwysiadu sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.3 Grant mewn cymorth

Defnyddir cymorth grant, a dderbynnir gan y Swyddfa Gartref, i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol IOPC. Mae'r cymorth grant a dderbynnir yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a'i drin fel cyllid oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn gyfraniadau gan barti rheoli.

1.4 Eiddo, peirianwaith a chyfarpar

Mae eiddo, peirianwaith a chyfarpar (PPE) yn cael eu cydnabod ar gost ac wedi hynny ar werth presennol mewn defnydd sy'n bodoli llai dibrisiant a diffyg.

Mae cost yn cynnwys y swm o arian parod a delir i gaffael yr asedau ac mae'n cynnwys unrhyw gost yn uniongyrchol briodoladwy i wneud yr ased yn abl i gael ei gweithredu fel y bwriedir. Y trothwy cyfalafu ar wariant ar PPE yw £5,000.

Nid yw IOPC yn berchen ar unrhyw eiddo. Mae'r holl beirianwaith a chyfarpar yn cael eu hadolygu'n flynyddol am ddiffyg ac mae'n cael ei gario ar werth presennol mewn defnydd sy'n bodoli. Pennir gwerth cyfredol mewn defnydd presennol gan brocsi yn seiliedig ar gost hanesyddol fel y caniateir gan FReM ac eithrio lle byddai ailbriso asedau unigol yn cael effaith sylweddol ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

Mae gwariant ar addasu adeiladau wedi'i gyllido gan lesiau gweithredol yn cael eu cyfalafu fel ased anghyfredol os yw'r gwaith yn ychwanegu gwerth at yr adeilad. Mae cost addasu adeiladau yn gallu cynnwys costau dodrefn a chyfarpar newydd sy'n costio llai na £5,000 yn unigol lle mae'r Swyddog Cyfrifo yn ei hystyried yn fwy priodol i gyfalafu'r costau. Bydd costau newid dodrefn a chyfarpar yn y dyfodol yn cael eu cyllido o'r gyllideb adnoddau ar yr amod fod y costau o dan y trothwy cyfalafu ar adeg y newid.

1.5 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar gydnabyddiaeth gychwynnol ar gost ac wedi hynny ar werth cyfredol mewn defnydd presennol llai amorteiddiad ac amhariad. Mae asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol, gan eithrio costau datblygu wedi'u cyfalafu, ddim wedi cael eu cyfalafu ac mae gwariant yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd y gwariant ei greu ynddi.

Mae gwariant ar asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â meddalwedd, a chostau cysylltiedig gweithredu yn cael eu cyfalafu lle mae'r gost yn £5,000 neu fwy.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae'r asedau anniriaethol yn cael eu hasesu ar gyfer lleihad ac mae'r cyfnod a'r dull amorteiddio hefyd yn cael eu hadolygu. Pennir gwerth cyfredol mewn defnydd presennol gan brocsi yn seiliedig ar gost hanesyddol fel y caniateir gan y FReM ac eithrio lle byddai ailbriso asedau anniriaethol unigol yn cael effaith sylweddol ar y datganiad o sefyllfa ariannol.

1.6 Asedau sy'n cael eu Hadeiladu

Cofnodir asedau sy'n cael eu hadeiladu ar gost hanesyddol yn ôl categori ased. Caiff gwariant ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio, megis costau trydydd parti a chostau gweithwyr perthnasol. Ar

ôl ei gwblhau, trosglwyddir gwerth cario'r ased i'r gofrestr asedau ac yna caiff yr asedau eu dibrisio neu eu hamorteiddio yn unol â hynny.

1.7 Dibrisiant ac amorteiddiad

Mae dibrisiant neu amorteiddiad yn cael ei gynnig ar yr holl asedau anghyfredol a ddefnyddir ar sail llinell syth i leihau'r gost neu'r gwerth-mewn-defnydd dros oes ddefnyddiol yr ased fel y canlynol:

Math o ased	Oes defnyddiol
Dodrefn a gosodiadau	Hyd y brydles neu oes ddefnyddiol a ragwelir
Cerbydau	8 mlynedd
Technoleg Gwybodaeth	3 i 5 o flynyddoedd
Aседau anniriaethol	5 mlynedd neu oes ddefnyddiol a ragwelir

Mae bywydau defnyddiol yn cael eu hadolygu a'u haddasu fel y bo'n briodol ar ddyddiad pob mantolen.

1.8 Pensiynau

a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae pensiynau i fod i gael eu darparu fel arfer gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cael ei ddisgrifio'n fwy yn yr adroddiad talu a staff. Mae datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS yn ei gyfanrwydd. Mae cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau. Mae rhwymedigaethau'n gorwedd â'r PCSPS ac nid IOPC.

b) Yn fras trwy gydweddiad

Yn achos rhai cyn-aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu, mae pensiynau'n cael eu darparu trwy drefniant pensiwn yn Fras trwy Gydweddiad. Yn yr achosion hyn, mae cost flynyddol cyfraniad y pensiwn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Mae symiau sy'n gysylltiedig â newidiadau ym mhriadiad actiwaraid rhwymedigaethau cynllun yn cael eu haddasu trwy'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Mae rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun Yn Fras trwy Gydweddiad yn gorwedd â IOPC. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cydymffurfio'n llawn ag IAS 19: Buddion Gweithwyr.

1.9 Costau staff

Yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr, mae IOPC yn cydnabod y costau disgwylledig o fuddion gweithwyr tymor byr ar ffurf absenoldebau y telir amdanynt, fel y canlynol:

(a) yn achos crynhoi absenoldebau y telir amdanynt, pan fydd y gweithwyr yn cyflwyno gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau y telir amdanynt yn y dyfodol; a

(b) yn achos absenoldebau y telir amdanynt sydd ddim yn crynhoi, pan fydd yr absenoldebau'n digwydd.

Mae iawndal yn seiliedig ar dâl gwyliau cytundebol yn unig ac mae'n eithrio gwyliau hyblyg a grynhoir.

1.10 Darpariaethau

Yn unol â IAS 37, mae darpariaethau'n cael eu datgelu yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol mewn bodolaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd os yw swm y taliad i dalu am y rhwymedigaeth yn debygol ac y gellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae'r swm a gydnabyddir mewn darpariaethau yn ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i dalu am rhwymedigaethau talu yn y dyfodol.

Mae'r mesuriad yn seiliedig ar swm y setliad gan gynnwys costau cyfreithiol gyda'r tebygolrwydd uchaf neu os yw'r tebygolrwydd yn gyfwerth, yna gan ddefnyddio gwerth disgwylidig symiau'r setliad. Nid yw llifau arian disgwylidig yn cael eu disgowntio gan na fyddai'r effaith yn berthnasol. I'r graddau bod hawliau adferiad yn bodoli o fewn ystyr IAS 37, mae'n nhw'n cael eu hystyried fel rhwymedigaeth ar wahân os yw eu gwirediad yn sicr i bob pwrpas.

1.11 Treth ar Werth

Mae IOPC wedi cael ei gofrestru ar gyfer TAW ond mae'n gallu adennill TAW ar bryniadau wrth ymgymryd â gweithgareddau anstatudol yn unig. Mae unrhyw dreth adenilladwy yn cael ei chredydu i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

1.12 Treth gorfforaeth

Mae IOPC wedi cofrestru ar gyfer treth gorfforaeth fel rhan o grŵp treth gorfforaeth y Swyddfa Gartref.

1.13 Prydlesi

Rhoddodd y IOPC IFRS 16 ar waith ar 1 Ebrill 2022 a daeth ag asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau prydles cysylltiedig i'w datganiadau ariannol mewn perthynas â'u heiddo ar brydles presennol.

Wrth drosglwyddo, cyfrifwyd y rhwymedigaethau ar sail gwerth presennol taliadau rhent les yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd o 0.95% fel y nodir ym mhapur Trysorlys EM, PES (2022) 08. Cyfrifwyd yr hawl i ddefnyddio asedau trwy addasu gwerth presennol y taliadau rhent yn ôl rhagdaliadau a chroniadau.

Mewn cytundebau prydles newydd yr ymrwymir iddynt ar ôl 1 Ebrill 2022 dylai cost ased hawl i'w ddefnyddio gynnwys:

- Gwerth presennol rhwymedigaeth les yn y dyfodol
- Taliadau a wneir cyn cychwyn y brydles
- Adfer amcangyfrifedig (costau dadfeiliad)
- Costau uniongyrchol cychwynol mynd i mewn i'r brydles

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth yn unol â thymor y brydles.

Defnyddir cyfradd briodol y Trysorlys i ddisgowntio taliadau prydles pan nad oes cyfradd llog ymhlyg yn y contract.

Mae IOPC yn defnyddio'r model cost yn IFRS16 fel y'i dehonglir yn y FReM ar gyfer mesur dilynol yr asedau hawl i ddefnyddio. Yr asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur ar gost llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad a'u haddasu ar gyfer unrhyw fesur o rwymedigaeth y brydles. Mae IOPC o'r farn bod y model cost yn IFRS16 yn ddirprwy priodol ar gyfer gwerth cyfredol y defnydd presennol gan fod gan yr asedau hawl i ddefnyddio oes a gwerthoedd byrrach na'r ased sylfaenol.

Mae datgeliadau meintiol i'w gweld yn nodyn 12.

1.14 Safonau dan sylw, ond heb ddod i rym eto

Mae safonau newydd sy'n cael eu cyhoeddi ond nad ydynt yn effeithiol eto yn cynnwys IFRS 17 *Contractau Yswiriant*, neu newidiadau eraill na fydd yn cael unrhyw effaith ar IOPC.

1.15 Safonau newydd sy'n cael eu mabwysiadu

Ni fabwysiadwyd unrhyw safonau newydd yn ystod y cyfnod adrodd.

1.16 Dyfarniadau cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae paratoi datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr wneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a adroddir, datgeliadau o asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a'r symiau incwm a gwariant a adroddir yn ystod y cyfnod. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am y dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn isod.

Rhwymedigaethau pensiwn BBA Nodir y rhwymedigaethau ar werth teg yn seiliedig ar y prisiad a gyflawnir gan Adran Actiwariadaid y Llywodraeth. Mae'r rhagdybiaethau prisio ar gyfer y gyfradd ddisgownt a'r codiadau pensiwn wedi'u pennu gan Drysorlys EF yn y PES (2023) 10, dyddiedig 4 Rhagfyr 2023, ac nid ydynt wedi newid ar gyfer y datgeliadau hyn. Mae'r rhagdybiaethau PES yn

adlewyrchu amodau'r farchnad ar 30 Tachwedd blaenorol ac nid ydynt fel arfer yn cael eu diwygio ar gyfer unrhyw newidiadau rhwng Tachwedd a'r dyddiad cyfrifo. Mae'r rhagdybiaethau'n parhau'n weddol gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfrifon PCSPS ar 31 Mawrth 2024.

Darpariaethau adfer. Mae IOPC wedi ymrwymo i sawl cytundeb rhentu ar gyfer yr eiddo y mae'n ei feddiannu. Mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau hyn yn cynnwys cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i IOPC, ar ddiwedd y cyfnod rhentu, adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol neu dalu cost unrhyw waith angenrheidiol i gyflawni hyn i'r landlord. Mae IOPC felly yn darparu ar gyfer y gost o gael gwared ag unrhyw addasiadau y mae'n eu gwneud ac atgyweirio unrhyw ddifrod neu draul sy'n digwydd yn ystod ei denantiaeth.

Mae darpariaethau ar gyfer costau adfer eiddo yn Canary Wharf yn seiliedig ar brisiad a ddarparwyd gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Ym mhob eiddo arall mae'r darpariaethau'n seiliedig ar brisiadau a wnaed gan brisiwr proffesiynol annibynnol Cushman a Wakefield sydd â phrofiad diweddar yn y lleoliad a'r categori prisio. Cymhwysir mynegeo rhwng prisiadau proffesiynol.

Bywyd economaidd asedau. Mae bywydau asedau IOPC yn cael eu hailasesu bob blwyddyn. Mae bywydau economaidd asedau eiddo gan gynnwys asedau hawl i ddefnyddio fel arfer yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod Rheolaethau Eiddo Cenedlaethol yn berthnasol, lle mae'n rhaid i ni geisio caniatâd i aros yn ein heiddo, mae bywyd economaidd yr Ased Hawl i Ddefnyddio wedi'i osod i'r cynharaf y daw toriad y brydles neu ddiwedd y brydles. Mae bywydau asedau diriaethol eraill yn seiliedig ar ein profiad o hyd eitemau tebyg. Mae asedau anniriaethol fel arfer yn seiliedig ar yr oes ddisgwyliedig ar ôl ystyried systemau amnewid posibl.

Croniadau, darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae IOPC yn gwneud cronladau lle cafwyd dyfarniadau yn erbyn IOPC a lle derbyniwyd hawliad penodol am gostau. Gwneir darpariaethau lle cafwyd dyfarniadau yn erbyn IOPC a lle gall y rheolwyr amcangyfrif y costau'n ddibynadwy. Datgelir rhwymedigaethau wrth gefn yn y nodiadau fel sy'n ofynnol gan IAS 37 lle nad yw hawliadau cyfreithiol wedi dod i gasgliad eto.

Asedau Hawl i Ddefnyddio Mae IOPC wedi rhagdybio y bydd y Rheolaeth Eiddo Genedlaethol yn berthnasol i bob toriad prydles yn y dyfodol.

2 Datganiad o gostau gweithredu fesul segment gweithredu

Mae'r segmentau gweithredu yn seiliedig ar strwythur adrodd ariannol y bwrdd rheoli ar 31 Mawrth 2024. Nid yw asedau net fesul segment yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd.

Mae rhagor o wybodaeth am incwm gan gwsmeriaid allanol ar gael yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae incwm gan HMRC yn fwy na 10% o refeniw IOPC ac mae wedi'i gynnwys yn segment y Gyfarwyddiaeth Weithrediadau.

Rhan	2023/24 Gwariant gros £'000	2023/24 Incwm £'000	2023/24 Gwariant net £'000
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol	16,387	(48)	16,339
Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau	33,857	(26)	33,831
Grŵp Swyddfa Breifat	1,386	-	1,386
Gwasanaethau Cyfreithiol	3,277	-	3,277
Cyfarwyddiaeth Strategaeth ac Effaith	10,945	-	10,945
Cyfarwyddiaeth Pobl	5,173	-	5,173
Heb fod yn arian parod	4,069	-	4,069
Cyfanswm	75,094	(74)	75,020

Rhan	2022/23 Gwariant gros £'000	2022/23 Incwm £'000	2022/23 Gwariant net £'000
Gwasanaethau Corfforaethol	14,018	(16)	14,002
Gweithrediadau	32,620	(48)	32,572
Grŵp Swyddfa Breifat	1,465	-	1,465
Gwasanaethau Cyfreithiol	3,762	-	3,762
Strategaeth ac Effaith	10,743	-	10,743
Pobl	5,202	-	5,202
Heb fod yn arian parod	4,766	-	4,766
Cyfanswm	72,576	(64)	72,512

3 Pensiynau

3.1 Cynllun pensiwn bras trwy gydweddiad

Mae rhai comisiynwyr a staff IPCC a wasanaethodd ag Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn derbyn pensiynau'n fras trwy gydweddiad (BBA) â'r PCSPS. Nid yw'r pensiynau BBA wedi'u cyllido, gyda buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac wedi'u gwarantu gan IOPC. Nid oes cronfa ac felly nid oes gwarged na diffyg. Mae rhwymedigaethau gwasanaeth y cynllun wedi cael eu cyfrifo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau ariannol canlynol:

Rhagdybiaeth	2023/24	2022/23
Cyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	5.10%	4.15%
Cyfradd rhagdybiaeth chwyddiant CPI	2.55%	2.4%
Cyfradd cynnydd mewn taliad pensiynau a phensiynau gohiriedig	2.55%	2.4%

Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y raddfa ddisgownt a chynnydd pensiwn yn cael eu nodi gan Drysorlys EF yn y PES (2023) papur 10, dyddiedig 4 Rhagfyr 2023, ac yn aros yn ddigynfnewid ar gyfer y cyfrifon hyn. Mae'r rhagdybiaethau PES yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar 30 Tachwedd 2023 a fel arfer ddim yn cael eu diwygio ar gyfer unrhyw newidiadau rhwng Tachwedd a'r diwrnod cyfrifo.

Mae Covid-19 a newid yn yr hinsawdd yn feysydd lle mae ansicrwydd sylweddol o hyd, a allai effeithio ar brofiad economaidd a demograffig yn y dyfodol. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi datgeliadau pensiynau 2023-24 yn caniatáu ar gyfer effeithiau presennol Covid-19 a newid yn yr hinsawdd i'r graddau y maent yn cael eu hadlewyrchu yn y data marchnad a ddefnyddir i osod neu ddeillio rhagdybiaethau.

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth yn defnyddio rhagdybiaethau gwerthuso PCPS 2020 gyda phrif amcanestyniadau poblogaeth y DU Swyddfa'r Ystadegau Gwladol yn 2020 (2020 am y flwyddyn flaenorol) sy'n rhoi'r disgwyliadau oes canlynol ar ymddeoliad.

	31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2023	
	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod
Pensiynwyr presennol				

Yn 60 oed	26.7	28.2	26.6	28.1
Yn 65 oed	21.9	23.3	21.8	23.2

O fis Mawrth 2024 mae cynllun BBA wedi cau i bensiynwyr y dyfodol.

Mae'r rhwymedigaethau yn gysylltiedig ag aelodau fel y canlynol	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Darpariaeth pensiwn		
Balans ar 1 Ebrill	1,730	2,587
Gostyngiad mewn darpariaeth	(34)	(857)
Gwerth presennol rhwymedigaethau	1,696	1,730

Symiau eraill i gael eu datgelu i ddeall y newid mewn darpariaeth	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Rhwymedigaeth y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	1,730	2,587
Symudiad yn y flwyddyn		
Cost llog	70	39
Colled Actiwaraid/(ennill)	4	(770)
Buddion a dalwyd	(108)	(126)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn atebolrwydd cynllun	(34)	(857)
Rhwymedigaeth y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	1,696	1,730

Cost i gael ei chydabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Costau llog	70	39
Cyfanswm cost	70	39

Colled/(enillion) actiwaraidd i gael eu cydnabod mewn Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Colled profiad yn deillio o rhwymedigaethau'r cynllun	174	83
Newid mewn rhagdybiaethau sy'n sylfaen i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(170)	(853)
Cyfanswm net actiwaraidd (ennill)/colled ar ecwiti trethdalwyr	4	(770)

Nid oes costau gweithwyr a chyflogwr yn daladwy yn 2023/24.

Gwerth presennol rhwymedigaethau 'r cynllun	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
Rhwymedigaeth ynglŷn â:					
Pensiynwyr gohiriedig	-	-	680	629	583
Pensiynau presennol	1,696	1,730	1,907	1,841	1,788
Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau 'r cynllun	1,696	1,730	2,587	2,470	2,371
Hanes profiad colled/(enillion)	174	83	33	(32)	(11)
Canran rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	10.3%	4.8%	1.3%	-1.3%	-0.5%

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig (DBO) i newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd sylweddol			
Newid mewn rhagdybiaeth		Effaith ar DBO	
		%	£'000
Cyfradd disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	+ 0.5% y flwyddyn	-5%	(88)
Cyfradd cynnydd mewn CPI	+ 0.5% y flwyddyn	5%	88
Disgwyliad oes: tybir bod pob aelod flwyddyn yn iau na'r oedran gwirioneddol		2%	41

3.2 Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha” – yn gynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu hariannu, ond ni all IOPC nodi ei gyfran o'r asedau sylfaenol a rhwymedigaethau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y PCSPS ar 31 Mawrth 2020. Gallwch ddod o hyd i fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil.

Ar gyfer 2023/24, roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,496k yn daladwy i'r PCSPS (2022/23 £9,952k) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2022/23 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer pob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun.

Mae'r cyfraddau cyfrannu yn cael eu gosod i ateb cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2023/24 i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae gweithwyr yn gallu dewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £268k (2022/23 £275k) i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogai hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £8k (2022/23 £9k), 0.5% o enillion pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail afiechyd y gweithwyr hyn.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £34k (2022/23 £30k).

Ymddeolodd dau unigolyn yn gynnar ar sail afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £13k (2022/23 £Dim).

Disgwylir i gyfraniadau cyflogwr o £11,373k fod yn daladwy i'r PCSPS a chynlluniau eraill ar gyfer y cyfnod adrodd blynyddol nesaf.

4 Gwariant

	Nodyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Costau staff			
Cyflogau a thaliadau		42,759	40,244
Cost nawdd cymdeithasol		4,552	4,301
Cyfraniadau pensiwn		10,707	10,236
Llai: adferiadau o secondiadau allan		(353)	(414)
Cyfanswm costau net staff		57,665	54,367
Prynu nwyddau a gwasanaethau			
TG		5,135	5,131
Rhentu llety		207	173
Llety heb ei rentu		3,825	3,196
Gwasanaethau cyfreithiol		1,035	1,210
Teithio a chynhaliaeth		658	860
Ffioedd proffesiynol		610	691
Hyfforddiant		337	459
Ymgynghoriaeth		180	-
Fforensigau		342	360
Recrwtio		157	303
Cyfarwyddyd i'r heddlu a'r cyhoedd		59	139
Llog prydles		119	137
Post a deunydd ysgrifennu		69	85
Ymchwil		60	65
Ffi archwilio - allanol		66	64

	Nodyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Costau eraill		501	570
Cyfanswn prynu nwyddau a gwasanaethau		13,360	13,443
Eitemau heb fod am arian parod			
Dibrisiant - PPE	5	1,822	1,794
Dibrisiant - ROU	12	2,243	2,249
Amorteiddiad	6	919	871
Darpariaethau net gwrthdroadau	11	(1,184)	(183)
Colled/(enillion) ar waredu asedau anghyfredol		199	(4)
Cost pensiwn BBA	3.1	70	39
Cyfanswm eitemau sydd ddim yn arian parod		4,069	4,766
Cyfanswm gwariant gweithredu			
		75,094	72,576

Mae datgeliadau manylach ar gostau staff wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Y ffi ar gyfer archwiliad allanol 2023/24 o'r Datganiad Cyfrifon oedd £65,700 (2022/23 £61,520). Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd ag unrhyw waith heb fod yn waith archwilio.

5 Eiddo, peirianwaith a chyfarpar

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a gosodiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2023	234	6,195	1,173	11,797	19,399
Aiddosbarthiadau	(234)	234	-	-	-
Addasiad cost	-	-	-	(12)	(12)

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a gosodiadau £'000	Cyfanswm £'000
Ychwanegiadau	343	199	-	-	542
Gwarediadau	-	(650)	(295)	(3,832)	(4,777)
Ar 31 Mawrth 2024	343	5,978	878	7,953	15,152
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2023	-	3,428	685	9,922	14,035
Cost am y flwyddyn	-	972	124	726	1,822
Gwarediadau	-	(650)	(282)	(3,831)	(4,763)
Ar 31 Mawrth 2024	-	3,750	527	6,817	11,094
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	343	2,228	351	1,136	4,058

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a gosodiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2022	1,096	5,736	1,173	10,922	18,927
Aiddosbarthiadau	(1,086)	540	-	546	-
Addasiadau	-	-	-	178	178
Ychwanegiadau	224	294	-	151	669
Gwarediadau	-	(375)	-	-	(375)
Ar 31 Mawrth 2023	234	6,195	1,173	11,797	19,399
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2022	-	2,814	573	9,227	12,614

Cost am y flwyddyn	-	987	112	695	1,794
Gwarediadau	-	(373)	-	-	(373)
Ar 31 Mawrth 2023	-	3,428	685	9,922	14,035
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	234	2,767	488	1,875	5,364

6 Asedau anniriaethol

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2023	1,999	12,078	14,077
Ailddosbarthiadau	(110)	110	-
Ychwanegiadau	1,811	183	1,994
Gwarediadau	(353)	(320)	(673)
Ar 31 Mawrth 2024	3,347	12,051	15,398
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2023	-	10,351	10,351
Cost am y flwyddyn	-	919	919
Gwarediadau	-	(320)	(320)
Ar 31 Mawrth 2024	-	10,950	10,950
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	3,347	1,101	4,448

Cofnodir asedau anniriaethol IOPC yn unol ag IAS 38. Mae IAS 38 yn nodi'r meini prawf ar gyfer cydnabod a mesur asedau anniriaethol ac mae'n gofyn am ddatgeliadau yn eu cylch.

Mae costau staff mewnol yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth weithredu prosiectau cyfalaf yn cael eu nodi fel gwariant cyfalaf, ar yr amod eu bod yn bodloni amodau IAS 38. Nid yw costau ymchwil wedi'u cyfalafu

Yr asedau anniriaethol mwyaf arwyddocaol sy'n cael eu hadeiladu yw datblygu System Rheoli Achosion newydd a System Rheoli Cofnodion Dogfennau Electronig sy'n seiliedig ar SharePoint i'w chwblhau yn ddiweddarach yn 2024/25. Y gwerthoedd llyfr net ar 31 Mawrth 2024 yw £2,414k a £641k yn y drefn honno.

Daeth y System Rheoli Achosion yn fyw ar 17 Ebrill 2024.

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2022	1,256	11,688	12,944
Ailddosbarthiadau	(351)	351	-
Ychwanegiadau	1,094	170	1,264
Gwarediadau	-	(131)	(131)
Ar 31 Mawrth 2023	1,999	12,078	14,077
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2022	-	9,611	9,611
Cost am y flwyddyn	-	871	871
Gwarediadau	-	(131)	(131)
Ar 31 Mawrth 2023	-	10,351	10,351
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023			
	1,999	1,727	3,726

7 Offerynnau ariannol

Nid yw IOPC yn cadw unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr offerynnau ariannol a gynhwysir yn y cyfrifon yw arian parod, symiau derbyniadwy, symiau taladwy ac asedau contract. Mae symiau masnach derbyniadwy yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth teg llai darpariaeth ar gyfer lleihad. Mae darpariaeth ar gyfer lleihad yn cael ei wneud pan fydd tystiolaeth na fydd IOPC yn gallu casglu swm yn unol â thelerau cytunedig.

Mae adnoddau IOPC yn cael eu cyflenwi'n bennaf trwy grant mewn cymorth o'r Swyddfa Gartref trwy'r broses o gyflenwi ac o incwm am waith a gwblheir ar sail ad-dalu. Nid oes gan IOPC bwerau i fenthg arian nac i fuddsoddi cronfeydd dros ben heblaw am yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol a gynhrychir gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd. O ganlyniad, mae IOPC yn agored i ychydig neu ddim credyd, hylifedd, arian cyfred tramor, neu risg o chwyddiant.

8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Balans agoriadol	6,603	8,420
Newid net mewn balansau arian parod yn ystod y flwyddyn	1,690	(1,817)
Balans cau arian parod	8,293	6,603

Dim ond arian parod sy'n cael ei gadw ac sydd ar gael ar unwaith gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth

9 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn		
Asedau contract	8	13
Symiau masnach derbyniadwy	33	31
Benthyciadau i staff	37	39
Rhagdaliadau	1,302	1,068
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn	1,380	1,151

10 Masnach a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn		
TAW	111	101

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	2,200	2,200
Buddion staff	2,063	2,092
Dargadwadau	-	254
Symiau taladwy eraill	3	2
Croniadau ac incwm gohiriedig	4,108	3,670
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn	8,485	8,319
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn		
Symiau taladwy, cronidau ac incwm gohiriedig eraill	-	-
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	-	-
Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill	8,485	8,319

11 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

Yn unol â Darpariaethau, Rhwymedigaethau Dibynnol ac Asedau Dibynnol IAS 37, mae'r costau adfer eiddo wedi cael eu cydnabod fel rhan o'r asedau ffitio allan a byddant yn cael eu dibrisio dros dymhorau'r brydles.

Ar gyfer darpariaethau eiddo mae IOPC yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer pob eiddo ar brydles lle mae rhwymedigaeth arno i ddod â'r eiddo i gyflwr da ar ddiwedd y brydles. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif costau ailosod addasiadau mae IOPC wedi'u gwneud, a'r goblygiadau trwsio sy'n ofynnol yn ystod y brydles.

Yn ystod 2023/24 cafodd y darpariaethau ar gyfer ein rhwymedigaethau ar gyfer costau adfer eiddo eu hasesu'n broffesiynol. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £895,000 yn y darpariaethau gofynnol ac amcangyfrifir mai'r gost o adfer addasiadau yw £2,171,000 (£3,066,000 ar gyfer 2022/23).

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2023	3,066	-	3,066

Darparwyd yn y flwyddyn	453	-	453
Darpariaeth a ddefnyddiwyd	(346)	-	(346)
Darpariaethau nad oes eu hangen yn cael eu hysgrifennu yn ôl	(1002)	-	(1002)
Gostyngiad mewn darpariaethau	(895)	-	(895)
Balans ar 31 Mawrth 2024	2,171	-	2,171
	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Cynrychiolir gan:			
Elfen bresennol y ddarpariaeth	198	-	198
Elfen anghyfredol y ddarpariaeth	1,973	-	1,973

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau sydd wedi cael eu disgowntio			
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	198	-	198
Yn hwyrach nag un flwyddyn ac heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	991	-	991
Yn hwyrach na phum mlynedd	982	-	982
Balans ar 31 Mawrth 2024	2,171	-	2,171

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2022	2,976	95	3,071
Darparwyd yn y flwyddyn	178	-	178

Darpariaeth a ddefnyddiwyd	-	(45)	(45)
Darpariaethau nad oes eu hangen yn cael eu hysgrifennu yn ôl	(88)	(50)	(138)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	90	(95)	(5)
Balans ar 31 Mawrth 2023	3,066	-	3,066
Cynrychiolir gan:			
Elfen bresennol y ddarpariaeth	96	-	96
Elfen anghyfredol y ddarpariaeth	2,970	-	2,970

12 Prydlesau

Rhodddwyd cyfrif am brydlesau o dan IFRS 16 o 1 Ebrill 2022. Mae IOPC wedi defnyddio dyfarniadau cyfrifyddu critigol mewn perthynas â thoriadau prydles yn y dyfodol.

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Mae rhwymedigaethau o dan brydlesau ar gyfer y cyfnod dilynol yn cynnwys		
Eiddo:		
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	1,891	2,276
Yn hwyrach nag un flwyddyn ac heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	5,515	5,724
Yn hwyrach na phum mlynedd	4,853	6,198

Llai elfen llog	(473)	(592)
Gwerth presennol rhwymedigaethau prydles	11,786	13,606

Asedau hawl i ddefnyddio	Eiddo £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad		
Ar 1 Ebrill 2023	15,073	15,073
Ychwanegiadau	301	301
Gwarediadau	(149)	(149)
Ar 31 Mawrth 2024	15,225	15,225
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2023	2,249	2,249
Cost am y flwyddyn	2,243	2,243
Gwarediadau	(149)	(149)
Ar 31 Mawrth 2024	4,343	4,343
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024	10,882	10,882

Asedau hawl i ddefnyddio	Eiddo £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad		
Ar 1 Ebrill 2022	15,073	15,073
Ar 31 Mawrth 2023	15,073	15,073
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2022	-	-
Cost am y flwyddyn	2,249	2,249
Ar 31 Mawrth 2023	2,249	2,249

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	12,824	12,824

13 Rhwymedigaethau dibynnol a ddatgelir o dan IAS 37

Mae gan IOPC rwymedigaethau wrth gefn mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol neu hawliadau posibl yn erbyn IOPC. Ni ellir amcangyfrif canlyniad ac amseriad y rhain â sicrwydd. Nid yw llawer o'r hawliadau wedi'u manylu'n ddigonol i alluogi IOPC i amcangyfrif yr effaith ariannol.

Mae'r darpariaethau adfer yn nodyn 11 yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau adfer ac nid ydynt yn cynnwys colledion canlyniadol posibl. Mae costau ymadael ystadau yn cael eu datrys trwy drafodaeth, ac nid yw eu canlyniad ac amseriad yn gallu cael eu hamcangyfrif â sicrwydd a gall IOPC fod yn atebol am gostau ychwanegol.

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol yn disgrifio rhwymedigaethau wrth gefn o bell.

14 Trafodion cysylltiedig â pharti

Y Swyddfa Gartref yw adran noddï IOPC ac mae'n barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, darparodd y Swyddfa Gartref gymorth grant, fel y datgelir yn nodyn 16.

Dangosir yr incwm ar gyfer y flwyddyn adrodd gan y Swyddfa Gartref yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y Swyddfa Gartref i IOPC yn cael eu dosbarthu fel symiau masnach a derbyniadau eraill ac yn dod i £dim (£dim ym mis Mawrth 2023).

Mae pob corff llywodraeth ganolog arall yn bartïon cysylltiedig. Mae'r incwm o'r cyrff hyn yn cael ei ddangos yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y cyrff hyn i IOPC wedi'u dosbarthu fel symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill ac yn dod i £40,227 (£43,336 ym mis Mawrth 2023). Mae'r gwerth ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan i gynnwys pob corff llywodraeth ganolog arall.

Mae'r PCSPS a Swyddfa'r Cabinet hefyd yn bartïon cysylltiedig. Mae rhagor o wybodaeth ar y trafodion â'r cyrff hyn i'w chanfod yn adran pensiynau'r adroddiad talu.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 ni ymgwymerodd cyfarwyddwyr anweithredol, cyfarwyddwyr gweithredol na staff rheoli allweddol

ag unrhyw drafodion materol â IOPC. Mae'r adran ar dâl ac adroddiad staff yn rhoi gwybodaeth am iawndal rheoli allweddol.

Mae IOPC wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad yn seiliedig ar God Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae IOPC yn cynnal cofrestr o ddiddordebau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a'r holl staff y mae gofyn iddynt ddatgan diddordebau. Mae'r gofrestr diddordebau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol ar gael i'r cyhoedd ac mae ar ein gwefan. Lle mae unrhyw benderfyniadau yn cael eu cymryd a allai gael eu gweld yn rhesymol yn achosi gwrthdaro diddordeb mae'n ofynnol i unigolion ddatgan y diddordeb perthnasol a, phan yn briodol, tynnu allan o gymryd rhan mewn cymryd y penderfyniad. Mae gweithdrefnau IOPC hefyd yn sicrhau nad yw ymchwilyr yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau lle byddai ganddynt diddordeb.

15 Asedau trydydd parti

Yn achlysurol, mae IOPC yn dal asedau trydydd parti pan fydd yn ofynnol i hwyluso ymchwiliadau. Mae'r rhain yn cael eu storio'n ddiogel ac fel arfer yn cael eu dychwelyd i'r perchennog cyfreithlon pan nad oes eu hangen rhagor. Nid yw amcangyfrifon dibynadwy o'u gwerth yn gallu cael eu gwneud.

Nid yw asedau trydydd parti yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol oherwydd nad oes gan IOPC diddordeb buddiol ynddynt. Ar 31 Mawrth 2024 nid oedd unrhyw asedau ariannol yn cael eu dal (2022/23 £dim).

16 Grant mewn cymorth

Ariennir IOPC gan gymorth grant, a derbynnir yr arian sydd ei angen i ariannu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn gan y Swyddfa Gartref.

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Derbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	74,464	69,067
Derbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	2,536	1,933
Cyfanswm grant mewn cymorth a dderbyniwyd	77,000	71,000

17 Hillsborough

Mae'r nodyn hwn yn dangos y gwariant a grëwyd yn ystod 2023/24 a 2022/23.

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Costau staff		
Cyflogau a thaliadau	3,110	2,606
Cost nawdd cymdeithasol	303	276
Cyfraniadau pensiwn	721	700
Staff dros dro	36	33
Cyfanswm costau staff	4,170	3,615
Gwariant arall		
Llety heb ei rentu	482	701
Llog prydles	11	14
TG	24	48
Gwasanaethau cyfreithiol	14	-
Costau eraill	10	28
Recriwtio	-	1
Deunydd ysgrifennu swyddfa	3	6
Hyfforddiant	2	10
Teithio a chynhaliaeth	18	22
Cyfanswm gwariant arall	564	830
Heb fod yn arian parod		
Dibrisiant	348	354
Colled ar waredu asedau	-	-
Cyfanswm eitemau heb fod yn arian parod	348	354
Cyfanswm gwariant refeniw	5,082	4,799

18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynnyddol eu hawdurdodi i'w dosbarthu gan y Swyddog Cyfrifo ar yr un dyddiad y cafodd y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd y mae angen eu datgelu.

ISBN 978-1-5286-5019-9

E03149026

Wedi cael ei argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu

Wedi cael ei argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2025)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partion.

Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Rhif ffôn: **0300 020 0096**

Ebost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

CUSTOMER
SERVICE
EXCELLENCE®

